# Adroddiad Hunan-asesu 2022-23



monmouthshire
sir fynwy

# Rheolaeth Fersiwn

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Hunan-asesiad Cyngor Sir Fynwy 2022/23 |
| **Diben** | Hunan-asesu nodau a threfniadau'r cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |
| **Perchennog** | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau |
| **Cymeradwywyd gan** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Dyddiad** | Hydref 2023 |
| **Rhif y Fersiwn** | 1.0 |
| **Statws** | Cymeradwywyd |
| **Amlder Adolygu** | Blynyddol |
| **Dyddiad adolygu nesaf** | Gorffennaf 2024 |
| **Ymgynghori** | Cabinet<br>Tîm Arweinyddiaeth Strategol<br>Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg<br>Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio |

# Cynnwys


Rheoi Fersiwn ... 2

Crynodeb ... 4

Cyflwyniad ... 9

Ein Hunan-asesiad ... 10

Deall ein lle lleol ... 11

Ein Deilliannau ... 12

- Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle teg i fyw ... 15
- Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle gwyrdd i fyw ... 21
- Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy’n Ffynnu ac yn Uchelgeisiol ... 27
- Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle diogel i fyw ... 31
- Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Cysylltiedig Lle mae Pobl yn Gofalu ... 35
- Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle i ddysgu ... 41

Defnyddio Ein Hadnoddau ... 47

Ein gwaith gydag eraill ... 58

Ein Camau Gweithredu ... 59

- Cynnydd ar Gamau Gweithredu 2021/22? ... 59
- Beth a sut allwn ni ei wneud yn well 2022/23? ... 62

Dulliau Mesur Perfformiad ... 64

Yr hyn a wariwyd gennym yn 2022/23 ... 69

- Beth a ddywedodd dinasyddion ... 70
- Yr hyn a ddywedodd Rheoleiddwyr ac Arolygwyr ... 73


Atodiad 1 – Proses hunan-asesu ... 74

# Crynodeb

**Mae ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn nodi ein huchelgais ar gyfer y cyngor a Sir Fynwy a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ddod yn sir garbon sero, cefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam yn eu bywydau. Ein blaenoriaethau absoliwt yw taclo diffyg cyfartaledd, gweithio'n galed i ddatgarboneiddio ein sir a gweithio gyda'n preswylwyr ac mewn partneriaeth ag eraill i fodloni ein hamcanion.**

**Hunan-asesiad blynyddol yw un o'r ffyrdd yr ydym yn dal ein hunain i gyfrif. Rydym yn olrhain y cynnydd mewn cymhariaeth â'n blaenoriaethau, yn dynodi gwersi i'w dysgu ac yn asesu ble y gellid gwneud gwelliannau er mwyn i ni allu cadw ar y llwybr cywir i gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'n ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru wneud yr un peth dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu casgliadau ein hunan-asesiad am y cyfnod 2022-23**

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym Mai 2022, etholwyd gweinyddiaeth newydd i arwain y cyngor. Cadarnhaodd y Cabinet set newydd o amcanion ym mis Hydref gyda'r aelodau yn cymeradwyo'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol mwy manwl yn Ebrill 2023, ar ôl y cyfnod asesu blynyddol. Rydym wedi strwythuro'r adroddiad o gwmpas chwe amcan y cynllun hwnnw ond gan na chadarnhawyd y cynllun cyfan hyd ddiwedd y flwyddyn, mae'r asesiad yn edrych yn bennaf ar y meysydd i'w datblygu a ddynodwyd yn yr hunan-asesiad blaenorol nid y camau penodol yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.




**Pa mor dda yr ydym yn deall ein cyd-destun lleol a'n lle?**

Mae gennym ddealltwriaeth dda o'n lle ar sail asesiad llesiant, asesiad anghenion y boblogaeth, adborth gan breswylwyr a gwybodaeth a gasglwyd gan aelodau etholedig. Mae ein data wedi bod yn sail i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau gan gynnwys y gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Mewn rhai meysydd o'n gwaith, fel diffyg cydraddoldeb a thlodi, rydym wedi dechrau datblygu data mwy lleol, ond nid ydym yn deall profiadau gwirioneddol yr holl breswylwyr yn llawn eto. Bu cyfrannu gweithredol at lunio penderfyniadau. Rydym wedi gwrando ac addasu rhai o'n cynlluniau ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd wrth graffu cyn llunio penderfyniad. Mae 33% o'r preswylwyr ar hyn o bryd yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol mewn cymhariaeth â chyfartaledd Cymru o 30%. Rydym am i'r ffigwr hwn fod yn llawer uwch. Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud i gyflawni ein huchelgais i weithio gydag ac ochr yn ochr â phreswylwyr, gan eu galluogi i siapio eu dyfodol.

**Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?**

Rydym wedi asesu ein cynnydd mewn cymhariaeth â chwe amcan ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol gan ddefnyddio graddfa chwe phwynt sy'n rhoi dyfarniad ar bob un o 1 (anfoddhaol) hyd at 6 (rhagorol). Mae llawer o'r pethau yr ydym wedi eu nodi i'w gwneud, fel gwella iechyd afonydd a chyflawni sero net yn heriau cymdeithasol cymhleth a byddant yn cymryd amser i'w cyflawni. O ganlyniad, rhai o'r gweithgareddau yr ydym yn rhoi adroddiad amdanynt yn awr yw'r blociau adeiladu a'r

cerrig milltir ar y ffordd i gyflawni'r deilliannau yr ydym yn eu bwriadu yn hytrach na’r deilliannau eu hunain.

***Lle teg i fyw* – Ein Dyfarniad: Lefel 4 (Da)**

Ni ddylai unrhyw un gael ei adael ar ôl yn Sir Fynwy ac rydym yn gweithio i helpu’r rhai sydd angen cymorth i fyw’r bywyd y mae arnynt ei eisiau. Mae’r argyfwng costau byw wedi gwneud yr anghyfartaledd incwm yn ein sir yn fwy amlwg. Mae llawer o’r preswylwyr yn ei chael yn gynyddol anodd ymdopi. Wrth ymateb, rydym wedi darparu amrywiaeth o gefnogaeth i’r rhai y mae’n effeithio arnynt, gan gynnwys dosbarthu hanner miliwn o bunnau trwy gynllun dewisol a gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol. Mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth a Mind Cymru rydym wedi rhedeg 15 o sesiynau cefnogi i roi cyngor i helpu pobl sy’n ei chael yn anodd. Rydym hefyd yn edrych yn y tymor hir ac wedi darparu rhaglenni i gynyddu cyflogaeth a sgiliau a fydd yn eu tro yn galluogi pobl i gynyddu eu hincwm. Fel y sonnir isod, y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom gefnogi 142 o bobl yn ôl i waith. Rydym hefyd yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi i helpu preswylwyr i uwchsgilio a chynyddu eu gallu i ennill cyflog.  Mae ein timau MonLife wedi darparu dros 10,000 o oriau o weithgareddau chwarae trwy’r gwyliau ysgol, ac rydym wedi goruchwylio cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd er budd teuluoedd sydd â phlant ifanc. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynyddu cyfraniad preswylwyr at y broses o lunio penderfyniadau, er enghraifft fe wnaethom £60,000 ar gael trwy gyllidebu cyfranogol lle mae preswylwyr yn penderfynu’n uniongyrchol sut i wario arian.

***Lle gwyrdd i fyw* – Ein Dyfarniad: Lefel 3 (Digonol)**

Rydym yn geidwaid i’n sir.  Rydym yn cydnabod ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur a bod rhaid gweithio i ddiogelu a chadw ein lle i genedlaethau’r dyfodol. Mae gennym yn awr ddealltwriaeth glir o’r carbon yr ydym yn ei ollwng fel sefydliad ac rydym wrthi yn weithredol i leihau hyn.  Diolch i ymdrechion preswylwyr, fe wnaethom ailgylchu 69.9% o wastraff – ymhell dros ein targed o 64% ar gyfer 22-23 ac ar y ffordd i’n targed tymor hwy o 72%. Er bod hyn yn dangos cynnydd da dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gosod her fawr i ni’n hunain ac yn cydnabod bod gennym ffordd bell i fynd yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.  Ar ein cyfradd bresennol o gynnydd, rydym yn annhebygol o gyflawni ein huchelgais o ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.  Mae lefelau ffosffadau mewn afonydd yn parhau yn broblem fawr, gyda 88% o Afon Wysg a 67% o Afon Gwy yn methu’r targedau ffosffadau. Fel awdurdod lleol, cyfyngedig yw’r pethau y gallwn eu gwneud i ymdrin â hyn. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Dŵr Cymru i wella iechyd yr afonydd ac rydym yn integreiddio adfer natur yn ein gwaith ar ddatgarboneiddio. Yn y c yngor, rydym wedi gosod 6.5MW o ynni adnewyddadwy ar ein hadeiladau ac wedi cyfnewid rhagor o’n cerbydau disel am rai trydan. Mae llawer o’r carbon yn deillio o’r pethau yr ydym yn eu prynu gan gyflenwyr ac rydym yn gweithredu strategaeth gaffael sy’n gymdeithasol gyfrifol i leihau hyn o flwyddyn i flwyddyn, er enghraifft, trwy ddatblygu mwy o gadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys cynnig grantiau £10,000 i grwpiau cymunedol a busnesau a all helpu i gyflawni hyn.

***Lle sy’n ffynnu ac yn uchelgeisiol* - Ein Dyfarniad: Lefel 4 (Da)**

Rydym yn anelu at greu’r amodau lle gall busnesau a gweithwyr ffynnu a llwyddo. Un cyfyngiad ar fusnesau yw bod dros 99% o’r safleoedd masnachol sydd ar gael wedi eu meddiannu.  Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 19 o safleoedd cyflogaeth newydd yn y flwyddyn ddiwethaf i daclo’r broblem hon. Rydym hefyd wedi rhoi cyngor a chefnogaeth i 55 o fusnesau cyn iddynt ddechrau a rhai presennol. Roedd hyn dan ein targed. Er mwyn gwella’r gefnogaeth i fusnesau lleol rydym wedi sicrhau cyllid llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer datblygu sgiliau a busnesau.   Wrth edrych tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy rydym yn cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd a fydd yn arwain at fwy o safleoedd cyflogaeth yn cael eu dynodi. Mewn partneriaeth â phreswylwyr, rydym wedi gweithio ar ddatblygu cynlluniau meistr ar gyfer canol trefi i sicrhau bod y mannau hyn yn fannau bywiog sy’n parhau i ddenu pobl yno ar gyfer amrywiaeth mawr o ddefnyddiau.  Gostyngodd y gyfradd amddifadedd digidol yn y sir

yn sylweddol o 5.1% yn 2019 i 2.5% yn 2022. Mae ein gwaith gyda phartneriaid i gynyddu'r mynediad at fand eang cyflym wedi chwarae ei ran wrth wella cysylltedd yn ein sir.

***Lle diogel i fyw*** **– Ein Dyfarniad: Lefel 3 (Digonol)**

Mae'r cynnydd mewn digartrefedd yn her i'n Sir. Cyfrannodd prisiau eiddo uchel, prinder llety preifat fforddiadwy ar rent a'r cynnydd mewn costau byw i gyd at broblem ddigartrefedd gynyddol. Rydym wedi cyflwyno dull tai yn gyntaf sy'n rhoi atebion tai tymor hir i bobl sydd wedi methu cynnal llety yn y gorffennol oherwydd eu hanghenion cymhleth a/neu niferus. Rydym hefyd wedi datblygu Cynllun Trosglwyddo Ailgartrefu Carlam i gefnogi unrhyw un sy'n profi digartrefedd i symud i gartref sefydlog mor gyflym â phosibl. Mae dod o hyd i lety addas i'r digartref yn y sir yn parhau yn her. Cynyddodd y defnydd o lety gwely a brecwast fymryn o 90 o aelwydydd i 92 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar gyfartaledd mae'n cymryd 10.2 mis i symud aelwyd ddigartref i lety sefydlog/parhaol. Ein bwriad yw cael hyn dan 6 mis erbyn 2027. Cwblhawyd 35 o gartrefi fforddiadwy yn ein cyfnod monitro Cynllun Datblygu Lleol diwethaf, roedd hyn yn is na'r targed o 96 ac roedd o ganlyniad i brinder tir datblygu a lefelau ffosffadau mewn afonydd. Effeithiodd ffosffadau ar ddatblygu 308 o anheddau i gyd, o'r rhain roedd 149 yn anheddau fforddiadwy sydd yn amlwg yn ei gwneud yn anos i deuluoedd ddod o hyd i rywle i fyw.

***Lle cysylltiedig lle mae pobl yn gofalu*** **– Ein Dyfarniad: Lefel 3 (Digonol)**

Mae arnom eisiau i Sir Fynwy fod yn lle sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pobl, lle maent yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn gysylltiedig ag eraill. Mae ein timau gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu mwy o alw ac achosion mwy cymhleth. Nid yw hyn yn unigryw i Sir Fynwy ac mae'n cymryd cyfran fwy a mwy o'n cyllidebau. Rydym yn cydnabod yr angen i wneud pethau'n wahanol i gefnogi ein dinasyddion mwyaf bregus. Rydym wedi datblygu rhagor o ddulliau ar sail lle gan helpu pobl i gysylltu ag eraill yn eu cymuned leol sy'n lleihau'r angen iddynt ddibynnu'n gyfan gwbl ar wasanaethau ffurfiol. Fe wnaethom hefyd lansio prosiect micro-ofalwyr i ddiwallu angen trwy fentrau bach lleol. Mae'r gofalwyr yma yn darparu 161 awr o ofal bob wythnos. Rydym wedi llwyddo i gael gostyngiad yn yr oriau wythnosol nad oedd yn cael eu cyflawni o bron i 1,200 i 804 yr wythnos.

Mae llawer o alw a chymhlethdod yn parhau i blant sydd angen cefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol. Ar ddiwedd 2022/23 roedd 211 o blant yn cael gofal gan yr awdurdod lleol. Mae ein timau wedi canolbwyntio ar weithio gyda theuluoedd i gefnogi eu cryfderau, rheoli risgiau a chyflawni deilliannau da. O'r plant sydd â chynllun gofal a chefnogaeth, mae 61% yn cael eu cefnogi i aros gartref pan fydd yn ddiogel i wneud hynny. Rydym yn parhau i gymryd camau i atal plant rhag dod i'n gofal a lleihau'r niferoedd o blant sydd mewn gofal. Fodd bynnag, weithiau mae arnom angen defnyddio lleoliadau arbenigol i ymdrin ag achosion cymhleth ac mae'r rhain yn gostus ac yn brin sy'n rhoi pwysau ar ein hadnoddau prin. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i gomisiynu darpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Rydym hefyd wedi datblygu strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer ein gweithlu gofal cymdeithasol. Rydym yn parhau i wynebu nifer o heriau wrth allu ymateb i anghenion gofal a chefnogaeth pobl mor gyflym ag y byddem yn dymuno. Mae 83.5% o oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn hapus gyda'u gofal, i lawr o 86.9% yn y flwyddyn flaenorol.

***Lle i ddysgu*** **– Ein Dyfarniad: Lefel 4 (Da)**

Dylai Sir Fynwy fod yn fan lle mae pawb yn profi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael y cyfle i ddysgu, gan ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnynt eu heisiau i gyrraedd eu potensial.

Effeithiodd y pandemig ar gynnydd academaidd dysgwyr, yn neilltuol yng nghyswllt dysgwyr difreintiedig. Fe wnaeth hefyd effeithio ar lesiant disgyblion a staff. Mae arweinwyr ysgolion yn wynebu amrywiaeth o heriau. Mae rhai, fel presenoldeb is yn yr ysgolion, yn gysylltiedig â chwt y pandemig tra bod eraill, fel gweithredu diwydiannol yn ddatblygiadau mwy diweddar. Mae'r cyngor wedi cryfhau ei dîm i roi cefnogaeth i ddysgwyr ac ysgolion. Rydym wedi datblygu'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol. Mae 43% o'r ysgolion yn ymwneud â hyn ar hyn o bryd. Rydym wedi cynyddu'r nifer o

Gynorthwywyr Cefnogi Llythrennedd Emosiynol, gyda 70 ar draws ein hysgolion yn cael effaith dyddiol ar fywydau disgyblion. Mae presenoldeb yn parhau yn is na'r lefelau cyn y pandemig, gydag ysgolion uwchradd (88.4%) yn dangos gwelliant yn llawer arafach nag ysgolion cynradd (91.8%). Rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac ehangu ein darpariaeth wrth weithredu'r strategaeth ADY. Mae'r galw yn parhau i gynyddu am leoedd ar gyfer darpariaeth arbenigol yr ydym yn eu darparu trwy ganolfannau arbenigol yn ein hysgolion prif-ffrwd.

Rydym yn parhau i ymdrin â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill. Mae'r cynllun gweithredu i ymdrin â'r argymhellion o'n harolwg Estyn yn cael ei weithredu. Dengys adroddiadau diweddar gan Estyn bod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn eu haddysg. Mae'r Cwricwlwm Cymru newydd wedi cael ei fabwysiadu yn yr holl ysgolion cynradd yn unol â'r amserlenni cenedlaethol ac mae'n awr yn cael ei gyflwyno yn yr holl ysgolion uwchradd.

Mae datblygu'r ysgol gydol oes newydd, Brenin Harri'r VIII yn y Fenni yn symud yn gyflym. Bydd gan yr ysgol le i 1,200 o ddisgyblion oedran uwchradd a 420 o ddisgyblion oedran cynradd a 200 o leoedd ar gyfer addysg ôl 16 oed. Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi parhau i ehangu, gan gynnwys adnewyddu Ysgol Gymraeg y Ffin i gynyddu'r nifer o leoedd yn yr ysgol i 210 o leoedd.

**Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau?**

Mae gennym drefniadau cadarn yn eu lle i alluogi a chefnogi cyflawni gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid, rheoli gweithlu, digidol, rheoli asedau, perfformiad a rheoli risg. Serch hynny, mae effaith cyfnod maith o gyni ar gyflawni gwasanaethau ynghyd â'r argyfwng costau byw a chwyddiant uchel wedi ein bwrw.

Rydym wedi wynebu cynnydd yn y galw am wasanaethau, fel gofal cymdeithasol a digartrefedd, tra bod chwyddiant wedi cyfrannu at gynnydd yn y costau mewn meysydd fel cludiant o'r cartref i'r ysgol. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi bod angen tynnu ar ei arian wrth gefn i gael y gyllideb i dafoli am y tro cyntaf mewn mwy na degawd. Rydym yn awr yn adolygu ein strategaethau galluogi i ymateb i heriau a chyfleoedd a'u cysoni â'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

**Pa mor effeithiol yw'r cyngor wrth weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar y deilliannau y cytunwyd arnynt?**

Mae partneriaeth yn greiddiol i'r ffordd yr ydym yn gweithio. Mae gan y cyngor berthynas effeithiol yn ei lle gyda nifer fawr o randdeiliaid sy'n ein helpu i gyflawni ein diben. Mae'r rhain yn amrywio o bartneriaethau strategol ar raddfa fawr fel Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i wasanaethau a rennir gyda chynghorau eraill ar gyfer gwasanaethau fel troseddau ieuenctid, caffael a refeniw a budd-daliadau. Rydym wedi cryfhau'r modd yr ydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn cydnabod y gallwn a'i bod yn rhaid i ni wneud mwy i ddatblygu ac adeiladu ar ein perthynas gyda chynghorau cymuned a thref.

**Meysydd i'w Datblygu**

Trwy'r hunan-asesiad, rydym wedi dynodi pa mor dda yr ydym yn gwneud a beth allwn ni ei wneud yn well. Hwn yw ein man cychwyn. Byddwn yn edrych ar adeiladu ar y pethau yr ydym yn eu gwneud a dysgu oddi wrthynt a cheisio gwella meysydd lle gallwn wneud yn well. Gallwch weld y meysydd i'w datblygu yr ydym wedi eu dynodi ar ddiwedd pob adran yn yr asesiad llawn. Maent yn cynnwys cyflymu cyflawni ein Strategaeth Datgarboneiddio; defnyddio dadansoddiadau economaidd newydd i fod yn sail i ddatblygu ein Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau a chryfhau ein gallu i weithio gyda'n preswylwyr a'n cymunedau trwy weithredu ein Strategaeth Cyfranogiad.

**Mesur Cynnydd**

Rydym yn defnyddio ystod eang o ddulliau mesur perfformiad i olrhain ein cynnydd mewn cymhariaeth â'n blaenoriaethau. Fe welir y rhain trwy gydol yr asesiad. Nid oedd gennym dargedau yn eu lle ar gyfer y

dulliau mesur yma yn ystod 2022-23. Mae'r asesiad hwn yn defnyddio'r targedau a osodwyd ar gyfer 2026-27, diwedd cyfnod y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol presennol. Rydym hefyd yn olrhain cynnydd mewn cymhariaeth ag ystod o fetrigau sy'n olrhain deilliannau ar lefel poblogaeth. Bydd y dulliau mesur allweddol yn cael eu cyflwyno'n gyson i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg fel ein bod yn gallu olrhain cynnydd ac addasu'r cyflwyno pan fyddwn yn brin o gyrraedd y disgwyliadau.

**Beth ydych chi'n ei feddwl?**

Rydym wedi cynnwys rhywfaint o'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan sefydliadau eraill a byddem yn falch iawn o glywed eich barn i helpu i fod yn sail i asesiadau'r dyfodol.


Anfonwch e-bost atom yn: improvement@monmouthshire.gov.uk

## Cyflwyniad

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf mae'r cyngor wedi ailosod ei amcanion llesiant yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028. Mae'r cynllun yn nodi ein huchelgais ar gyfer y cyngor a Sir Fynwy. Rydym yn wynebu amgylchiadau ariannol heriol a chynnydd yn y galw. Nid yw hyn yn lleihau ein huchelgais na'r gobaith sydd gennym ar gyfer y lle hwn. Mae'n bwysig i ni olrhain y cynnydd yr ydym yn ei wneud. Mae'r adroddiad yn gwerthuso'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn ystod 2022/23 a sut yr ydym wedi ei wneud yn ogystal â dynodi meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.

Yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2022, dechreuodd y Cabinet newydd fynegi'r heriau a'r cyfleoedd mwyaf sy'n wynebu'r Sir. Mae uchelgais wleidyddol ar lefel uchel wedi ei throsi yn Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol strategol i'r awdurdod cyfan, a gymeradwywyd yn Ebrill 2023, sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer y sefydliad am y cyfnod 2022-28 ac yn nodi newid cyfeiriad oddi wrth yr un a osodwyd gan y weinyddiaeth flaenorol. Rydym yn gosod safonau a dyheadau uchel i'r cyngor.

Cynhyrchwyd y cynllun mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd gyda'r cyngor yn wynebu costau cynyddol ynghyd â chynnydd yn y galw. Mae'r uchelgais a amlinellir yn y ddogfen yn edrych ar y tymor hir ac yn canolbwyntio ar lesiant y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Gosodwyd diben clir i fod yn sir garbon sero, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam yn eu bywydau. Cefnogir hyn gan chwe amcan llesiant a ddangosir yn y diagram.




Mae'r broses hunan-asesu yn ymwneud â'r cyngor yn bod yn hunanymwybodol, deall a yw'n darparu'r deilliannau cywir a herio ei hun i wella'n barhaus. Fel arfer byddai hyn yn cael ei wneud trwy ganolbwyntio ar y gweithgareddau a ddisgrifir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Fodd bynnag ni chymeradwywyd y cynllun hyd Ebrill 2022, ar ôl i'r flwyddyn sy'n cael ei gwerthuso ddod i ben. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso perfformiad y cyngor yn y meysydd i'w datblygu a ddynodwyd yn ein hasesiad yn 2021/22 dan bob un o'r chwe amcan llesiant newydd. Mae hyn yn galluogi i'r gwersi a

ddysgwyd gael eu gweithredu mewn cymhariaeth â chyflawni'r amcanion yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn y dyfodol. Mae asesiad 2021/22 ar gael yma.

## Ein Hunan-asesiad

Mae deddfwriaeth newydd yng Nghymru, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gadw eu perfformiad dan adolygiad trwy hunan-asesiad, gyda'r angen i gyhoeddi adroddiad yn nodi casgliadau'r hunan-asesiad unwaith bob blwyddyn ariannol. Dyma'r ail adroddiad hunan-asesiad gan Gyngor Sir Fynwy ac mae'n edrych yn ôl dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf 2022-23.

Mae hunan-asesu effeithiol yn helpu'r cyngor i ddysgu'n barhaus ac i gyflawni gwelliant cynaliadwy a gwell deilliannau i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a'i weithlu ei hun. Mae hyn yn canolbwyntio ar dri chwestiwn:

- Pa mor dda yr ydym yn gwneud?
- Sut ydym ni'n gwybod?
- Beth a sut allwn ni ei wneud yn well?

Mae hyn wedi ei integreiddio â'n trefniadau adrodd blynyddol ar y cynnydd a'r effaith yr ydym wedi ei gael wrth gyflawni ein hamcanion llesiant, sy'n ofyn dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae hunan-asesu yn gadael i ni werthuso ein perfformiad a defnyddio hyn i fod yn sail i'r cyfeiriad y byddwn yn ei ddilyn, a'r ffordd y byddwn yn gweithio am y pum mlynedd nesaf.

Rhoddir mwy o fanylion am broses yr hunan-asesiad yn Atodiad 2.

Rydym yn croesawu eich barn am yr asesiad hwn ynghyd ag unrhyw feysydd o'n gwaith yr ydych yn meddwl y dylid eu hystyried gan y pwyllgorau craffu sy'n dal y llunwyr penderfyniadau i gyfrif, cofiwch gysylltu:


improvement@monmouthshire.gov.uk

Matthew Gatehouse, Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga, NP15 1GA

@MonmouthshireCC

## Deall ein lle lleol

Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn wynebu ystod o heriau cymhleth gan gynnwys newid hinsawdd, anghyfartaledd incwm ac iechyd, mynediad at dai a thrafnidiaeth. Mae dealltwriaeth glir a chyfredol o lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Fynwy yn hanfodol i'r cyngor i fod yn sail i'w ddiben a'i flaenoriaethau.

**Lle lleol**

| | **Pa mor dda yr ydym yn deall ein cyd-destun lleol a'n lle ac a yw hyn wedi bod yn sail i'n diben a'n blaenoriaethau?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| Cadw dealltwriaeth gyfredol o lesiant, gan gynnwys cyfranogiad preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth | Mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o lesiant preswylwyr. Rydym wedi cael budd o broses ymgysylltu eang a redwyd ar draws Gwent i fod yn sail i'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus tu hwnt i'r cyngor yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi cael budd hefyd o waith i dynnu sylw at anghyfartaledd iechyd, a wnaed gyda phartneriaid gan gynnwys y Sefydliad Tegwch Iechyd.<br><br>Ochr yn ochr â hyn mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym Mawrth 2022, yn dynodi anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn yr ardal a'u gofalwyr yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Cynhaliodd cynghorwyr sgyrsiau gyda dinasyddion ar y trothwy trwy'r cyfnod cyn yr etholiadau ym Mai 2022. Rydym hefyd yn gallu tynnu ar amrywiaeth eang o ddata meintiol fel allbwn cyfrifiad 2021, Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r arolygon lleol o ddefnyddwyr gwasanaeth mewn meysydd fel gofal cymdeithasol a llyfrgelloedd. | Asesiad Anghenion Poblogaeth<br><br>Asesiad Llesiant Gwent<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| Datblygu ein syniadau a'n ffordd o feddwl i gynllunio yn y tymor hwy ochr yn ochr â phreswylwyr Sir Fynwy, grwpiau cymunedol a phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus | Mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn nodi ymrwymiad i weithio gydag ac ochr yn ochr â chymunedau, gan rymuso pobl i gefnogi ei gilydd a llunio datrysiadau tymor hir.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu'n eang mewn meysydd fel cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ar gynhyrchu cynlluniau meistr canol trefi.<br><br>Ffurfiwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn 2021 ac mae wedi goruchwylio datblygiad a chyhoeddi'r asesiad a'r cynllun llesiant ar gyfer yr ardal. | Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Newydd<br><br>Cynlluniau meistr canol trefi<br><br>Asesiad a chynllun llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent |

## Ein Deilliannau

Mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 yn cynnwys chwe amcan llesiant sy'n canolbwyntio ar ddyfodol tymor hwy y sir ac yn anelu i ymdrin â heriau cymhleth, yn unol â'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth asesu pob un o'r meysydd i'w datblygu o'n hasesiad blaenorol dan y 6 amcan, rydym wedi ystyried y graddau:

- Y mae ein nodau'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant a ddynodwyd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Rydym yn cymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.
- Maent yn parhau yn gyson â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy y pum ffordd o weithio. Rhoddir mwy o fanylion am y ffordd y mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu gweithredu yn y cynnydd ar bob nod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Mae'n bwysig i ddeilliannau beidio â chael eu hystyried yn ynysig gan y gallant effeithio ar ei gilydd a bod angen iddynt gael eu hystyried mewn modd integredig. Dangosir sut y maent yn integreiddio â'i gilydd yn Atodiad 1.

Rydym wedi cynnwys yr eiconau canlynol i ddarlunio cyfraniad pob amcan at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Cymru Ffyniannus
Cymru Iachach
Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru Gydnerth
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Oherwydd natur tymor hir rhai amcanion ni ellir dangos effeithiau rhai gweithgareddau yn glir dros gyfnod byr, a bydd rhai gweithgareddau yn cael effaith dros y tymor hwy. Mae'r targedau a gynhwysir yn yr asesiad hwn yn dargedau tymor hwy a osodwyd ar gyfer 2026/27 ac nid ydynt yn adlewyrchu ble yr ydym yn anelu i fod yn 2022/23. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, rydym wedi asesu pob un o'n hamcanion ar raddfa 1-6 ar sail yr egwyddorion canlynol.

| Lefel | Diffiniad | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **6** | Rhagorol | Rhagorol neu eithriadol – yr holl ddulliau mesur perfformiad wedi cyrraedd y targed a osodwyd a'r holl weithredoedd wedi eu cyflawni |
| **5** | Da Iawn | Cryfderau mawr – mwyafrif sylweddol o'r camau a'r mesurau yn eu lle. Dim mwy nag un neu ddau yn disgyn yn brin |
| **4** | Da | Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos bod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni |
| **3** | Digonol | Cryfderau yn drech na gwendidau o ychydig – mae'r dystiolaeth am lwyddiant ychydig yn drech na'r meysydd nad ydynt yn eu lle. Rhai camau gweithredu yn cael eu trefnu a rhai dulliau mesur yn brin o'r targedau a gynlluniwyd |
| **2** | Gwan | Gwendidau pwysig – nid yw mwyafrif y dulliau mesur a'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Anfoddhaol | Gwendidau pwysig – yn y rhan fwyaf o feysydd, mae’r perfformiad yn cael ei asesu yn symud i’r cyfeiriad anghywir ac nid yw mwyafrif llethol y camau gweithredu wedi cael eu cyflawni |

**Esbonio'r templed amcanion.**

**PAM EIN BOD WEDI CANOLBWYNTIO AR HYN?**

Pam ein bod yn canolbwyntio ar yr amcan hwn i wella llesiant yn Sir Fynwy.

| | **Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| Mae hyn yn nodi 'Beth ydym ni am ei gyflawni' o'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | | |
| Colofn 1 - Meysydd i'w Datblygu o'r Hunan-asesiad blaenorol 2021-22 | Colofn 2 - Yn rhoi'r hunan-asesiad o'n perfformiad yn ystod 2022/23 mewn cymhariaeth â'r meysydd i'w datblygu. | Colofn 3 - Y ffynonellau tystiolaeth yr ydym wedi eu defnyddio i fod yn sail li'n hasesiad. |

**Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23**

Mae casgliadau penodol o'r hunan-asesiad sy'n sail i'n cynllun gweithredu.

| **Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** |
|---|
| Mae hyn yn rhoi esboniad o'r ffordd y mae ein gweithgaredd yn cyfrannu at nodau llesiant a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn dynodi amcanion llesiant y Cyngor oedd yn eu lle yn ystod 2022/23, gosodwyd amcanion llesiant diwygiedig yn y cynllun cymunedol a chorfforaethol yn Ebrill 2023. |

**Dull o fesur cynnydd**

| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed ar gyfer 2026/27** | **Sylw** |
|---|---|---|---|---|
| Mae hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf am fesurau a osodwyd yn y fframwaith mesur perfformiad yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Dengys y targed y targedau 5 mlynedd sy'n cael eu hadolygu a'u rhannu yn dargedau blynyddol ar gyfer 23/24 ar sail y perfformiad diweddaraf | Data blaenorol yn 21/22 oni nodir yn wahanol | Data blaenorol yn 22/23 oni nodir yn wahanol | Dyma'r hyn yr ydym am fod yn ei gyflawni ym mlwyddyn lawn olaf y cynllun cymunedol a chorfforaethol | Mae'n bwysig cofio nad oes gennym dargedau wedi eu gosod ar gyfer 2022-23. Mae'r tabl hwn yn dangos yr hyn yr ydym yn disgwyl ei gyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. |

| **Sgôr Gwerthusiad** |
|---|
| Mae hyn yn rhoi ein hasesiad o berfformiad mewn cymhariaeth â'r amcan gan ddefnyddio'r peirianwaith sgorio gwerthuso |

# Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Teg i Fyw

| **Sgôr Gwerthusiad** | |
|---|---|
| **Lefel 4 (Da)** | Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos bod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni |

**PAM EIN BOD WEDI CANOLBWYNTIO AR HYN?**

Ni ddylai unrhyw un gael ei adael ar ôl yn Sir Fynwy na theimlo nad yw ei lais yn cyfrif. Mae llawer o'n preswylwyr yn ffyniannus ac yn abl iawn i edrych ar ôl eu hunain a'u hanwyliaid. Ond, nid yw hyn yn wir i bawb, ac mewn sir wledig mae anghyfartaledd yn aml yn fwy cuddiedig nag mewn mannau trefol. Byddwn yn cynyddu dwyster ein gwaith i helpu'r rhai sydd angen cymorth i fyw'r bywyd y mae arnynt ei eisiau.

| **Maes i'w ddatblygu** | **Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| | **GWELL CYFLEOEDD BYWYD I BOBL BETH BYNNAG YW EU HINCWM NEU GEFNDIR** | |
| Y cynnydd mewn costau byw a'i effaith ar breswylwyr | Mae'r cyngor wedi darparu amrywiaeth o gymorth wrth ymateb i'r argyfwng costau byw, gan gynnwys sefydlu cynllun cymorth costau byw dewisol i ddosbarthu gwerth bron i hanner miliwn o bunnau o gyllid i roi cymorth i'r rhai y mae wedi effeithio mwyaf arnynt. Fe wnaethom hefyd ddarparu'r ymgyrch Money Matters sy'n cyfeirio pobl at gymorth. Fe wnaethom hefyd ddarparu'r ymgyrch i staff mewn ysgolion oedd yn cynnwys prosiectau eraill yn ymwneud â chostau'r diwrnod ysgol. Cynhaliwyd 15 o sesiynau galw heibio cymorth costau byw mewn partneriaeth â Mind Sir Fynwy a Chyngor ar Bopeth, oedd yn rhoi cyngor i sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan wneud i arian fynd ymhellach a chyfarwyddyd ar reoli biliau ynni. Amrywiol oedd yr ymgysylltiad â'r sesiynau hyn, gyda chyfartaledd o saith o bobl ym mhob sesiwn. Rydym yn gwybod trwy ein partneriaid fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth bod mwy o bobl angen cymorth costau byw, ond mae cyrraedd a rhoi cyngor costau byw i'n cymunedau wedi bod yn heriol. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiad mwy, dros benwythnos i gynyddu'r ymgysylltu. | Ymgysylltu â sesiynau cymorth costau byw |
| Datblygu ymyraethau (o ran tlodi a diffyg cyfartaledd) ar sail beth mae ein dadansoddiad yn ei ddweud ac olrhain effaith y rhaglenni gwaith yma | Fe wnaethom sylweddoli bod arnom angen gwell dealltwriaeth o dlodi ar lefel leol. Fe wnaethom ddatblygu bwrdd rheoli data tlodi i'n helpu i ddadansoddi amddifadedd yn y sir. Mae hyn wedi bod yn sail i'r gwaith yr ydym wedi ei wneud i ymateb i'r argyfwng costau byw a gadael i ni dargedu help lle mae ei angen.<br><br>Ni fyddwn yn gallu ymdrin â'r broblem hon dros nos. Mae gennym raglenni i gynyddu cyflogaeth a'r flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom gefnogi 142 o bobl yn ôl i waith. Rydym hefyd yn cyflawni swyddogaeth alluogol, yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi i helpu pobl i gael gwaith a chynorthwyo'r rhai sydd eisoes mewn gwaith i gynyddu eu gallu i ennill cyflog. Mae hyn i gyd yn cymryd amser ac rydym yn cydnabod bod llawer o bobl yn cael trafferth ar hyn o bryd. Rydym yn hwyluso ac yn gweithio gyda grwpiau | Bwrdd rheoli data tlodi<br><br>Nifer o bobl sy'n ymweld ag oergelloedd cymunedol |

| | | |
|---|---|---|
| | gwirfoddol sy'n gweithredu oergelloedd cymunedol ar draws y sir, gan gymryd bwyd sydd dros ben o archfarchnadoedd lleol a darparwyr eraill a'i ailddosbarthu i bobl leol, gan arbed bwyd rhag mynd i safle tirlenwi ond hefyd helpu'r rhai sy'n cael trafferth gydag ansicrwydd bwyd fel sgil-effaith. Erbyn hyn mae oergelloedd cymunedol yn ein holl brif drefi, a nifer mewn rhai trefi. Ar gyfartaledd mae tua 480 o bobl yn ymweld ag oergell gymunedol bob wythnos, gyda phob un yn arbed tua 2 dunnell o fwyd rhag mynd i safle tirlenwi y mis. Ond, gyda mwy o bobl yn defnyddio ein hoergelloedd cymunedol yn hytrach na defnyddio banciau bwyd, gall y rhai sydd mewn angen golli cyfle i gael eu cyfeirio at ffynonellau cymorth ychwanegol. | |
| | | |
| **PRESWYLWYR Â GWELL MYNEDIAD AT WASANAETHAU'R CYNGOR A'R CYMORTH SYDD EI ANGEN I FYW BYWYD IACH** | | |
| Y defnydd o gyfleusterau hamdden a chyfranogiad ynddynt. | Mae'r cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol i wella'r cynnig yn ein pedair canolfan hamdden. Trwy ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus gwelwyd niferoedd uwch nag erioed o aelodau yn y canolfannau. Ar 31 Mawrth 2023 roedd 703 o aelodau blynyddol a 6,825 o aelodau Debyd Uniongyrchol gan fynd tu hwnt i'r targed o 550 a 6,500, yn eu tro. Mae hyn yn helpu i gefnogi iechyd a llesiant defnyddwyr ac mae wedi creu £165,920 o incwm. | Aelodaeth o wasanaethau hamdden MonLife |
| Hyrwyddo'r gwasanaeth addysg awyr agored, a'i fanteision i bobl ifanc | Mae'r gwasanaeth wedi adfer yn llwyddiannus ar ôl y pandemig, ac mae'n awr wedi ei ail-ddylunio, gyda thair prif elfen. Y gyntaf yw'r cynnig dysgu awyr agored sy'n cynnwys cyrsiau preswyl. Yr ail yw'r prosiect ail-ymgysylltu, sydd yn addysg wahanol gan ddefnyddio'r gwasanaeth awyr agored. Mae'r drydedd yn benodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau. Mae'r ymgysylltu wedi bod yn llwyddiannus ar draws y sir, gyda holl ysgolion uwchradd Sir Fynwy yn ymgysylltu â'r gwasanaeth. Cynyddodd y nifer o ysgolion cynradd sy'n ymgysylltu o 13 i 22 yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynlluniau i ymgysylltu'r ysgolion cynradd sy'n weddill yn cynnwys cynnig pris isel, mynd i hyfforddiant ar sut i hyrwyddo'r ganolfan yn effeithiol a gweithio gydag ysgolion i archwilio dewisiadau gwahanol fel sesiynau cyfeiriannu ar diroedd ysgolion. | Y nifer o ysgolion sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth addysg awyr agored |
| Dull integredig o ddatblygu chwaraeon, gwasanaeth ieuenctid a chwarae i sicrhau bod y cynnig yn un cydlyn a chefnogaeth i lesiant plant a phobl ifanc. | Rydym wedi darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a chwarae cynhwysol trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys MonGames, Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored a Bwyd a Hwyl. Yn y ddarpariaeth haf gwelwyd dros 10,000 awr o weithgareddau a dros 11,500 o ymgysylltiadau, gwelodd hanner tymor yr Hydref a gwyliau'r Nadolig gyfanswm o 689 yn bresennol a sesiynau gŵyl y banc y Pasg a mis Mai a welodd gyfanswm o 5,234 o ymgysylltiadau. Mae i'r sesiynau hyn lu o fanteision gan gynnwys helpu teuluoedd ar incwm isel a gofalwyr trwy'r argyfwng costau byw a chael mwy o blant i symud. Comisiynwyd Action for Children i ddarparu cynlluniau chwarae hollgynhwysol, a thrwy weithgareddau gwyliau allweddol fel Mon | Presenoldeb mewn digwyddiadau a gweithgareddau |

| | | |
|---|---|---|
| | Games, rydym yn anelu at wneud y cyfleusterau a’r ddarpariaeth mor gynhwysol â phosibl i bawb, gan gynnwys plant ag anableddau.<br><br>Ffurfiwyd tîm cyflawni chwaraeo newydd yng Nghil-y-coed gan alluogi cyflawni sesiynau Dyfodol Cadarnhaol i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal leol a hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a gweithgaredd corfforol i bobl ifanc. Defnyddiwyd cyllid i redeg Strydoedd Diogelach sy’n darparu dau gyfle am ddim i fynychu sesiynau chwaraeon yr wythnos. Yn y Gynhadledd Llysgennad Ifanc Efydd a gynhaliwyd yn Hydref 2022, roedd 61 o Lysgenhadon Ifanc Efydd yn bresennol gyda 93% o Ysgolion Cynradd Sir Fynwy yn cymryd rhan. Roedd tri phartner allanol (Chwaraeon i’r Anabl Cymru, Hoci Cymru a Sir yn y Gymuned) hefyd wedi ymgysylltu trwy’r digwyddiad. Daeth Traws Gwlad Datblygu Chwaraeon MonLife â grwpiau parkrun cymunedol lleol a’r ddarpariaeth datblygu chwaraeon at ei gilydd, gan ymgysylltu â 1,020 o ddisgyblion a 90% o holl ysgolion cynradd Sir Fynwy dros bedwar diwrnod.<br><br>Gwelwyd trosglwyddo o ffrydiau ariannu ar wahân ar gyfer pob prosiect i un pwynt ariannu sydd ar gael i Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn MonLife. Mae hyn wedi helpu i integreiddio gwasanaethau MonLife ac wedi arwain at arbediad £15k oherwydd bod gwell cydweithio. | |
| Gwella gallu i wasanaethu eu hunain a lleihau dibyniaeth cwsmeriaid ar y ffôn | Mae adolygiad o wasanaethau cwsmeriaid ar y gweill. Mae hwn yn dynodi ac yn gweithredu ar newidiadau sydd eu hangen i wella prosesau o un pen i’r llall mewn meysydd gwasanaeth lle mae’r nifer uchaf o drafodion gyda chwsmeriaid. Dylai hyn wella pa mor ymatebol yw’r gwasanaeth hunanwasanaeth, wyneb yn wyneb a ffôn i gwsmeriaid; mae camau yn eu lle i olrhain y cynnydd, ond nid ydym eto wedi gweld unrhyw effaith mesuradwy ar y nifer o bobl sy’n gwasanaethu eu hunain. | Trafodion gwasanaethau cwsmeriaid |
| | | |
| **DINASYDDION YN GALLU CYMRYD RHAN WRTH LUNIO PENDERFYNIADAU’R CYNGOR AC YN Y GYMUNED A GWEITHREDU MEWN FFYRDD SY’N EU GALLUOGI I SIAPIO EU DYFODOL EU HUNAIN** | | |
| Parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr i sicrhau bod cyfalaf cymdeithasol yn cefnogi llesiant cymunedol. | Fe wnaeth MonLife ymgysylltu’n weithredol â 301 o wirfoddolwyr trwy gydol eleni, gan fynd dros y targed o 216. Mae hyn yn ategu at gyfoeth o wirfoddoli ar lawr gwlad sy’n digwydd trwy’r sir i gyd gyda 39% o boblogaeth Sir Fynwy yn dynodi eu bod yn gwirfoddoli rhywfaint. Mae Kinetic, gwefan gwirfoddolwyr Sir Fynwy, yn parhau i gael ei ddefnyddio fel adnodd i hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli, recriwtio gwirfoddolwyr, ac fel cronfa ddata a llwyfan gyfathrebu i roi adroddiad am weithgareddau gwirfoddoli. Caniataodd hyn i wirfoddolwyr gael eu recriwtio a’u goruchwylio yn ddiogel yn y sir. Ond, cyfyngedig fu’r gefnogaeth yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd newidiadau i’r ddeddfwriaeth.<br><br>Mae’r Rhaglen Be Community wedi parhau i weithredu trwy gydol y flwyddyn hon. Roedd hwn yn treialu mentora, pryniannau bach a chreu adnodd hyfforddi digidol i ddatblygu cydnerthedd a thwf cynaliadwy mewn gwirfoddoli cymunedol trwy Sir Fynwy. Arweiniodd hyn at sicrhau cyllid ychwanegol i grwpiau | Nifer y gwirfoddolwyr sy’n ymwneud â MonLife<br><br>Darpariaeth a chyllid Be Community |

| | | |
|---|---|---|
| | cymunedol, gynyddu maint nifer o brosiectau cymunedol, cynyddu niferoedd y gwirfoddolwyr, gwella cynaliadwyedd prosiectau a chreu 17 o fodylau hyfforddi ar-lein ar bynciau yn amrywio o gydymffurfio, technegol, arweinyddiaeth i ddatblygu cymunedol. Trwy gydol eleni, darparodd Be Community 1,275 o leoedd hyfforddi i wirfoddolwyr, cyflawni 9 rhaglen mentora a llwyddo i symud £206,000 ychwanegol o gyllid i grwpiau cymunedol. | |
| Cyfranogiad y cyhoedd wrth graffu a llunio penderfyniadau | Diwygiwyd trefniadau craffu'r cyngor ym Mai 2022 yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor yn gynharach yn y flwyddyn. Mae hyn yn galluogi'r pwyllgorau Pobl a Lle i wella eu pwyslais ar ymgysylltu'r cyhoedd wrth ddatblygu polisi a chraffu cyn penderfyniadau trwy drafod y pynciau allweddol sy'n effeithio ar breswylwyr. Oherwydd oedi cyn cymeradwyo cynllun Cymunedol a Chorfforaethol pum mlynedd yr awdurdod nid oedd yn bosibl cynhyrchu cynllunydd gwaith tymor canolig ar gyfer pwyllgorau craffu sy'n angenrheidiol i gyflawni hyn. Ond, fe welwyd gwell presenoldeb mewn fforymau cyhoeddus agored.<br><br>Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratig wedi derbyn strategaeth gyfranogiad gyhoeddus ddrafft, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol wedi esbonio'n glir ddymuniad y weinyddiaeth i wella cyfranogiad wrth lunio penderfyniadau er nad yw'r gallu na'r arbenigedd angenrheidiol i gynnal ymgysylltiad eang a chynhwysol yn ei le eto. | Presenoldeb a chyfranogiad mewn fforwm cyhoeddus agored wrth Graffu<br><br>Strategaeth cyfranogiad cyhoeddus drafft |
| Cynnwys preswylwyr Sir Fynwy, grwpiau cymunedol a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus wrth gynllunio yn y tymor hwy | Rydym wedi datblygu rhaglen gyllidebu gyfranogol i gynyddu cyfranogiad cymunedol mewn penderfyniadau sy'n effeithiol ar eu bywydau a galluogi penderfyniadau gwariant sy'n adlewyrchu anghenion lleol yn well ac yn ymdrin ag annhegwch. Mae ein rhaglen yn cynnwys nifer o linynnau, gan gynnwys rhoi grantiau bach uniongyrchol (e.e., Chi Sydd i Benderfynu), targedu cymunedau sydd o ddiddordeb (Ieuenctid, Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc), gweithio gydag ardaloedd bychan iawn, a dyrannu/blaenoriaethu cyllid i gael ei gyflawni trwy sefydliadau cymunedol lleol. Yn ystod eleni, cynhaliwyd digwyddiadau *Chi Sydd I Benderfynu* ar draws 6 thref, gan arwain at 85 o geisiadau, a dyrannwyd cyllid i 75 ohonynt. Mae cyfanswm o £60,000 wedi bod ar gael i'w ddosbarthu trwy grantiau Chi sydd i benderfynu ac roedd tua 7,000 o ddinasyddion yn rhan o'r broses gyflawn. Dengys hyn gynnydd tuag at ein dymuniad i gynyddu cyfranogiad. | Monitro rhaglen cyllideb gyfranogol |

| Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23 |
|---|
| Sicrhau bod ymyraethau i gyflawni amcanion lle teg i fyw ar sail tystiolaeth, wedi eu targedu, yn cael eu cyfleu yn glir ac yn cael eu gwerthuso i asesu eu heffaith. |

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru Ffyniannus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |

***Amcan Llesiant Cyngor Sir Fynwy yn 2022/23 - Cyngor llesiant gydol oes ac yn canolbwyntio ar y dyfodol***

Mae mabwysiadu dulliau sy'n rhoi'r pwyslais ar gymunedau yn hyrwyddo **cydweithio** a fydd yn ei dro yn cefnogi llesiant. Trwy weithio gyda chymunedau, grymuso pobl a sicrhau eu bod yn gallu cael cymorth rydym yn gobeithio **atal** problemau rhag digwydd. Mae digonedd o gyfleoedd yn ein sir, felly mae'n hanfodol i bawb allu **cymryd rhan** er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf i lesiant. Dylai hyn roi mantais **tymor hir** i unigolion a chymunedau. Bydd ein gweithrediadau yn cael budd **integredig** ar gyfer nifer o agweddau o'r ddeddf, byddant yn hyrwyddo Cymru o gymunedau cydlyn ac yn gyffredinol yn helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

**Dull o fesur cynnydd**

| **Mesur** | **Blaenorol**[1] | **Diweddaraf**[2] | **Targed ar gyfer 2026/27** | **Sylw** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant yn derbyn prydau ysgol am ddim cyffredinol[i] | Cynllun newydd | 2,583 | 6,250 | Y targed yw'r nifer o blant yr ydym yn disgwyl y byddant yn derbyn prydau ysgol cyffredinol am ddim erbyn Mawrth 2027. |
| Canran o bobl sy'n cwblhau'r ymarfer cynllun cyfeirio ar wythnos 16 yn llwyddiannus[ii] | 43 | 48 | 50 | |
| Y ganran o bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol[iii] | 20 | 33 | 40 | Y ffigwr diweddaraf ar gyfer 2021/22, a'r ffigwr blaenorol ar gyfer 2018/19 – Nid oedd hyn wedi ei fesur fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 na 2022/23. |

[1] Data blaenorol yn 2021/22 oni nodir yn wahanol.
[2] Data blaenorol yn 2022/23 oni nodir yn wahanol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr arolwg Gwneud eich Marc blynyddol a phleidlais benodol i Sir Fynwy[iv] | 1,262 | 2,306 | 2,400 | Mae'r cynnydd yn dangos llwyddiant sylweddol ac yn profi ein hymrwymiad i gael pobl o bob oed i gymryd rhan. |
| Y ganran o bobl sy'n gwirfoddoli[v] | 32 | 39 | 35 | Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i asesu priodoldeb y targedau a'u haddasu pan fydd angen. |
| Nifer o gyflogwyr lleol sy'n rhoi'r addewid cyflogwr hyderus o ran anabledd[vi] | 24 | 35 | 40 | |
| Canran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg[vii] | 16.4 | 18.4 | 16.6 | Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i asesu priodoldeb y targedau a'u haddasu pan fydd angen. |
| Nifer o Siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y cyngor | 308 | 278 | 500 | Gostyngodd y nifer o staff oedd yn dilyn cyrsiau Cymraeg yn ystod y pandemig a gyfrannodd at y gostyngiad hwn. |

## Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Gwyrdd i Fyw

| **Sgôr Gwerthusiad** | |
|---|---|
| **Lefel 3 (Digonol)** | Cryfderau yn drech na gwendidau o ychydig – mae'r dystiolaeth am lwyddiant ychydig yn drech na'r meysydd nad ydynt yn eu lle. Rhai camau gweithredu yn cael eu trefnu a rhai dulliau mesur yn brin o'r targedau a gynlluniwyd |

**PAM EIN BOD WEDI CANOLBWYNTIO AR HYN?**

Rydym yn cydnabod harddwch eithriadol Sir Fynwy. Fel ceidwaid y lle trawiadol hwn mae arnom angen annog preswylwyr ac ymwelwyr i'w fwynhau, ei warchod a'i gadw. Byd natur yn ei holl ffurfiau yw'r gefnlen i'n heconomi twristiaeth ac ymwelwyr. Byddwn yn gweithio gydag eraill i hyrwyddo mynediad at ein mannau arbennig gan ddiogelu'r amgylchedd, rhoi cymorth i natur adfer, lleihau ein hallyriadau carbon, lleihau'r risg o lifogydd a hyrwyddo economi gylchol. Rydym yn cydnabod hefyd bod y rhain yn faterion cymhleth ac y bydd yn cymryd degawdau yn hytrach na blynyddoedd i weld effaith llawn y newidiadau yr ydym yn eu gwneud.

| **Maes i'w ddatblygu** | **Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| **GWEITHGAREDDAU'R CYNGOR YN SERO NET ERBYN 2030 A CHYMUNEDAU LLEOL YN CAEL EU CEFNOGI I LEIHAU EU HÔL TROED CARBON EU HUNAIN** | | |
| Deall allyriadau carbon a chanolbwyntio adnoddau. | Rydym wedi gweithredu amrywiol raglenni datgarboneiddio yn y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun trwy'r sir, mewn partneriaeth â SSE energy, i ddynodi sut y gall ysgolion a chanolfannau hamdden redeg mor effeithlon â phosibl. Rydym yn archwilio ehangu hyn i ragor o adeiladau ac ehangu ein cwmpas o gamau datgarboneiddio gan gynnwys cyflwyno cerbydau trydan a hydrogen. Mae Cam 2 ôl-osod bron â dod i ben. Rydym hefyd wedi comisiynu ymgynghorwyr i'n helpu i gynhyrchu'r data ar gyfer strategaeth ddatgarboneiddio newydd a datblygu strategaeth seilwaith gwefru cerbydau trydan.<br><br>Mae gennym ddealltwriaeth glir o'r allyriadau carbon yr ydym yn eu cynhyrchu fel cyngor. Rydym yn rhoi adroddiad blynyddol ar hyn i Lywodraeth Cymru er bod angen gwaith i sicrhau bod hyn yn cael ei safoni trwy Gymru. Mae arnom angen sicrhau ein bod yn defnyddio'r data hwn yn lleol i fod yn sail i lunio penderfyniadau. Cynyddodd ein hallyriadau carbon ar ôl y pandemig, yn dilyn gostyngiad cyflym yn ystod y pandemig. Rydym wedi gweld newid parhaus yn arferion gwaith pobl gyda staff yn gweithio o gartref yn fwy cyson, pan fyddant yn gallu, ond mae ein swyddfeydd yn parhau ar agor ac mae'r defnydd wedi cynyddu ers y pandemig gydag adborth staff yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd.<br><br>Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau allyriadau carbon cymunedol. Gan gynnwys trwy hwyluso rhwydwaith Pencampwyr Hinsawdd Cymunedol, datblygu teithio gweithredol, gan gynyddu ein darpariaeth ailgylchu a hyrwyddo lleihau gwastraff a datblygu'r seilwaith gwyrdd. | Adroddiadau Carbon Sero Net. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym yn argymell i fusnesau y dylent greu cynllun lleihau carbon, ond cyfyngedig yw'r gefnogaeth sydd ar gael i greu'r rhain. Rydym yn gwybod o'n data mai'r un maes uchaf o ran allyriadau yw cynhyrchu'r pethau yr ydym yn eu prynu, ond, cyfyngedig yw ein gallu i ddylanwadu ar allyriadau'r sector preifat.<br><br>Ar hyn o bryd mae cyfyngiad ar y cynnydd y gallwn ei wneud ar ddatgarboneiddio oherwydd y costau a'n gallu cyfyngedig ni ein hunain. Er bod y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn hon yn ein rhoi mewn sefyllfa dda at y flwyddyn nesaf, os byddwn yn parhau ar y gyfradd hon, ni fyddwn yn cyflawni ein targed o sero net erbyn 2030. Mae cyfyngiad hefyd ar y camau y gallwn eu cymryd i leihau allyriadau yn y sir, er enghraifft, un o'r ffynonellau allyriadau mwyaf yw o drafnidiaeth a'r defnydd o ynni domestig, meysydd lle mae ein dylanwad yn gyfyngedig. | |
| Lleihau'r gwastraff sy'n cael ei greu yn y sir a symud tuag at wastraff sero net. | Rydym wedi parhau i hyrwyddo ailgylchu, ac oherwydd cyfranogiad parhaus preswylwyr roedd 69.9% o wastraff yn cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio yn 2022/23. Mae hyn yn mynd tu hwnt i'r targed 64% presennol ac rydym bron â chyrraedd y targed y mae Llywodraeth Cymru yn ei osod ar gyfer 24/25. Mae cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir i bob unigolyn yn y sir hefyd wedi parhau i leihau, gan ddisgyn o 143.3 kg yn 21/22 i 125.5 kg yn 22/23. Daliwyd ati i ddosbarthu cynnwys bagiau duon eleni sydd wedi helpu i leihau'r gwastraff bagiau duon. Cyflwynwyd bagiau polyprops y gellir eu hailddefnyddio hefyd, a bydd hynny'n parhau. | Data gwastraff ac ailgylchu |
| Ymgorffori hinsawdd a datgarboneiddio i gynlluniau caffael cydweithredol strategol. | Cynhyrchwyd Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-27 ac mae'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn cynnwys y camau y bydd y cyngor yn eu cymryd i ddeall ôl troed carbon y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu prynu i sicrhau bod ein gweithgaredd lleihau carbon wedi ei dargedu, sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, aelodau etholedig, staff a chontractwyr i sicrhau bod carbon yn cael ei ystyried trwy gydol y cylch caffael, a sut y byddwn yn cydweithredu gyda, a dysgu oddi wrth, sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a phreifat. | Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-27 |
| | **ADFER NATUR, GWELL IECHYD AMGYLCHEDDOL AC AFONYDD** | |
| Gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ddynodi a gweithredu atebion i lygredd ffosffad yn afonydd Gwy ac Wysg sydd, ar hyn o bryd, yn atal datblygiadau. | Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Dŵr Cymru, i ddarparu cyfleuster tynnu ffosffadau yn Llanfoist i wella ansawdd dŵr a hwyluso datblygiadau newydd yn nalgylch afon Wysg. Mae swyddogion ac Aelodau'r Cabinet yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddynodi a chyflawni atebion i broblemau ansawdd dŵr sy'n effeithio ar ran uchaf dalgylchoedd afon Gwy a rhan uchaf afon Wysg.<br><br>Pasiodd y Cyngor gynnig am afonydd a chefnforoedd ym Mawrth 2022, a chyhoeddwyd cynllun gweithredu yn rhoi manylion sut y bydd y cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddynodi a gweithredu atebion i broblemau ffosffad mewn afonydd. Mae'r Strategaeth a Ffafrir ddiwygiedig | Gweithio gyda Dŵr Cymru a rhanddeiliaid<br><br>Cynnig Dros Afonydd a'r Cefnfor<br><br>Strategaeth a Ffafrir y CDLlN |

| | | |
|---|---|---|
| Gwell dealltwriaeth o ffynonellau llygredd afonydd a’r ateb, a sut y gall y cyngor gyfrannu at ymdrin â lefelau ffosffadau afonydd, hefyd angen deall yr effaith ar gynlluniau datblygu. | hefyd yn ymateb i heriau ffosffad ac yn eu hystyried, ac mae wedi ei chadarnhau gan Lywodraeth Cymru. Mae cyrff cyhoeddus eraill yn cynnal gwaith a fydd o fudd i Sir Fynwy, fel Dŵr Cymru, sydd wedi cyhoeddi buddsoddiadau mawr yn y gofod hwn. Rydym wedi ymgysylltu’n weithredol gydag a chyfrannu at weithgorau gyda sefydliadau amrywiol, gan gynnwys Dŵr Cymru, y diwydiant datblygu ac awdurdodau cynllunio lleol eraill, i drafod y cynnydd ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a phroblemau ffosffad.<br><br>Mae 88% o Afon Wysg a 67% o Afon Gwy yn methu’r targedau ffosffadau yn nyfroedd dalgylch afonydd yr Ardal Gadwraeth Arbennig. Un o’r heriau wrth daclo’r broblem hon oedd dysgu beth yw ein swyddogaeth. Mae prif achosion y problemau ffosffad allan o reolaeth uniongyrchol y cyngor i raddau helaeth ac yn deillio o’r tu allan i’r sir, mae tua 66-70% o’r broblem o ganlyniad i amaethyddiaeth sydd i fyny’r afon o Sir Fynwy, lle nad oes gennym unrhyw reolaeth. O ystyried y rheolaeth gyfyngedig sydd gan y cyngor ar y mater, rydym wedi canolbwyntio ar weithio gyda sefydliadau partner fel Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i ddylanwadu a chydweithio ar ddod o hyd i atebion effeithiol. | Targedau ffosffad yr Ardal Cadwraeth Arbennig |
| Archwilio amgyffrediad y cyhoedd o’r cynlluniau sydd ar y gweill i wella’r amgylchedd lleol. | Rydym yn ymgysylltu’n gyson ac yn weithredol â phreswylwyr ar ein cynlluniau i wella’r amgylchedd lleol ac yn defnyddio’r wybodaeth yma i fod yn sail i’n cynllunio. Er enghraifft, cynhaliwyd arolwg Nid yw Natur yn Daclus eleni ar draws Gwent i ddeall beth y mae preswylwyr yn ei werthfawrogi am fannau gwyrdd. Ymatebodd bron i 500 o Sir Fynwy, oedd yn 30% o’r holl ymatebwyr. Roedd y canlyniadau’n gyson gadarnhaol ar draws pob maes a grwpiau oedran, gan adael i ni fod yn hyderus bod mwyafrif y cyhoedd yn fodlon ar sut yr ydym yn rheoli ein glaswelltir, sydd wedi ein harwain i ehangu’r ardaloedd yr ydym yn eu rheoli ar gyfer blodau gwyllt. Rhoddodd yr arolwg hefyd gyfle i ni ddarbwyllo awdurdodau lleol eraill ar draws Gwent i ehangu’r tir yr oeddent yn ei reoli ar gyfer natur. | Arolwg Nid yw Natur yn Daclus |
| Integreiddio rhaglenni adfer natur a datgarboneiddio i gael yr effaith fwyaf posibl. | Diwygiwyd y cynllun gweithredu argyfwng hinsawdd a’i ddiweddaru ym mis Tachwedd 2021 i gryfhau’r pwyslais ar adfer natur, cryfhau pwysigrwydd gweithio gyda chymunedau ar leihau carbon a chynnwys camau addasu o ran yr hinsawdd. Mae Gweithgor Argyfwng Hinsawdd a Natur eisoes wedi ei sefydlu. Mae’r grŵp hwn yn goruchwylio datblygiad strategaeth ddiwygiedig a fydd yn siapio’r cam nesaf yn y maes polisi hanfodol hwn gan sicrhau bod gwaith i ymdrin ag adfer natur yn integredig gyda’n gwaith ar ddatgarboneiddio. | Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd |

**ARFERION AMAETHYDDOL A FFERMIO LLEOL CYNALIADWY GYDA GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHRESWYLWYR YN BWYTA MWY O GYNNYRCH LLEOL A THYMHOROL**

| | | |
|---|---|---|
| Ehangu'r ddealltwriaeth sefydliadol o rym y bunt leol, a sut y gall fod o fudd i fusnesau lleol | Rydym wedi datblygu Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a chynllun cyflawni, sy'n nodi sut y bydd y cyngor yn gweithio i sicrhau bod caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach a lleol. Rydym wedi cwblhau dadansoddiad o'n data sy'n dangos ble a sut y mae'r cyngor yn gwario ei arian. Mae angen dadansoddiad pellach i fod yn sail i gyflawni ein strategaeth ac archwilio datblygu Strategaeth Lleoleiddio.<br><br>Rydym wedi cefnogi a hyrwyddo busnesau bwyd lleol. Mae hyn yn cynnwys prosiect Food4Growth, Cronfa Adnewyddu Cymunedol, oedd wedi gweithio ar y cyd gyda Chynghorau Caerffili a Thorfaen i ddatblygu dull system gyfan i ddatblygu cadwyni, a lle i gynhyrchu bwyd lleol i wella cynaliadwyedd a hyfywedd y sector amaethyddol lleol. Rydym wedi ymrwymo i barhau'r gwaith hwn trwy'r Rhaglen Cydnerthedd Bwyd Ffyniant ar y Cyd y Deyrnas Unedig.<br><br>Rydym wedi hyrwyddo busnesau bwyd a diod trwy ddigwyddiad Coginio a Rhannu cymunedol a gynhaliwyd ym Mawrth trwy Bartneriaeth Fwyd Sir Fynwy, lle cafodd cynnyrch lleol ei weini ac roedd cynhyrchwyr yno i fwyta gyda'u cwsmeriaid a siarad am eu dulliau gweithredu. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn mentrau a chynlluniau treialu cadwyni cyflenwi i gynyddu faint o gynnyrch lleol sy'n cael ei weini ar y plât cyhoeddus. Mae tyfu cymunedol wedi cael ei hyrwyddo trwy ymgysylltu ar lefel leol iawn. Rydym wedi mapio'r cyflenwad a'r galw. Rhoddwyd grantiau bach i helpu grwpiau cymunedol i ddechrau neu barhau prosiectau tyfu bwyd cynaliadwy lle mae mwyaf o ddiddordeb ac rydym yn hwyluso mynediad at dir a chyllid. | Strategaeth a Chynllun Cyflawni Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-2028<br><br>Adroddiad Gwerthuso Lle i Gynhyrchu'n Lleol<br><br>Adroddiad Gwerthuso Food4Growth |
| Rhoddir hyfforddiant i hysbysu swyddogion technegol am eu swyddogaeth yn deall marchnadoedd lleol, a phan fydd yn bosibl, hyrwyddo mwy o wariant lleol | Mae'r Strategaeth a Chynllun Cyflawni Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-2028 yn amlinellu sut y bydd y cyngor yn gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys pwyslais ar sicrhau cydymffurfio cyfreithiol a llywodraethu cadarn a thryloyw yn y broses gaffael, gyda hyfforddiant i swyddogion y cyngor sy'n ymwneud â'r broses gaffael. Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu cadwyni cyflenwi byrrach, mwy lleol. | Strategaeth a Chynllun Cyflawni Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-2028<br><br>Strategaeth Caffael er mwyn Gwerth Cyhoeddus 2018-2022 |

**MEYSYDD ERAILL I'W DATBLYGU A DDYNODWYD TRWY EIN HUNAN-ASESIAD 2022/23**

Cyflymu cyflawni Strategaeth Ddatgarboneiddio'r cyngor

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru Ffyniannus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy’n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Diwylliant bywiog a’r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

***Amcan Llesiant: Gwneud y mwyaf o botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig***

Mae Sir Fynwy yn lle hardd, gydag amgylchedd naturiol ac adeiledig trawiadol. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod y rhain ar gael i genedlaethau’r dyfodol eu mwynhau felly rhaid i’n cynlluniau ganolbwyntio ar y **tymor hir** ac edrych i **atal** problemau rhag digwydd yn y blynyddoedd i ddod. **Mae angen ymwneud** â phartneriaid a chymunedau i wneud y mwyaf o botensial yr amgylchedd yn y sir. Bydd gweithio **ar y cyd** â sefydliadau a all wella ein hamgylchedd yn rhoi arbenigedd ym mhob agwedd o’n gwaith, er enghraifft, bydd hyn yn galluogi i ni dreialu’r dechnoleg ddiweddaraf o ran ynni adnewyddadwy. Mae creu ardal iach a gwydn i bobl ei mwynhau yn gofyn am **integreiddio’r** amcan hwn gan fod yr amgylchedd yn Sir Fynwy yn rhan mor bwysig o gyflawni amrywiaeth o nodau.

**Dull o fesur cynnydd**

| Mesur | Blaenorol | Diweddaraf | Targed ar gyfer 2026/27 | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| Allyriadau carbon (kgCO2e) o asedau a gweithrediadau’r cyngor[viii] | 48,145 | 49,119 | 30,000 | Ffigwr diweddaraf yn 2021/22, y rhai blaenorol ar gyfer 2019/20. Bydd data 2022/23 yn cael ei gynnwys pan fydd ar gael. |
| Capasiti (MW) yr offer ynni adnewyddadwy a osodwyd ar stad y cyngor | 6.224 | 6.522 | 6.750 | Ffigwr diweddaraf yn 2021/22, y rhai blaenorol ar gyfer 2019/20. Bydd data 2022/23 yn cael ei gynnwys pan fydd ar gael. |
| Nifer y llwybrau teithio gweithredol sy’n cael eu datblygu[ix] | 13 | 16 | 20 | |
| Nifer y llwybrau teithio gweithredol a grëwyd neu sydd wedi eu gwella | 14 | 11 | 18 | Mae’r rhain yn adlewyrchu ffigyrau blynyddol ac maent yn gysylltiedig â’r cyllid sydd ar gael bob blwyddyn a maint a graddfa’r prosiectau a gyflawnwyd. |
| Canran y gwastraff trefol a anfonwyd i’w ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio[x] | 69.53 | 69.97 | 72 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o bobl ar y rhestrau aros am randiroedd | 43 | 74 | Lleihau o 50% | |

# Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy'n Ffynnu ac yn Uchelgeisiol

| Sgôr Gwerthusiad | |
|---|---|
| **Lefel 4 (Da)** | Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos bod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni |

**PAM EIN BOD WEDI CANOLBWYNTIO AR HYN?**

Mae ein man cychwyn yn un cymharol gryf. Mae gan Sir Fynwy economi leol gref ac mae mewn lle da i weld twf yn nhermau Cymru. Mae cryfder mewn nifer o sectorau allweddol sy'n cael eu hamlygu a'u cefnogi ar lefel genedlaethol. Mae'r cyfraddau cyflogaeth yn uchel, fel y mae lefelau cymwysterau. Ond gellir gwneud mwy. Gall Sir Fynwy fod yn fwy bywiog. Mae'r amodau'n bodoli i gyflawni hyn. Byddwn yn gweithio'n galed gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gynyddu'r buddsoddiad, gwella cysylltedd a pharhau i ddatblygu economi sy'n ffynnu, yn uchelgeisiol a mentrus.

| Maes i'w ddatblygu | Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt? | Sut ydym ni'n gwybod? |
|---|---|---|
| | **CANOL TREFI BYWIOG SY'N DOD Â PHOBL AT EI GILYDD A DENU BUDDSODDIAD** | |
| Ymdrin â'r berthynas rhwng prinder safleoedd busnes a chyfraddau cychwyn busnes isel yn y sir. | Gwelwyd cynnydd da yn y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddwyd 19 caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn cynnwys datblygu safleoedd cyflogaeth dynodedig yn ogystal ag arallgyfeirio gwledig a chynlluniau mentrau gwledig sy'n cynnig cyfleoedd gwaith mewn amrywiaeth o sectorau. Mae dros 99% o safleoedd cyflogaeth yn llawn ac er gwaethaf y ffaith bod 40 hectar o dir cyflogaeth yn weddill yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, dywed busnesau wrthym bod y diffyg safleoedd yn gyfyngiad mawr ar eu datblygiad yn y sir. Bydd gwaith ar y papur Economi, Cyflogaeth a Sgiliau diwygiedig yn sail i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i sicrhau bod polisïau cynllunio a dyraniadau safleoedd o faint, ansawdd ac ar leoliad priodol ac yn bodloni anghenion busnesau yn y sir a Phrifddinas-Ranbarth ehangach Caerdydd. | Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol<br><br>Papur Problemau, Gweledigaeth ac Amcanion |
| Cynllunio yn y tymor hwy a gwell dolenni adborth i ddeall beth mae ar ymwelwyr ei eisiau | Rydym yn defnyddio arolygon gydag ymwelwyr a rhanddeiliaid i gasglu barn ac adborth am wasanaethau a phrofiadau. Cynhaliwyd arolwg ymwelwyr yng Nghastell Cil-y-coed yn haf 2022. Mae hyn wedi ein cynorthwyo i ddeall beth sydd ar ymwelwyr ei eisiau ac mae wedi ein helpu i flaenoriaethu'r pethau hyn. Mae cynlluniau sylwadau ac adborth staff yn eu lle i gofnodi effaith chwarae yn ein hamgueddfeydd ac atyniadau; rydym hefyd yn cael sgyrsiau wyneb yn wyneb ac yn defnyddio offeryn gwerthuso Ymbarél Llesiant UCL i fesur yr effaith o ran gwaith gyda phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. | Adborth gan ymwelwyr a sylwadau staff<br><br>Arolwg Nid yw Natur yn Daclus |

| | | |
|---|---|---|
| **POBL O BOB OED A CHEFNDIR Â'R SGILIAU I WNEUD YN DDA YN EU GWAITH NEU DDECHRAU EU BUSNES EU HUNAIN** | | |
| Adeiladu ar y rhwydwaith gref a'r llwyfan ymgysylltu i greu model ymgysylltu â busnes newydd | Rydym yng nghamau olaf ffurfio system newydd, CRM, a fydd yn gweithredu fel y gronfa ddata o fusnesau Sir Fynwy ac offeryn i farchnata gwasanaethau cyngor a chyfarwyddyd y tîm i fusnesau cyn iddynt ddechrau a'r rhai sy'n bodoli. Penodwyd Swyddog Data Busnes a Chyfathrebu fydd yn hwyluso gweithredu'r system hon. | System CRM |
| Gwella gwasanaethau datblygu economaidd i fusnesau ac adeiladu ar lwyddiant y Fforwm Cydnerthedd Busnes | Mae Strategaeth Tyfiant Busnes a Menter Sir Fynwy yn parhau i gael ei chyflawni, gan ymdrin ag amrywiaeth o ymgysylltu â busnesau, gan gynnwys ymgysylltu â busnesau lleol yn ymwneud â'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru a chyrff cyhoeddus eraill. Cynhaliwyd chwiliadau tir ac eiddo hefyd i ddynodi cyllid posibl ar gyfer busnesau sy'n dechrau a busnesau sy'n bodoli, yn ogystal â chreu cysylltiadau gyda datblygwyr/perchenogion eiddo o ran argaeledd eiddo masnachol. Er gwaethaf y gwaith hwn, y nifer o fusnesau a gynorthwywyd oedd 55, dan ein targed blynyddol o 75. Gwelwyd buddsoddiad hefyd mewn tyfu'r tîm, wedi ei ariannu gan Gronfa Ffyniant a Rennir Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda dau aelod newydd o'r staff yn ymuno, a fydd yn galluogi mwy o ymgysylltu gyda busnesau.<br><br>Ym Mawrth 2023, comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i gynnal dadansoddiad economaidd o'r newydd i fod yn sail i ddatblygu'r Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau newydd. | Strategaeth Tyfiant Busnes a Menter Sir Fynwy |
| Gwella cyfathrebu am fanteision ac effaith bargen Rhanbarth-Brifddinas Caerdydd, a strwythurau llywodraethu rhanbarthol eraill. | Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu rhwydweithiau cryf ar draws y rhanbarth a rhannu manteision y cysylltiadau yma. Yn ystod y flwyddyn hon, penodwyd yr Arweinydd yn Is-gadeirydd ar Gabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Arweinydd Portffolio dros Ymchwil a Blaengaredd sy'n cynnwys sedd ar Fwrdd Strategol y Gronfa Her. Mae'r cam hwn yn parhau yn faes i'w ddatblygu i'r tîm gan mai cyfyngedig yw'r gwaith a wnaed yn y maes hwn. | |
| | | |
| **TRAFNIDIAETH A SEILWAITH CYNALIADWY** | | |
| Defnyddio data amddifadedd digidol wedi ei ddiweddaru i dargedu atebion i ardaloedd sy'n dioddef o ran cysylltedd. | Cyhoeddwyd adroddiad ar gynnydd band eang gwledig eleni yn amlinellu bod rhai mewn rhannau gwledig o'r sir yn aml heb fynediad at fand eang digonol, gyda rhai ardaloedd yn Sir Fynwy yn profi cyfran o'r cysylltedd gwaethaf yn y Deyrnas Unedig.<br><br>Cychwynnwyd ar raglen wedi ei hariannu ar y cyd â darparwr gwasanaeth rhyngrwyd. Er i'r cyflenwr hwnnw fynd yn fethdalwr rydym wedi gweithio'n galed i ddynodi eraill i lenwi'r bwlch hwnnw ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid a all gael effaith uniongyrchol ar wella'r mater hwn i sicrhau gwell cysylltedd i breswylwyr. Gostyngodd y ganran o eiddo yn y sir nad oes ganddynt fynediad i fand eang dros 30 Mbps (y gyfradd amddifadedd ddigidol) o 5.1% yn 2019 i 2.5% yn 2022. | Adroddiad Diweddaru Band Eang Gwledig i'r Pwyllgor Craffu Lle |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r gyfradd amddifadedd ddigidol yng Nghymru oedd yn 5.1% yn 2022. | |
| Cyfathrebu gyda'r preswylwyr am fanteision y cynllun 20mya. | Ni oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r newidiadau 20mya newydd. Fe wnaethom ymgysylltu â phreswylwyr yn yr ardaloedd treialu ac rydym wedi gweithredu pan oedd adborth wedi dynodi pethau allai wella diogelwch ar y ffordd a phrofiad defnyddwyr gan ddychwelyd i 30mya ar y B4245 a Heol Cil-y-coed ac ar y B4293 yn Defawden. Bydd y gwaith yn parhau i fynegi manteision y cynllun hwn i breswylwyr wrth i ni gyflwyno'r cynllun trwy'r sir gyfan. | Papur newidiadau arfaethedig i gyfyngiadau cyflymder ar y B4245 a Heol Cil-y-coed ac ar y B4293 yn Nefawden. |
| Monitro'r defnydd o deithio gweithredol i bennu pwy sy'n ei ddefnyddio i wneud gwelliannau wedi eu targedu. | Mae teithio gweithredol yn cael ei fonitro trwy fwrdd rheoli data byw mewnol sy'n rhoi'r diweddariadau byw wedi ei rannu yn ôl gwahanol ddulliau o deithio gweithredol gan gynnwys beicio a cherdded. Ar hyn o bryd mae gennym saith lleoliad ar draws yr awdurdod y mae data yn cael ei anfon yn ôl ohonynt i'n canolfan. Trwy gasglu data gwaelodlin yn y ffordd hon, mae'n bosibl profi cynnydd a'r newid cynyddol mewn dulliau teithio yn ein hadroddiadau yn y dyfodol a'n hadroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru. Dangosodd y data bod 87.28% o ddefnyddwyr llwybrau teithio gweithredol yn gerddwyr, gyda beicwyr yn 9.35% o'r defnyddwyr.<br><br>Gosodwyd dulliau cyfrif newydd i fonitro a gwerthuso. Gwelodd llwybr a adeiladwyd yn ddiweddar yn Ysgol Gynradd Overmonnow gynnydd o 50% yn y teithio gweithredol. Llwyddodd dull treialu olrhain teithio i'r ysgol a lansiwyd gydag Ysgol Gynradd Osbaston bod gostyngiad o 5% ers ei gyflwyno a bydd y tîm yn parhau i weithio gyda'r ysgol i barhau'r gostyngiad hwn yn y defnydd o geir. | Data bwrdd rheoli canolog |
| Gweithredu'r cynllun seilwaith priffyrdd. | Oherwydd y cyllid a'r capasiti cyfyngedig nid yw'r cynllun wedi symud ymlaen. Rydym wedi dynodi beth yw'r heriau a sut i ymdrin â diffygion. Mae angen gwaith i sicrhau cyllid. Mae'r diffyg ariannol yn risg sydd angen ei rheoli. | |

**MEYSYDD ERAILL I'W DATBLYGU A DDYNODWYD TRWY EIN HUNAN-ASESIAD 2022/23**

Defnyddio dadansoddiad economaidd a gomisiynwyd i fod yn sail i ddatblygu Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru Ffyniannus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

***Amcan Llesiant: Sir sy'n ffynnu a chysylltedd da***

Anelwyd y nod hwn at hyfywedd **tymor hir** Sir Fynwy fel lle ffyniannus i fyw, gweithio ac ymweld ag o. Mae lleoliad Sir Fynwy fel y porth i Dde Ddwyrain Cymru yn golygu ei bod yn rhaid i ni groesawu gweithio gydag ardaloedd cyfagos i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd. Mae cadw Sir Fynwy yn ffynnu ac â chysylltedd da yn hyrwyddo **integreiddio** ac yn effeithio ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir. Mae hyn yn gofyn am **gydweithio** gyda busnesau lleol a sefydliadau eraill, a **chynnwys** y gymuned leol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd. Mae ystyried llesiant Cymru gyfan hefyd yn bwysig ac mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda chenedlaethau'r dyfodol dan sylw ac yn defnyddio dull **ataliol** er mwyn cadw pobl ifanc.

**Dull o fesur cynnydd**

| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed ar gyfer 2026/27** | **Sylw** |
|---|---|---|---|---|
| Effaith economaidd blynyddol twristiaeth (£)[xi] | 182.79m | 285.08m | 220.26m | Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i asesu priodoldeb y targedau a'u haddasu pan fydd angen. |
| Nifer y busnesau newydd a gynorthwywyd yn ystod y flwyddyn gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid | 88 | 55 | 90 | |
| Nifer o bobl o oedran gwaith a gefnogwyd i gael gwaith yn ystod y flwyddyn trwy gamau gan yr awdurdod lleol | 100 | 142 | 100 | Mae'r rhain yn adlewyrchu ffigyrau blynyddol ac maent yn gysylltiedig â'r cyllid sydd ar gael bob blwyddyn a maint a graddfa'r prosiectau a gyflawnwyd. |
| Canran o'r rhai sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant[xii] | 2 | 1.8 | 1 | |
| Canran o bobl ifanc a brofodd ofal sydd wedi cwblhau o leiaf dri mis mewn addysg, hyfforddiant neu waith erbyn 19 oed | Ddim ar gael | 72.7 | 80 | |
| Canran o fflyd gerbydau'r awdurdod lleol sydd ag allyriadau eithriadol o isel | Ddim ar gael | 8.4 | 36 | |

# Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Diogel i Fyw

| **Sgôr Gwerthusiad** | |
|---|---|
| **Lefel 3 (Digonol)** | Cryfderau yn drech na gwendidau o ychydig – mae'r dystiolaeth am lwyddiant ychydig yn drech na'r meysydd nad ydynt yn eu lle. Rhai camau gweithredu yn cael eu trefnu a rhai dulliau mesur yn brin o'r targedau a gynlluniwyd |

**PAM EIN BOD WEDI CANOLBWYNTIO AR HYN?**

I'r rhan fwyaf o bobl, mae Sir Fynwy yn lle da iawn i fyw, ond ddim i bawb. Mae angen newid hyn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i greu lle diogel y mae pobl yn falch o'i alw yn gartref, cynyddu argaeledd cartrefi fforddiadwy da, lleihau digartrefedd a hyrwyddo dulliau o helpu perchenogion cartrefi i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon.

| **Maes i'w ddatblygu** | **Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| | **LLEIHAU NIFER Y BOBL SY'N MYND YN DDIGARTREF** | |
| Y gofyn am lety addas i bobl ddigartref, gan gynnwys darpariaeth arbenigol i'r rhai ag anghenion ychwanegol | Cymeradwywyd cynllun trosglwyddo ailgartrefu cyflym gan y Cabinet eleni. Mae'r cynllun yn cynnwys cynllun gweithredu manwl yn nodi sut y bydd y cyngor yn ymdrin â'r heriau y mae'n eu hwynebu o gwmpas digartrefedd a llety i'r digartref. Sefydlwyd panel i bobl ifanc ddigartref ac mae'r gwaith wedi bod yn mynd yn ei flaen ers chwe mis. Mae'r rhai sy'n mynd ar y panel yn cynnwys y timau tai a chymorth tai, timau yr economi, gwaith a sgiliau yn ogystal â chydweithwyr o Compass – y prosiect digartrefedd pobl ifanc. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn dylanwadu ar waith wrth symud ymlaen a bydd yn helpu i ail-ganolbwyntio adnoddau lle gallant gael yr effaith mwyaf.<br><br>Rydym wedi symud aelwydydd o lety gwely a brecwast trwy gydol y flwyddyn. Mae'r galw a'r cymhlethdod cynyddol wedi golygu bod angen i ni barhau i ddefnyddio llety gwely a brecwast gan fod mwy o bobl wedi mynd yn ddigartref. Mae'r defnydd o lety dros dro ar brydles wedi amrywio trwy gydol y flwyddyn. Mae'n heriol dod o hyd i ddarpariaeth wely a brecwast addas yn y sir, sy'n arwain at gostau uwch. Arweiniodd yr hinsawdd economaidd ehangach hefyd at fwy o bwysau gyda'r llogau uwch yn golygu bod buddsoddi'n ddrytach a all atal landlordiaid rhag buddsoddi.<br><br>Daliwyd ati i fuddsoddi mewn staff ychwanegol, atal digartrefedd a dynodi llety ac adnoddau ychwanegol. Bydd ymyraethau wedi eu targedu'n well yn cael eu cyflwyno yn ogystal â modelu data i ddeall yr heriau yr ydym yn eu hwynebu yn well. Mae'r capasiti staffio ychwanegol wedi bod yn | Cynllun Trosglwyddo Ailgartrefu Cyflym<br><br>Panel Digartrefedd Pobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| | bwysig o safbwynt gweithredol. Mae'r ymyraethau strategol sy'n cael eu gweithredu yn ymwreiddio ac mae angen mwy o amser i ddeall eu heffaith yn llawn.<br><br>Llwyddwyd i gyflwyno dull Tai yn Gyntaf ac ail-fodelu llety i bobl ifanc. Mewn marchnad eiddo dynn a gyda chefndir o gyllidebau tynn, mae dynodi llety priodol a chyllid refeniw ar gyfer tai â chymorth arbenigol yn parhau i fod yn heriol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r cyllid Grant Cymorth Tai sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer Sir Fynwy, ond gan fod y dyraniad blynyddol yn parhau yn statig, mae'r bylchau tai â chymorth yn parhau yn y ddarpariaeth leol. | |
| **CYNNYDD YN Y CYFLENWAD O DAI FFORDDIADWY O SAFON UCHEL A STOC TAI MWY EFFEITHLON O RAN YNNI GYDAG ÔL TROED CARBON LLAI** | | |
| Ymdrin â'r angen am dai fforddiadwy a'r angen i ailgydbwyso ein demograffeg i gadw a denu poblogaeth sy'n weithredol yn economaidd i gefnogi a denu buddsoddiad busnes | Dangosodd Adroddodd Monitro Blynyddol mwyaf diweddar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) nad yw'r cam gweithredu hwn yn symud yn ei flaen fel y bwriadwyd mewn cymhariaeth â'r hen CDLl. Cwblhawyd trideg pump o dai fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro, sy'n cyfrif am 9.7% o'r holl dai a gwblhawyd a gofnodwyd. Mae hyn ymhell dan y targed o 96 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn. Yn y cyfnod 2011-2021, darparwyd 658 o gartrefi fforddiadwy, 302 yn brin o'r targed o 960.<br><br>Mae'r nifer o gartrefi sydd wedi cael caniatâd cynllunio dros y blynyddoedd diwethaf wedi gostwng yn sylweddol, o 540 yn 2011/12 i 39 yn 2021/22. Mae hyn yn rhannol oherwydd cylched bywyd y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, gyda'r rhan fwyaf o'r safleoedd a ddynodwyd wedi cael caniatâd cynllunio erbyn hyn. Mae ffosffadau wedi bod yn gyfrannwr pwysig at y gostyngiad mawr diweddar hwn. Ym Mai 2022, ni ellid penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu 308 o anheddau oherwydd ffosffadau. O'r rhain mae 149 yn gartrefi fforddiadwy. Gohiriwyd cyflwyno cynigion datblygu eraill nes y bydd datrysiad i'r broblem ffosffad wedi ei dynodi. Ond, mae camau gweithredu wedi sicrhau cychwyn ar safle sy'n darparu tai fforddiadwy 100% yn ne'r sir. | Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol<br><br>Cofnodion cyflenwi tai |
| **CYMUNEDAU LLE MAE PAWB YN TEIMLO'N DDIOGEL AC YN PARCHU EI GILYDD** | | |
| | Cofnodwyd 6,085 o droseddau yn Sir Fynwy yn y flwyddyn hyd Mawrth 2023 mewn cymhariaeth â 5,439 yn y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd 789 o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid oes data cymharol ar gael ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd y ganran o oedolion yn cofnodi eu bod yn teimlo'n ddiogel yn 75% yn 21-22, y flwyddyn olaf y mae data ar gael ar ei chyfer mewn cymhariaeth ag 81% yn 2018-19. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer y maes hwn fel ein bod yn gallu defnyddio data a recordiadau camerâu cylch cyfyng yn fwy effeithiol i dargedu camau ataliol yn fwy effeithiol. | Data troseddau a gofnodwyd gan ardal Partneriaeth Diogelwch Cymunedol<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| **MEYSYDD ERAILL I'W DATBLYGU A DDYNODWYD TRWY EIN HUNAN-ASESIAD 2022/23** | | |
| | | |

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Ffyniannus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang |
| | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ |

***Amcan Llesiant: Llesiant gydol oes a Sir sy'n ffynnu a chysylltedd da***

Mae'n bwysig i'r cyngor gydweithio gyda phartneriaid ac **integreiddio** gyda'u cynlluniau i leihau digartrefedd a sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl. Mae **cynnwys** a gweithio gyda phartneriaid ac aelodau o'r gymuned yn hanfodol i ddatblygu cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu ei gilydd. Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd bwyslais ar y **tymor hir** ac mae tai fforddiadwy a datblygu carbon sero net gyda chysylltedd da yn ganolog iddo. Mae pwyslais ar **atal** problemau rhag digwydd yn hanfodol i greu lle diogel y mae pobl yn falch o'i alw yn gartref.

**Dull o fesur cynnydd**

| Mesur | Blaenorol | Diweddaraf | Targed ar gyfer 2026/27 | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o gartrefi fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt y flwyddyn | 0 | 51 | 350 | Targed blynyddol yw hwn gyda'r ffigwr diweddaraf yn adlewyrchu argaeledd tir yn y Cynllun Datblygu Lleol a etifeddwyd a'r cyfyngiadau oherwydd ffosffadau. Ar hyn o bryd mae'r targed hwn yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyson â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. |
| Nifer o unedau ychwanegol o dai fforddiadwy a gyflawnwyd yn y flwyddyn [xiii] | 91 | 72 | 200 | Ar hyn o bryd mae'r targed hwn yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyson â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd yr amser (misoedd) y mae aelwydydd digartref yn ei dreulio ym Mand 1 gyda dyletswydd digartref cyn symud ymlaen i lety sefydlog/parhaol | 8.6 | 10.2 | <6 mis | |
| Canran y ceisiadau digartref sy'n cael eu hatal yn llwyddiannus rhag mwyn yn ddigartref | 50 | 50 | 68 | |
| Nifer yr aelwydydd digartref sydd mewn llety gwely a brecwast | 90 | 92 | 25 | Data ar 31 Mawrth. |
| Nifer y rhai 16 ac 17 oed sydd mewn llety gwely a brecwast | Mesur newydd | 0 | 0 | Data ar 31 Mawrth. |
| Nifer yr aelwydydd digartref sydd mewn llety dros dro | 186 | 117 | 146 | Data ar 31 Mawrth.<br>Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i asesu priodoldeb y targedau a'u haddasu pan fydd angen. |

## Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Cysylltiedig Lle mae Pobl yn Gofalu

| **Sgôr Gwerthusiad** | |
|---|---|
| **Lefel 3 (Digonol)** | Cryfderau yn drech na gwendidau o ychydig – mae'r dystiolaeth am lwyddiant ychydig yn drech na'r meysydd nad ydynt yn eu lle. Rhai camau gweithredu yn cael eu trefnu a rhai dulliau mesur yn brin o'r targedau a gynlluniwyd |

**PAM EIN BOD WEDI CANOLBWYNTIO AR HYN?**

Bydd Sir Fynwy yn lle sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pobl, lle maent yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn gysylltiedig ag eraill. Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol, ac mae gwasanaethau statudol ar draws y Deyrnas Unedig yn cael trafferth ymdopi gyda maint a chymhlethdod y galw. Mae gan Sir Fynwy hanes o gyflawni dulliau arloesol a gweithio da mewn partneriaeth. Rydym yn cydnabod bod llesiant yn ymwneud â llawer mwy na thrin pobl pan fyddant yn mynd yn wael. Mae llawer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar ein hiechyd gan gynnwys yr amgylchedd, tai, beth ydym yn ei wneud fel gwaith, faint yr ydym yn ei ennill, ein ffordd o fyw, cludiant a chydlyniad cymunedol. Mae'r elfennau ehangach yma sy'n pennu iechyd, a elwir weithiau yn elfennau cymdeithasol, yn gallu effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol naill ai mewn ffordd gadarnhaol neu ffordd negyddol.

| **Maes i'w ddatblygu** | **Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| **GOFAL CYMDEITHASOL O SAFON UCHEL SY'N GALLUOGI POBL I FYW EU BYWYDAU AR EU TELERAU EU HUNAIN A GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL PROFFESIYNOL AC ANGERDDOL** | | |
| Bodloni'r galw a chymhlethdod cynyddol y cymorth sy'n ofynnol i wasanaethau plant. | Rydym yn cefnogi 211 o blant sydd yn cael gofal (Mawrth 2023), o'r rheiny mae 10 yn blant heb gydymaith sy'n ceisio lloches sy'n rhan o Gynllun Trosglwyddo Cenedlaethol y Deyrnas Unedig i gyd. Mae'r nifer wedi codi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae wedi sefydlogi, er ei fod yn parhau yn uwch na'r gyfradd gyfartalog o blant oedd yn cael gofal ar draws Cymru y llynedd. Ar ddiwedd 2022/23, roedd gan 542 o blant gynllun gofal a chefnogaeth oedd yn rhoi manylion sut yr oedd eu cefnogaeth yn mynd i gael ei darparu, sydd wedi cynyddu o 518 yn 2021/22. Mae Gwasanaethau Plant wedi canolbwyntio ar weithio gyda theuluoedd i gefnogi eu cryfderau, rheoli risgiau a chyflawni deilliannau da. O'r plant sydd â chynllun gofal a chefnogaeth, mae 61% yn cael eu cefnogi i aros gartref pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.<br><br>Mae llawer o alw a chymhlethdod yn parhau i blant sydd angen cefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol. Mae angen cynyddu gwytnwch yn y gwasanaethau diogelu plant wrth i ni barhau i weithio gyda lefel gynyddol o risg a bregrusrwydd yn y gymuned. | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyfradd y plant sy'n cael gofal |

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliadau addas a diogel i gefnogi plant sydd eu hangen | Rydym yn datblygu cyfleoedd lleoliad i blant sydd yn cael gofal ar lefel leol a rhanbarthol i sicrhau bod plant yn cael gofal mewn lleoliadau diogel a phriodol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r nifer o ofalwyr mewnol, a thrwy ehangu dewisiadau preswyl a llety â chymorth yn y sir. Mae gennym strategaeth gomisiynu yn ei lle i'n helpu i ddeall ein gofynion lleoliadau wrth symud ymlaen. Mae hyn yn cyd-fynd ag uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant.<br><br>Comisiynwyd dau gartref plant eleni trwy fodelau partneriaeth, un ohonynt yn ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc gydag anghenion cymhleth iawn. Mae rhagor o gyfleoedd i ddatblygu lleoliadau preswyl a llety â chymorth ar y gweill. Mae heriau anferth gyda'r gwaith hwn yn neilltuol yn ymwneud â gweithlu, adnoddau a'r amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu darpariaeth.<br><br>Rydym yn parhau i gymryd camau i atal plant rhag dod i'n gofal a lleihau'r niferoedd o blant sydd mewn gofal. Mae'r galw am leoliadau addas yn parhau yn uchel mewn amgylchedd lle mae'r cyflenwad yn isel. Mae prinder lleoliadau i blant sy'n cael gofal hefyd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, yn neilltuol i'r rhai ag anghenion cymhleth neu anableddau. Oherwydd hyn, mae risg y gallwn fod angen rhoi plant mewn darpariaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio mewn argyfwng. Nid yw hyn yn unigryw gyda dros 6,000 o leoliadau o'r fath yn y Deyrnas Unedig. Ond mae'n creu risg barhaus i'r cyngor sy'n anodd ei lliniaru ar hyn o bryd. | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Strategaeth gomisiynu |
| Recriwtio gofal maeth | Rydym yn gweithio gyda Maethu Cymru i redeg ymgyrchoedd gweithredol i gynyddu'r nifer o ofalwyr maeth mewnol i roi lleoliadau i'r plant sydd eu hangen. Mae'r tîm yn sicrhau bod darpar ofalwyr maeth yn cael ymateb a chefnogaeth o'r eiliad y byddant yn ymholi, trwy'r broses asesu drylwyr ac ymlaen i'w cymeradwyo a'r lleoliad cyntaf. Er mwyn annog y gofalwyr maeth presennol i barhau yn eu swyddogaeth werthfawr, rydym yn gweithio ar lefel leol a rhanbarthol i sicrhau bod ein cynnig parhaus, yn ariannol ac ymarferol, mor dda ac y gall fod.<br><br>Mae'r nifer o ofalwyr maeth generig/seibiant byr wedi parhau'n ddigyfnewid i raddau helaeth, gyda rhai gofalwyr yn cael eu recriwtio a rhai yn gadael; roedd 38 yn 20/21, 40 yn 21/22 a 39 yn 22/23. Mae cohort wedi ei sefydlu o ofalwyr maeth sefydlog tymor hir yn Sir Fynwy. Ond nid oes digon o ofalwyr mewnol yn y sir, yn neilltuol y rhai sy'n gallu rhoi gofal mwy arbenigol neu edrych ar ôl grwpiau o frodyr a chwiorydd. Mae hyn yn creu gorddibyniaeth ar ddarparwyr preifat ac annibynnol. | Nifer o ofalwyr maeth generig/seibiant byr<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Datblygu sector gofal cynaliadwy i fodloni'r galw parhaus a chyflawni deilliannau personol pobl. | Rydym wedi canolbwyntio ar ymdrin â nifer o broblemau yn y maes hwn, rhai ohonynt yn broblemau trwy'r sector. Mae hyn yn cynnwys adolygu llwyth achosion, rhoi triage i atgyfeiriadau i sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn cael blaenoriaeth i'w hasesu ac i gael ymyrraeth, gweithio gyda darparwyr gofal a phartneriaid a chanolbwyntio ar recriwtio a chadw ein gweithlu yn | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| | y sector gofal. Cyrhaeddodd yr oriau o anghenion gofal heb eu diwallu bron i 1,200 o oriau'r wythnos yn gynharach yn y flwyddyn; ers hynny mae wedi gostwng i 804 awr ar ddiwedd Mawrth 2023.<br><br>Rydym wedi datblygu strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer ein gweithlu gofal cymdeithasol, gyda phwyslais arbennig ar ymdrin â meysydd lle mae llawer o alw. Ar 31 Mawrth 2023 roedd 56 o swyddi gwag ar draws y sector gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r pwysau parhaus ar draws y system gofal cymdeithasol ac iechyd wedi golygu ein bod yn parhau i fethu ymateb i anghenion gofal a chefnogaeth pobl mewn modd mor brydlon ag y byddem eisiau. Mae'r nifer o gysylltiadau â gofal cymdeithasol oedolion (6,437) a'r nifer o asesiadau a gwblhawyd (2,205) wedi parhau'n uchel yn ystod 2022/23. Wrth i'r galw gynyddu, ynghyd â'r cymhlethdod, rydym yn profi oedi yn y ddarpariaeth ac mae risgiau a heriau mewn gofal cymdeithasol oedolion yr ydym yn ymdrin â nhw. Rydym wedi cwblhau llai o becynnau ailalluogi, bu gostyngiad yn y nifer o oedolion â chynllun gofal a chymorth o 1,728 i 1,651 ac mae heriau yn parhau yn y rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol lle mae oedi yn y ddarpariaeth. Dengys ein holiadur gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion bod 83.5%, o ddefnyddwyr gwasanaeth yn hapus ar y gofal a'r cymorth y maent yn ei gael. Mae hyn wedi gostwng o 86.9% o'r flwyddyn flaenorol ac mae dan y lefelau a welwyd yn y blynyddoedd cyn hynny. Byddwn yn dilyn y mesur hwn i sefydlu a yw hon yn duedd tymor hir sylweddol. | Holiadur defnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol oedolion<br><br>Strategaeth gweithlu gofal cymdeithasol |
| Adeiladu ar y model 'troi'r byd ai ben i lawr' i gynyddu dulliau ar sail lle/lleoliad i ddarparu gofal. | Rydym wedi datblygu dulliau ar sail lle i gefnogi llesiant pobl. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau iechyd a gwirfoddol a thrwy'r Rhwydwaith Llesiant Integredig. Mae hyn yn helpu pobl i gysylltu â grwpiau a gweithgareddau yn eu cymuned leol gan gynnal eu llesiant, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd arnynt angen gwasanaethau ffurfiol.<br><br>Un enghraifft o hyn yw'r cynllun treialu micro-ofal a lansiwyd yn Ebrill 2022. Micro-ofalwr yw gweithiwr gofal hunangyflogedig sy'n rhoi cymorth a gofal hyblyg, personol i ddinasyddion sy'n byw yn yr ardal leol. Mae'r prosiect yn cefnogi'r gofalwyr hunangyflogedig i ddatblygu eu busnesau yn ogystal â rhoi cyfle ar gyfer mwy o oruchwyliaeth a llywodraethu ar weithwyr gofal hunangyflogedig sy'n gweithredu yn Sir Fynwy. Yn y flwyddyn gyntaf mae 9 o ofalwr wedi eu cofnodi yn y cyfeiriadur micro-ofal ac maent yn awr yn darparu gofal a chymorth. Ar hyn o bryd mae 21 o bobl yn cael cymorth gan ficro-ofalwyr yn eu cymuned leol, sy'n darparu 161 awr o ofal a chymorth i gyd bob wythnos.<br><br>Mae'r risg allweddol o ran bregrusrwydd y sector gofal cymdeithasol ac argaeledd gofal yn parhau ac rydym yn parhau yn ymroddedig i ddatblygu dull ar sail lle i ymdrin â hyn. | Cynllun treialu micro-ofalwyr |

| SIR FYNWY IACH A GWEITHREDOL LLE MAE UNIGRWYDD A BOD YN YNYSIG YN CAEL EU LLEIHAU, LLESIANT YN CAEL EI HYRWYDDO, A PHOBL YN CAEL EU DIOGELU | | |
|---|---|---|
| Y capasiti a’r trefniadau i fodloni galw cynyddol am help cynnar a gwasanaethau ataliol. | Mae dull cydlyn o roi help cynnar ac atal i gefnogi plant a theuluoedd. Mae hyn yn galluogi teuluoedd i gael cymorth er mwyn galluogi rhieni i ddarparu’r diogelwch, y fagwraeth a’r gofal y mae arnynt eu hangen i’w plant. Mae gwasanaethau yn eu lle i gefnogi adsefydlu plant yn dilyn cyfnodau o fod mewn gofal (Adeiladu Teuluoedd Cryfach); i roi cymorth holistaidd tymor canolig i deuluoedd sy’n gwneud newid cynaliadwy (Tîm Cyflawni Newid Gyda’n Gilydd); a darparu ymateb therapiwtig i rieni a gofalwyr wrth gefnogi plant sydd wedi profi trawma (MyST).<br><br>Gwerthuso ac adborth gwasanaethau cefnogi teuluoedd yn dynodi deilliannau clir a chadarnhaol i deuluoedd. Yn ystod 2022/23, allan o 80 o deuluoedd, cofnododd 87.5% ddeilliant cadarnhaol o’r ymyrraeth help cynnar.<br><br>Mae galw mawr yn parhau am wasanaethau cymorth i deuluoedd ar lefelau cyn ac ar ôl y lefel statudol. Dros y flwyddyn nesaf bydd ein cymorth ataliol i deuluoedd yn cael ei gryfhau trwy ehangu’r tîm amser teulu i roi goruchwyliaeth gymunedol ddwys a chefnogaeth i blant. Mae’r pwyslais yn parhau ar ddatblygu ymarfer a phwysigrwydd cysylltiadau: sut yr ydym yn gweithio gyda theuluoedd i gefnogi eu cryfderau, rheoli risg a chyflawni deilliannau da, gan leihau’r angen i blant gael gofal. | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cymdeithasol<br><br>Adborth Adeiladu Teuluoedd Cryfach |
| Diwallu’r angen am gymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol. | Mae gwasanaethau wedi eu datblygu sydd wedi cynyddu’r gefnogaeth sydd ar gael i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd yn dilyn y pandemig, gan gynnwys yn y lleoliad ysgol. Mae hyn wedi rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl ar adeg o ansicrwydd mawr. Mae’r gefnogaeth yn cynnwys cwnsela yn yr ysgol, sydd wedi gweld cynnydd o 9% yn yr atgyfeiriadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd gostyngiad o 50% yn y nifer o atgyfeiriadau sy’n cael eu symud o un flwyddyn academaidd i’r un nesaf. Derbyniodd y llwybr atgyfeirio llesiant SPACE 1,345 o atgyfeiriadau rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 a symudodd 159 ymlaen i drafodaeth panel gyfan a dyrannwyd cymorth iddynt, ystyriwyd atgyfeiriadau eraill tu allan i’r panel a’u dyrannu yn ôl hynny.<br><br>Mae’r cynnydd hwn yn y ddarpariaeth wedi cyfrannu at ymdrin â’r galw cynyddol. Ond, mae angen sylweddol yn dal i fod am gymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol. | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cymdeithasol<br><br>Data Cwnsela Mewn Ysgolion<br><br>Data panel llesiant SPACE |

**MEYSYDD ERAILL I’W DATBLYGU A DDYNODWYD TRWY EIN HUNAN-ASESIAD 2022/23**

Mynegi yn glir a gwerthuso cynlluniau i gyflawni gofal cymdeithasol i oedolion a phlant o safon uchel.

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

| Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Ffyniannus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang |
| | | ✓ | ✓ | ✓ | | |

***Amcan Llesiant: Llesiant gydol oes***

Mae mabwysiadu dulliau sy'n rhoi'r pwyslais ar gymunedau yn hyrwyddo **cydweithio** a fydd yn ei dro yn cefnogi llesiant. Trwy weithio gyda chymunedau, rydym yn gobeithio **atal** problemau rhag digwydd. Mae digonedd o gyfleoedd yn ein sir, felly mae'n hanfodol i bawb allu **cymryd rhan** er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf i lesiant. Dylai hyn roi mantais **tymor hir** i unigolion a chymunedau. Bydd ein gweithrediadau yn cael budd **integredig** ar gyfer nifer o agweddau o hyrwyddo Cymru iachach. Byddant yn hyrwyddo Cymru o gymunedau cydlyn ac yn gyffredinol yn helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae integreiddio cryf hefyd gyda'n cyfrifoldebau dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

**Dull o fesur cynnydd**

| Mesur | Blaenorol | Diweddaraf | Targed ar gyfer 2026/27 | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| Canran o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion sydd wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen [xiv] | 77.4 | 75 | 85 | |
| Y ganran o asesiadau plant a gwblhawyd yn yr amserlenni statudol | 91.2 | 92.3 | 92 | Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i asesu priodoldeb y targedau a'u haddasu pan fydd angen. |
| Canran o deuluoedd sy'n rhoi adroddiad o ddeiliant cadarnhaol yn dilyn ymyrraeth y tîm Adeiladu Teuluoedd Cryfach | 84 | 87.5 | 90 | |
| Nifer o ofalwyr maeth generig/seibiant byr | 40 | 39 | Recriwtio 8 gofalwr maeth y flwyddyn | |
| Canran o leoliadau plant sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol a wnaed gyda gofalwyr maeth mewnol | 41.3 | 42.2 | 45 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o gleifion sy’n aros i gael eu hanfon gartref o’r ysbyty am resymau gofal cymdeithasol (wedi ei fesur ar ddyddiad cyfrifiad y cytunir arno bob mis) | 8 | 15 | 12 | Ar ddyddiad y Cyfrifiad |
| Nifer oedd yn bresennol yn MonGames[xv] | 4,131 | 4,070 | 4,200 | |
| Nifer oedd yn bresennol yn Food and Fun[xvi] | 3,620 | 2,005 | 3,840 | Roedd y gostyngiad hwn o ganlyniad i ostyngiad yn y lleoedd ar gael oherwydd cyfraddau meddiannu isel. Cynyddwyd y nifer o leoedd ers hynny ar gyfer 23/24. |
| Nifer oedd yn bresennol yn Active Play[xvii] | Ddim ar gael | 249 | 500 | |
| Canran o ddefnyddwyr gwasanaeth sy’n oedolion sy’n fodlon ar y gofal a’r cymorth a dderbyniwyd [xviii] | 86.9 | 83.5 | 90 | |
| Y ganran o becynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a wnaeth liniaru’r angen am gefnogaeth / a gyflawnodd ddeilliant cadarnhaol | 50.8 | 57.6 | 55 | Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i asesu priodoldeb y targedau a’u haddasu pan fydd angen. |

# Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle i Ddysgu

| **Sgôr Gwerthusiad** | |
|---|---|
| **Lefel: 4 (Da)** | Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos bod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni |

**PAM EIN BOD WEDI CANOLBWYNTIO AR HYN?**

Bydd Sir Fynwy yn fan lle mae pawb yn profi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael y cyfle i ddysgu, gan ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnynt eu heisiau i gyrraedd eu potensial. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ysgolion a disgyblion. Mae'r ddwy flynedd o ansicrwydd ac amharu sylweddol ar addysgu wedi gadael eu hôl yn anochel. Cyn y pandemig roeddem yn gwybod nad oedd ein dysgwyr difreintiedig yn cyflawni'r deilliannau y byddem yn eu dymuno. Mae'r pandemig wedi gwaethygu profiadau dysgu llawer o fyfyrwyr bregus fel y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Effeithiwyd yn aml ar lesiant emosiynol a meddyliol y disgyblion, gyda llawer yn profi mwy o ansicrwydd, pryder ac unigrwydd. Yn unol â'n hegwyddorion arweiniol, mae'n hanfodol i ni ddatblygu mwy o gyfleoedd i wrando a dysgu oddi wrth ein disgyblion a myfyrwyr. Ers i'r ysgolion ail agor mae'r system addysg yng Nghymru wedi parhau i esblygu gyda diwygiadau a datblygiadau gan gynnwys cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno deddf anghenion addysg ychwanegol newydd.

| **Maes i'w ddatblygu** | **Pa mor dda yr ydym yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| | **MANTEISION Y CWRICWLWM NEWYDD YNG NGHYMRU AR Y MWYAF POSIBL TRWY ADDYSGU A DYSGU RHAGOROL**<br>**SYSTEM ADDYSG WIRIONEDDOL GYNHWYSOL SY'N CYDNABOD MANNAU CYCHWYN, CRYFDERAU AC ANGHENION ADDYSGOL DYSGWYR** | |
| Cyflawni gwelliannau a ddynodwyd gan Estyn | Mae'r cynllun gweithredu i ymdrin â'r argymhellion o'r arolwg Estyn yn cael ei weithredu. Dengys adroddiadau diweddar gan Estyn bod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn eu haddysg. Mae ailstrwythuro a chreu tîm cynhwysiant ehangach wedi golygu y bydd mynegi strategaeth ADY yn awr yn rhan o set ehangach o strategaethau cydgysylltiedig a phecynnau offer/adnoddau/polisïau cysylltiedig. Mae'r tîm cynhwysiant yn datblygu hyn ar hyn o bryd. Mae gwerthuso yn ganolog i ddeall pa mor dda y mae ein gwasanaeth yn gweithio a'r effaith yr ydym yn ei gael ar gynnydd ein dysgwyr ac effeithiolrwydd y gwasanaethau yr ydym yn eu rhedeg. Mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn awr yn rhoi fframwaith clir i weithredu a gwerthuso gwasanaethau i sicrhau ein bod yn gweithio yn fwyaf effeithiol yn y meysydd lle mae angen.<br><br>Mae'n anos ffurfio barn gyffredinol mewn cymhariaeth â'n hargymhellion Estyn oherwydd y meysydd yr oeddynt yn canolbwyntio arnynt. Mae cynnydd dysgwyr prydau ysgol am ddim a safonau rhagorol yn gofyn am fynediad eang i ysgolion i ddeall a dangos eu cynnydd. | Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| Ymateb i effeithiau tymor hwy y pandemig ar addysg a llesiant plant a phobl ifanc | Effeithiodd y pandemig ar gynnydd academaidd dysgwyr, yn neilltuol yng nghyswllt dysgwyr difreintiedig, ac roedd ei effaith ar lesiant disgyblion a staff hyd yn oed yn fwy arwyddocaol. Yn draddodiadol, y dull o gyfri'r dysgwyr hynny yr ydym yn deall eu bod yn ddifreintiedig yw cyfri'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ond mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw wedi ein gorfodi i ailystyried ein dealltwriaeth o fod yn ddifreintiedig a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ddysgwyr.<br><br>Mae gennym amrywiaeth o ddulliau yn eu lle i leihau rhwystrau i ddysgu ar gyfer disgyblion bregus. Mae'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn ddull wedi ei strwythuro i ysgolion sy'n eu helpu i ddeall sut y maent yn y sefyllfa orau i hyrwyddo llesiant. Mae hyn yn cael effaith arwyddocaol iawn ar bresenoldeb a chynnydd plant yn yr ysgol. Mae ymgysylltu bob yn gam â'n hysgolion wedi bod yn gadarnhaol: ar hyn o bryd mae gennym 43% o ysgolion yn gweithio gyda'r tîm.<br><br>Hyfforddwyd 47 o Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol rhwng 2020 a 2022. Mae'r holl ysgolion a lleoliadau yn ymwneud â'r Cynorthwywyr ac ar hyn o bryd mae 70 yn gweithredu ar draws pob un ond un o'n hysgolion yn y sir, gan gael effaith dyddiol ar fywydau nifer o ddisgyblion. Cynllunnir rhagor o hyfforddiant a fydd ar gael i'r holl ysgolion.<br><br>Mae dros 220 o staff ar draws ein hysgolion, yn ogystal ag amrywiaeth o feysydd gwasanaeth, wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth ar Sail Trawma. Mae'r dull yn canolbwyntio ar ddeall plant/pobl ifanc sy'n dangos ymddygiad sy'n peri pryder ac yn codi ymwybyddiaeth a gallu oedolion sy'n cefnogi disgyblion bregus. Roedd 100% o'r rhai wnaeth gwblhau'r cwrs yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth gefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd wedi profi trawma neu anawsterau iechyd meddwl.<br><br>Mae risg bod ein system ysgolion yn cael trafferth i addasu i'r patrymau newydd o angen ymhlith ein plant a phobl ifanc yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Os nad yw plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu mynd i'r ysgol, ni allwn ddarparu'r cymorth a'r gofal y mae ein hysgolion a gwasanaethau cefnogi yn eu rhoi gyda chymaint o gydymdeimlad ac arbenigedd. Mae swyddogaeth yr arweinydd Ysgolion â Phwyslais Cymunedol yn hanfodol wrth weithio gydag ysgolion a'n holl bartneriaid i ddatblygu'r gweithgareddau a chysylltiadau hyn er budd y gymuned ysgol i gyd. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg ar Daclo Pob Agwedd ar Dlodi ac yn datblygu strategaeth i'r awdurdod cyfan ar gefnogi dysgwyr difreintiedig. | Ysgolion â Phwyslais ar y Gymuned<br><br>Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| Gwerthusiad o gynnydd a chyflawniad yn ysgolion Sir Fynwy | Mae Cwricwlwm Cymru wedi cael ei fabwysiadu yn yr holl ysgolion cynradd ac mae'n cael ei gyflwyno yn yr holl ysgolion uwchradd. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes dysgu'r cyntaf o'r TGAU newydd yn 2025 a'r dyfarniad cyntaf yn 2027. Mae'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg yn rhoi pecyn cynhwysfawr o addysgu proffesiynol fel rhan o fodel Ysgolion Rhwydwaith Dysgu i gefnogi ysgolion a lleoliadau i wireddu Cwricwlwm Cymru yn eu cyd-destun. Dynoda arolygon Estyn o naw ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd bod gan y rhan fwyaf o ysgolion weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm.<br><br>Nid ydym wedi llwyddo i gael y sicrwydd ar gynnydd ein hysgolion oherwydd bod ein gallu (a gallu'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad) i weld tystiolaeth drosom ein hunain wedi ei gyfyngu gan y pandemig ac yn fwy diweddar gan y gweithredu prin o fod yn streic. Rydym wedi dibynnu ar arolygon Estyn i roi tystiolaeth o'r safonau yn ein hysgolion. Dengys yr adborth o'r un ar ddeg o arolygon ar draws Sir Fynwy ers iddynt ddychwelyd yn 2022 ddarlun sy'n datblygu o gryfderau yn y ddarpariaeth. Yn yr amgylchedd eithriadol o heriol y mae pawb yn gweithio ynddo, mae arweinwyr ysgolion yn wynebu ystod o heriau sydd yn wahanol ac yn fwy dwys ers y pandemig. Mae'r cyngor wedi ceisio cryfhau ei dîm i roi cefnogaeth i ddysgwyr ac ysgolion. | Deilliannau Arolygon Estyn<br><br>Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |
| Datblygu a chymorth i arweinyddion ysgol | Yr holl ysgolion yn Sir Fynwy â mynediad at amrywiaeth eang o Ddysgu Proffesiynol ym meysydd Arweinyddiaeth ac Addysgu, Llesiant a Chwricwlwm. Mae'r cynnig Dysgu Proffesiynol gan EAS yn cynnwys ystod eang o raglenni arweinyddiaeth i arweinwyr ysgolion, ar bob lefel, gan gynnwys y rhai sy'n dymuno bod yn brifathrawon, dysgwyr canol, rhai sydd newydd gymhwyso a chynorthwywyr dysgu. Roedd y presenoldeb yn dda mewn llawer o'r rhain dros y 18 mis diwethaf.<br><br>Mae Dysgu Proffesiynol er mwyn Llesiant yn cynnwys hyfforddiant ar ddulliau ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl, Cynyddu Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Ddifreintiedig a chymorth i'r arweinwyr llesiant. Nid yw rhwydweithiau a hyfforddiant llesiant wedi cael presenoldeb da yn ystod y deunaw mis diwethaf.<br><br>Mae'r pecyn EAS yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd briffio arwain a rhwydweithiau cwricwlwm i gryfhau arweinyddiaeth ac addysgu ar draws y gweithlu cyfan i gefnogi amgylchedd dysgu effeithiol ar draws y sir a hwyluso digwyddiadau i rannu arfer da ar draws pob maes dysgu ac arwain. Ers Hydref 2021, mae cyfartaledd o 50.6 o athrawon o ysgolion Sir Fynwy wedi bod mewn dysgu proffesiynol EAS, mewn cymhariaeth â chyfartaledd o 53.5 o athrawon ar draws yr holl ysgolion yn y rhanbarth. | Cynnig dysgu proffesiynol EAS<br><br>Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |
| **GWELL PRESENOLDEB MEWN YSGOLION A LEFELAU IS O WAHARDD SY'N CAEL GWARED AR RWYSTRAU SY'N ATAL DYSGU I DDISGYBLION BREGUS** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu'r strategaeth ADY a bodloni'r galw cynyddol am gymorth | Mae'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn dynodi pedair ffrwd waith unigol ac uchelgeisiol, y cyfan yn anelu at lunio darpariaeth gynaliadwy a chydnerth. Rydym wedi mynd ati i ailstrwythuro a chreu Tîm Cynhwysiant ehangach sydd wedi golygu bod cyflawni'r strategaeth ADY wedi ymwreiddio fel rhan o strategaethau cydgysylltiedig a phecynnau offer, adnoddau a pholisïau ADY cysylltiedig, Perthnasau, Plant sy'n Derbyn Gofal, Gostwng Gwaharddiadau.<br><br>Mae'r Gwasanaeth ADY wedi gweithio ar y cyd gyda phartneriaid rhanbarthol, ysgolion, lleoliadau a theuluoedd i weithredu'r gweithdrefnau newydd a ddynodwyd yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg yn effeithiol. Darparodd Gwasanaeth Statudol ADY yr Awdurdod Lleol gyngor cefnogi cynhwysfawr a hyfforddiant i ysgolion a chyrff llywodraethol i sicrhau bod trosglwyddiad llyfn i'r system ADY newydd. Paratowyd yr holl ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd dan y Ddeddf trwy hyfforddiant wedi ei dargedu a sesiynau Cwestiwn ac Ateb ar-lein cyson.<br><br>Mae ein model o ddarpariaeth arbenigol yn gosod canolfannau adnoddau arbenigol yn ganolog i ysgolion prif-ffrwd a ddynodwyd. Mae angen sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth ADY mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn gyson trwy'r sir. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu fframwaith ar gyfer rheoli darpariaethau Canolfannau Adnoddau Arbenigol sy'n sicrhau dull cyson, teg ar draws yr holl leoliadau. Mae'r cynnydd yn y galw am leoedd darpariaeth arbennig yn parhau. Rydym yn datblygu ein dull o ragweld anghenion ADY cymhleth i helpu i fod yn sail i'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i fodloni'r angen. | Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br><br>Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |
| | **PARHAU EIN RHAGLEN O FODERNEIDDIO YSGOLION** | |
| | Mae'r gwaith ar yr ysgol gydol oes newydd, Brenin Harri'r VIII yn y Fenni yn symud yn gyflym. Bydd yr ysgol yn disodli Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII a bydd lle yno i 1,200 o ddisgyblion oed uwchradd, 420 o ddisgyblion oed cynradd a 200 o leoedd ar gyfer addysg ôl 16 oed. Bydd hefyd le addas i 71 o ddisgyblion gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth yn yr ysgol. Rhagwelir y bydd datblygu'r ysgol hon yn lleihau'r nifer o ddisgyblion sy'n mynd i ysgol uwchradd tu allan i'r sir. Yn ôl yr amserlen mae'r ysgol i agor ym Medi 2024. | Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |
| Adolygiadau dalgylchoedd | Adolygwyd ardaloedd dalgylchoedd ysgolion uwchradd ac maent yn eu lle ar gyfer y rownd nesaf o dderbyniadau. Mae hyn yn golygu y bydd pobl ifanc ym Mrynbuga yn cael gwell mynediad i allu mynychu ysgol uwchradd yn y sir. Mae dalgylchoedd cynradd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gyda gweithdy i aelodau i gael ei gynnal ym Mehefin 2023. Bydd ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig wedyn yn digwydd yn nhymor yr hydref ochr yn ochr â'n trefniadau derbyn i'r ysgol ar gyfer 2025. | Adolygiadau dalgylchoedd ysgolion |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygiad o'r stad addysg gynradd ac uwchradd yng Nghas-gwent | Mae adolygiad clwstwr ar y gweill i sefydlu'r ffordd fwyaf addas o ddatblygu addysg yn ardal Cas-gwent. Bydd yr adolygiad yn edrych ar yr holl agweddu addysgol yn ogystal â'r stad addysg yn yr ardal. Bydd y cynigion yn cael eu rhannu a'u trafod gyda'r aelodau yn ystod tymor yr Hydref. | Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |
| Darparu rhagor o ddarpariaeth ysgol Gymraeg | Rydym yn gweithredu blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg deng mlynedd. Rydym wedi cyflwyno cynllun pum mlynedd i Weinidogion Cymru yn amlinellu ein targedau manwl ar gyfer y flwyddyn. Er gwaethaf yr amserlen fer, fe welwyd cynnydd mewn sawl maes. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r ddarpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwaith ar adnewyddu Ysgol Gymraeg y Ffin i gynyddu'r nifer o leoedd yn yr ysgol i 210 o flwyddyn derbyn i flwyddyn 6 wedi ei gwblhau.<br><br>Rydym wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd i barhau'r dosbarth trochi yn Y Ffin ac ehangu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd eraill o'r sir. Rydym yn ymgynghori ar egin ysgol yn nhref Trefynwy, gyda'r bwriad iddi a'r Cylch Meithrin agor yn nhref Trefynwy ym Medi 2024. Mae'r cynnydd ar rannau eraill o'r cynllun yn gyfyngedig ac, mewn rhai, bydd y gwaith yn dechrau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg<br><br>Prif Swyddog: Adroddiad Blynyddol Plant a Phobl Ifanc |

**MEYSYDD ERAILL I'W DATBLYGU A DDYNODWYD TRWY EIN HUNAN-ASESIAD 2022/23**

Sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei gyflawni sy'n anelu at ymdrin â'r argymhellion a ddynodwyd gan Estyn

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru Ffyniannus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |

***Amcan Llesiant: Y dechrau gorau posibl mewn bywyd***

Mae natur **tymor hir** y nod hwn yn ganolog i'w lwyddiant. Bydd gweithio gydag a **chynnwys** plant a phobl ifanc, mor gynnar â phosibl, i ddynodi eu hanghenion yn rhoi'r cyfle gorau iddynt gyflawni eu potensial gorau. Bydd **atal** problemau cyn iddynt ddechrau yn rhoi'r cyfle gorau i bobl ifanc i ddatblygu. Mae defnyddio dull **cydweithredol** a chysoni gwasanaethau yn rhoi adnodd cyflawn sy'n gweithio mewn harmoni i'r person ifanc. Yn gyffredinol, mae'r dull hwn yn **integreiddio** anghenion pobl ifanc, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau i gyflawni eu nodau.

| **Dull o fesur cynnydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed ar gyfer 2026/27** | **Sylw** |
| Canran presenoldeb disgyblion ar lefel cynradd (nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn cromfachau) | Ddim ar gael | 91.8 (88.1) | 94 (cohort cinio ysgol am ddim i fod o fewn 2%) | Dulliau mesur data mewn blynyddoedd academaidd. |
| Canran presenoldeb disgyblion ar lefel uwchradd (nifer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn cromfachau) | Ddim ar gael | 88.4 (80.9) | 94 (cohort cinio ysgol am ddim i fod o fewn 2%) | Data wedi ei fesur mewn blynyddoedd academaidd. |
| Nifer o waharddiadau parhaol ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd | 5 | 5 | <5 | |
| Cyfanswm y nifer o oedolion sy'n dysgu a gofrestrodd ar gyrsiau addysg cymunedol gan gynnwys cyrsiau rhyddfraint Coleg Gwent | 663 | 560 | 1192 | |

# Defnyddio Ein Hadnoddau

Mae angen i'r cyngor barhau yn berthnasol a hyfyw ar gyfer y genhedlaeth nesaf, gan barhau i fodloni anghenion preswylwyr, ymwelwyr a busnesau yn y presennol. Er mwyn cefnogi cyflawni ein nodau, rhaid i ni sicrhau bod pob agwedd o'r cyngor yn gweithio'n effeithiol, effeithlon ac yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn nodi meysydd craidd mewn sefydliad sydd angen addasu i fodloni'r gofynion ar ein gwasanaeth sy'n newid a sicrhau eu hirhoedledd a'u cynaliadwyedd. Rydym wedi gwerthuso ein trefniadau ar gyfer y meysydd hyn a chynnwys digidol a data fel galluogydd pwysig y modd yr ydym yn cyflawni gwasanaethau'r cyngor. Y meysydd yr ydym wedi eu hasesu yw:

- Cynllunio Corfforaethol, perfformiad a rheoli risg
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Digidol
- Data
- Democratiaeth a Chraffu

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae gan y cyngor fframwaith llywodraethu, ein Cod Llywodraethu Corfforaethol, am y flwyddyn hyd ddiwedd Mawrth 2023. Mae'r fframwaith yn cynnwys y systemau a'r prosesau, a diwylliant a gwerthoedd, y mae'r Awdurdod yn cael ei arwain a'i reoli ganddynt a'r gweithgareddau y mae'n atebol i'r gymuned amdanynt, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro a yw wedi cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflawni gwasanaethau addas, cost effeithiol.

Rydym wedi cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y flwyddyn 2022/23 sy'n dangos bod gennym drefniadau llywodraethu priodol yn eu lle i fodloni'r egwyddorion llywodraethu a bod adolygiad wedi ei gynnal i asesu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Cyflwynwyd y datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng Ngorffennaf 2023. Mae'r hunan-asesiad hwn o'n hadnoddau yn integreiddio gyda chanfyddiadau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bydd hefyd yn cynnwys camau ac argymhellion yn ymwneud â'r trefniadau hyn.

| | Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio? | Sut ydym ni'n gwybod? |
|---|---|---|
| Sicrhau bod cynlluniau strategol yn esblygu i ymdrin â heriau a chyfleoedd yn y sir | Datblygwyd Cynllun Llesiant i Went gyfan. Roedd hwn wedi ei seilio ar yr asesiad Llesiant yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Mae gweithredu egwyddorion Marmot yng nghynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi fframwaith i ganolbwyntio ar leihau anghyfartaledd yng Ngwent. Mae angen datblygu'r cynllun ymhellach i wneud y mwyaf o uchelgais y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant yng Ngwent.<br><br>Datblygwyd y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 newydd ochr yn ochr â fframwaith mesur sy'n olrhain y dulliau mesur y gall y cyngor effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r dulliau mesur deilliannau sydd yn gofyn am weithredu gan amrywiaeth o bartneriaid. Defnyddiwyd y fframwaith dulliau mesur i greu bwrdd rheoli Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol fydd yn cael ei ddiweddaru yn chwarterol.<br><br>Cadarnhawyd yr amcanion gan y Cabinet yn Hydref 2022 a'u cytuno'n ffurfiol gan y Cyngor yn Ebrill 2023. Mae hyn yn golygu na wnaeth y cyngor gytuno ar amcanion llesiant diwygiedig yn ystod y cyfnod hwn. Effeithiodd hyn ar ein gallu i roi eglurder o ran cyfeiriad polisi i fod yn sail i ddatblygu cynlluniau eraill sy'n gyson i gyflawni'r amcanion yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae'r rhain yn cynnwys y strategaethau galluogi lefel uchel sy'n ffurfio fframwaith polisi'r cyngor a'r cynlluniau strategol, gan gynnwys cynlluniau busnes gwasanaethau, sy'n cyflawni'r ymrwymiadau manwl yn y cynllun. | Cynllun Llesiant Gwent<br><br>Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028<br><br>Adroddiad hunan-asesiad o drefniadau rheoli perfformiad i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chraffu<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| Ansawdd a pha mor gyflawn yw'r cynlluniau busnes gwasanaethau | Nid oes digon o gysondeb yn ansawdd a phrydlondeb cwblhau cynlluniau busnes gwasanaethau. Dyluniwyd a chwblhawyd proses a thempled sicrhau ansawdd ym Medi 2022. Defnyddiwyd system goleuadau traffig i asesu cynlluniau a rannwyd gyda rheolwyr gwasanaethau i wella cynlluniau gwasanaeth. Dangosodd y sicrhau ansawdd bod rhai adrannau yn gyson o safon annigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu gwasanaethau i ddefnyddio eu cynlluniau busnes gwasanaeth i gynllunio, rheoli a gwerthuso eu perfformiad a'u swyddogaeth yn gadarn wrth gyflawni a bod yn sail i amcanion a risgiau strategol y cyngor.<br><br>Diweddarwyd yr egwyddorion cynllunio gwasanaeth a'r wybodaeth i'w cefnogi a'u diwygio yn unol â'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol newydd. Cyhoeddwyd canllaw arfer da hunan-asesiad hefyd yn ogystal â chyfarwyddyd ar ddulliau mesur perfformiad. | Statws cwblhau cynllun busnes<br><br>Asesiadau sicrhau ansawdd<br><br>Adroddiad hunan-asesiad o drefniadau rheoli perfformiad i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chraffu<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd y canllawiau hyn wedi eu diweddaru yn cefnogi rheolwyr i gwblhau eu cynlluniau gwasanaeth a chynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. | |
| Datblygu trefniadau hunan-asesu ac ymwreiddio meddylfryd gwerthusol | Rhoddodd y broses hunan-asesu a'r adroddiad asesiad clir o berfformiad y cyngor. Mae hyn wedi bod yn sail i gynllunio'r cyngor yn barhaus fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad ac wrth ddatblygu drafft y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.<br><br>Roedd craffu a goruchwyliaeth effeithiol ar yr adroddiad drafft. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg i'w adolygu, craffu arno a gwneud argymhellion am newidiadau. Canfu'r pwyllgor ei fod yn gyfforddus â chynnwys yr adroddiad ac argymhellodd y dylai gael ei ystyried gan y Cyngor. Nododd y pwyllgor hefyd ei ddymuniad i fod â mwy o ran wrth ddylunio ymarfer hunan-asesu blynyddol y cyngor.<br><br>Dynododd y broses hefyd nad yw meddylfryd gwerthusol ar sail tystiolaeth glir yn cael ei weithredu yn gyson yn nhrefniadau rheoli perfformiad y cyngor i hwyluso gwelliant parhaus. Er mwyn sicrhau bod hunan-asesu yn ymwreiddio yn ein hymarfer, mae angen datblygu her ymhellach ac ymwreiddio meddylfryd gwerthusol. Cynhelir adolygiad o broses 2022/23 gan gynnwys gweithdy gyda'r cyfranwyr ac adolygwyr allweddol i'r broses. | Hunan-asesiad 2021/22<br><br>Adroddiad hunan-asesiad o drefniadau rheoli perfformiad i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chraffu<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** | | |
| Ymwreiddio cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 yn fframwaith perfformiad y cyngor | | |

**Cynllunio Ariannol**

| | Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio? | Sut ydym ni'n gwybod? |
|---|---|---|
| Trefniadau cynllunio ariannol a rheoli cyllideb gan ddeiliaid cyfrifoldeb yn y meysydd gwasanaeth | Cofnododd yr adroddiad canlyniad refeniw a chyfalaf 22/23 bod diffyg yn y canlyniad o ychydig dros £3.5m oedd yn gofyn am gyfraniad o arian wrth gefn oedd wedi ei glustnodi i gyllido'r gwariant ychwanegol a dynnwyd. Oherwydd camau arwyddocaol i adfer y gyllideb roedd y diffyg hwn yn welliant sylweddol mewn cymhariaeth â'r rhagolwg 9 mis, gyda dros £2.5m yn llai angen ei gyfrannu o'r cronfeydd wrth gefn, yn bennaf o ganlyniad i gyllid grant ac adfer y gyllideb. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy.<br><br>Y prif resymau am y diffyg hwn oedd gorwariant ar ofal cymdeithasol Oedolion a Phlant o dros £4.5m, pwysau digartrefedd a dyfarniadau cyflog. Gyda'r argyfwng costau byw yn cael effaith sylweddol ar ein cymunedau, bu galw cynyddol am wasanaethau ychwanegol gan y cyngor, llai o alw am wasanaethau sy'n cynhyrchu incwm, ac effeithiau ar adfer dyledion. | Adroddiad Canlyniad Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2022/23<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br><br>Adroddiadau ariannol Archwilio Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r amgylchedd economaidd ehangach hefyd yn cael effaith sylweddol o hyd, gyda'r cynnydd ym mhrisiau nwyddau a gwasanaethau yn torri'r record, amharu ar gadwyn gyflenwi, costau ynni'n uchel iawn, cyfraddau llog uwch, a heriau recriwtio yn rhoi pwysau na welwyd ei debyg ar y galw ac ar gost darparu gwasanaethau.<br><br>Roedd arbedion gan wasanaethau o gyfanswm o £2.129m yn ofynnol fel rhan o'r gyllideb refeniw wreiddiol ar gyfer 22/23 ac mae'r rhain wedi cael eu cyflawni'n llawn yn ystod y flwyddyn. Gwelodd y gyllideb hefyd £10.1m o bwysedd yn cael ei dderbyn a'i dalu. Er gwaethaf gallu ymdopi â'r pwysedd hwn, mae pwysedd pellach sylweddol ar y gwasanaeth o fewn y flwyddyn wedi dod i'r golwg, gyda nifer yn datblygu yn yr un meysydd gwasanaeth allweddol a dderbyniodd gymorth ychwanegol yn y gyllideb.<br><br>Mae amrywiaeth yn y cynllunio ariannol a rheoli cyllideb gan y deiliaid cyllideb cyfrifol mewn meysydd gwasanaeth. Mae pwysedd parhaus ar y gyllideb a gorwariant blynyddol dro ar ôl tro mewn meysydd gwasanaeth penodol, gan gynnwys digartrefedd, gwasanaethau plant, gofal cymdeithasol oedolion ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae angen i gynllunio ariannol gael ei gryfhau, yn ogystal â rhoi hyfforddiant i'r holl swyddogion perthnasol i sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol cadarn yn cael eu gweithredu yn gyson ar draws gwasanaethau a'n bod yn ymateb yn gyflym i roi cynlluniau ar waith i adfer pan fydd gorwario yn digwydd.<br><br>Rhoddir adroddiadau monitro cyllideb yn gyson i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ceisio egluro ei swyddogaeth wrth adolygu a chraffu ar faterion ariannol y cyngor. Wrth asesu'r graddau y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn, cred y pwyllgor nad yw bob amser wedi cael digon o wybodaeth iddo adolygu materion yn ymwneud â rheolau gweithdrefnau contractau a rheoliadau ariannol. | Adroddiadau proses ariannol a sicrhau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau bod y Cynllun Ariannol tymor canolig yn adlewyrchu pwysau cost realistig yn y dyfodol mor gywir â phosibl, ar sail y wybodaeth sy'n hysbys ac ar sail data cyfredol a chywir gan y gwasanaethau, ac yn hwyluso proses osod cyllideb dros y tymor canolig er mwyn caniatáu i gyllideb gytbwys gael ei gosod sy'n cyflawni ar y blaenoriaethau corfforaethol y cytunwyd arnynt | Adolygwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i ddiweddaru yn unol â chyllideb 2023/24. Roedd hyn yn adlewyrchu'r pwysau ariannol y mae'r awdurdod yn ei wynebu: llogau'n cynyddu a'r hinsawdd economaidd ehangach; chwyddiant sy'n hanesyddol o uchel sy'n rhoi pwysau ar gostau; rhagolygon uwch ar gyfer setliadau cyflog a setliad cyllido Llywodraeth Cymru lle rhoddwyd cynnydd mewn cyllid o 9.3% i Sir Fynwy.<br><br>Mae'r model Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig yn dangos bwlch cynyddol yn y gyllideb dros y pum mlynedd nesaf, gyda diffyg o £23m y mae angen ymdrin ag o yn y flwyddyn ariannol 2026/27. Ar sail profiad y gorffennol, mae'r model Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys £7.5m o arian o'r neilltu ar gyfer pwysedd sy'n debygol o godi ond nad yw wedi ei ddynodi na'i fesur eto ym mhob un o flynyddoedd y Cynllun sy'n weddill. Mae'r flwyddyn ariannol 2023/24 eisoes yn gweld lefel y pwysau net yn uwch na'r ddarpariaeth hon gan adlewyrchu pwysigrwydd cadw'r tybiaethau hyn dan adolygiad parhaus.<br><br>Mae strategaeth ariannol wedi ei diweddaru yn cael ei datblygu fydd yn darparu'r fframwaith y mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gweithredu ynddo. Bydd Cynllun diwygiedig yn cyd-fynd â hyn a fydd yn adlewyrchu'r gofynion cyllido cyfredol er mwyn cael dull wedi ei strwythuro a'i gynllunio i ddarparu gwasanaethau yn y tymor canolig. Bydd hyn yn galluogi i gamau adfer gael eu cymryd i sicrhau y bydd darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn cael ei ailfodelu yn unol â'r cyllid sydd ar gael gan barhau i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. | Adroddiadau cyllideb y Cabinet a'r Cyngor 2022/23 a 2023/24<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** | | |
| Datblygu strategaeth ariannol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig cadarn sy'n dynodi sut y byddwn yn ymdrin â'r diffyg o £23m yn y gyllideb erbyn 2026/27 | | |

**Cynllunio Gweithlu**

| | Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio? | Sut ydym ni'n gwybod? |
|---|---|---|
| System e-recriwtio a'r broses recriwtio | Mae hwn yn ddarlun sy'n gwella. Rydym wedi prynu system e-recriwtio fydd yn mynd yn fyw yn Hydref 2023. Mae'r Tîm Pobl wedi gwneud trefniadau i gryfhau gweithdrefnau recriwtio, fel addasu'r broses recriwtio, gan ddal i gynnal y gofynion diogelu a diogelwch, hyrwyddo cyfleoedd a recriwtio graddedigion, prentisiaid, a phrofiad gwaith. Arweiniodd hyn at ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus mewn rhai meysydd gwasanaeth. Hyrwyddir swyddi newydd mewn amrywiaeth o ffyrdd i gyrraedd cynulleidfa ehangach, gan ddefnyddio ymgyrchoedd fel 'Swydd yr Wythnos'. Bydd gan y meddalwedd y gallu i greu dadansoddiad i roi tystiolaeth well o effeithiolrwydd y dulliau hyn fel ein bod yn gallu gwneud mwy o'r pethau sydd wedi profi eu bod yn rhoi canlyniadau. | Caffael system e-recriwtio<br><br>Hyrwyddiadau'r Tîm Cyfathrebu |
| Angen i'r system rheoli dysgu a'r anghenion hyfforddiant a datblygu fydd yn deillio ohoni gael eu dadansoddi a'u darparu | Prynwyd system rheoli dysgu ac mae wedi cael ei threialu yn gofal cymdeithasol. Mae'r problemau a ddynodwyd trwy'r cynllun treialu wedi cael eu trin cyn iddi gael ei chyflwyno yn ehangach ar draws yr awdurdod er enghraifft bydd un dull o fewngofnodi yn allweddol, gan y bydd yn gwneud mynediad i'r system yn symlach. Mae problemau adnoddau i ymdrin â nhw hefyd i sicrhau bod capasiti yn y meysydd gwasanaeth i hwyluso'r cyflwyno ar draws y sefydliad. | Caffael System Rheoli Dysgu |
| Galluogi gwella cynllunio gweithlu a datblygu trefniadau cynllunio gweithlu | Mae'r maes hwn o'r gwaith wedi ei dan-ddatblygu ond mae'n dangos arwyddion o welliant yn awr. Sefydlwyd tîm gyda ffocws penodol ar gynllunio a datblygu gweithlu, yn ymgorffori recriwtio, cadw, hyfforddiant a thyfu prentisiaethau. Mae'r tîm yn gweithio gyda meysydd gwasanaeth i gryfhau trefniadau cynllunio gweithlu: mae system rheoli dysgu wedi ei phrynu ac yng nghyfnod cynnar ei gweithredu.<br><br>Cyflwynwyd y Strategaeth Prentisiaid Graddedigion ac Interniaid i gefnogi a chynyddu'r nifer o gyfleoedd ar draws y cyngor. Mae'r gwaith ar hyn yn parhau fel rhan ganolog o gynllunio gweithlu strategol. Ar hyn o bryd mae 14 o brentisiaid, graddedigion ac interniaid ar draws y cyngor, gyda nifer o gyfleoedd eraill yn cael eu datblygu.<br><br>Mae 150 o'r staff presennol yn gweithio ar hyn o bryd tuag at gymhwyster ar y fframwaith prentisiaeth. Mae'r gwaith yn parhau i hyrwyddo ac annog staff i ystyried eu datblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Mae'r tîm gwasanaethau pobl eisoes wedi rhoi trefniadau yn eu lle i gryfhau'r gweithdrefnau recriwtio. Mae datblygu a chadw'r staff presennol yn elfen hanfodol o | Caffael System Rheoli Dysgu<br><br>Diweddariadau systemau a data ar Brentisiaid, Graddedigion ac Interniaid<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | gynllunio gweithlu: mae angen i gynnig hyfforddiant y sefydliad gael ei ddatblygu i ddiwallu'r gofynion sgiliau presennol a rhai'r dyfodol, ac mae capasiti wedi ei ddynodi fel rhywbeth sy'n atal staff rhag mynd i hyfforddiant. Mae angen datblygu gwell cynllunio gweithlu a pholisïau dan arweiniad pobl sy'n galluogi newid gyrfa yn nes ymlaen mewn oes. | |
| Cefnogi llesiant staff | Mae'r 'cwtch' digidol ac yn y cnawd yn parhau, ynghyd â sesiwn arweinyddion pobl wythnosol. Mae'r 'cwtch digidol' yn llai aml yn awr gan adlewyrchu'r dychwelyd i'r swyddfa ar ôl y cyfnod clo. Datblygwyd safle mewnrwyd arweinwyr pobl sy'n galluogi trafodaethau byw/newyddion, cefnogaeth uniongyrchol a llwyfan ddysgu a rennir i reolwyr a phrifathrawon. Trwy ddefnyddio rhwydweithiau a chyfathrebu digidol, arolygon a dolenni adborth i uwch reolwyr, mae'r cyswllt gyda'r gweithlu wedi cael ei ymestyn.<br><br>Mae hyn hefyd wedi creu'r amodau ar gyfer system ehangach o rwydweithiau hunan-gefnogaeth sy'n rhannu arferion, syniadau a chymorth, gyda'r ddolen/fforwm adborth graidd trwy'r Gweithgor Pobl. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym Medi 2022 yn gofyn am ryddhau £219,824 o'r cronfeydd wrth gefn i helpu i liniaru effaith y cynnydd mewn costau byw ar y gweithlu. | Cwtch Digidol<br><br>Sesiwn Cwestiwn ac Ateb Arweinwyr Pobl<br><br>Safle Cymorth Arweinwyr Pobl<br><br>Adroddiad Effaith Costau Byw ar y Gweithlu |
| Ymgysylltu a chyfathrebu staff/rheolwr llinell ystyrlon fel hawl | Nid ydym yn gallu cael tystiolaeth systematig o effeithiolrwydd ein cynllun adolygu gweithwyr. Dengys tystiolaeth anecdotaidd bod y cynllun yn foddhaol, er bod y defnydd ohono yn gymysg a bod lle i wella. Nid ydym chwaith yn gallu profi bod yr holl reolwyr yn derbyn yr hyfforddiant a chyfleoedd datblygu angenrheidiol i gefnogi staff. Bydd gweithredu'r system rheoli dysgu newydd yn helpu i gyflawni hyn. Mae angen hefyd i sicrhau cysoni clir gyda threfniadau galluogi eraill fel y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth, a hyfforddiant staff a hyfforddiant. | Ymgysylltu trwy Gwestiwn ac Ateb y Bobl<br><br>Cwestiwn ac Ateb Arweinwyr<br><br>Cwtch Digidol |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** | | |
| Datblygu strategaeth pobl sy'n gyson i gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | | |

**Caffael**

| | Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio? | Sut ydym ni'n gwybod? |
|---|---|---|
| Perchenogaeth o'r strategaeth caffael gan yr holl swyddogion sydd â rhan i'w chwarae wrth gyflawni'r amcanion strategol | Datblygwyd Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-28. Fel rhan o gyflawni'r strategaeth hon, bydd yr holl swyddogion sy'n ymwneud â'r broses caffael yn cael hyfforddiant ac addysg. Bydd perchenogaeth ar y cyd ar draws holl wasanaethau'r cyngor ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-28 a'r cynllun gweithredu yn creu'r llwyfan galluogol cywir ar gyfer datblygu'r polisïau blaengar fydd yn cyflawni enillion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwy ac wedi eu targedu'n well trwy weithio gyda'n cadwyni cyflenwi. | Strategaeth a Chynllun Cyflawni Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-28 |
| Deall sut mae allyriadau carbon yn cael eu cynhyrchu, eu mesur a'u gostwng yn y pen draw fel rhan o wariant trydydd parti'r cyngor | Amcan y Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-2028 yw cyfrannu at leihau allyriadau carbon y cyngor i sero net erbyn 2030. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddeall ôl troed carbon y nwyddau a'r gwasanaethau y mae'r cyngor yn eu prynu a gweithio i sicrhau bod ein gweithgareddau lleihau carbon yn cael eu targedu ar y mannau lle gall gael mwyaf o effaith; gweithio gyda'n haelodau etholedig, staff, contractwyr sy'n bartneriaid ac asiantaethau'r llywodraeth i sicrhau bod lleihau carbon yn cael ei ystyried yn llawn trwy gydol y cylch caffael; a chydweithio gyda sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i ddysgu oddi wrthynt. Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu cadwyni cyflenwi byrrach, mwy lleol. Byddwn yn dangos ein bod wedi cyflawni trwy roi adroddiad ar gyfraniad caffael at leihau carbon trwy Strategaeth a Chynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd y cyngor. | Strategaeth a Chynllun Cyflawni Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-28<br><br>Strategaeth Caffael er mwyn Gwerth Cyhoeddus 2018-2022 |
| Prosesau i sicrhau bod yr holl wariant trydydd parti trwy dendr â lefel o oruchwyliaeth a her | Rydym yn datblygu proses gaffael gadarn, ac yn gwneud hyn trwy nifer o ffyrdd, gan gynnwys diweddaru Rheolau Gweithdrefn Contract y cyngor, a fydd yn rhoi mwy o gyfle ar gyfer gwariant ar gaffael yn lleol, gan sicrhau bod caffael moesegol a gwerth am arian yn nodweddion parhaus. Rydym hefyd wedi buddsoddi ym meddalwedd caffael electronig y cyngor i gynyddu tryloywder a rheoli contract effeithiol ac rydym wedi mabwysiadu 'Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi' Llywodraeth Cymru i yrru'r ymddygiad cywir ar draws ein rhwydweithiau cyflenwi. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o ailddatblygu a sicrhau adnoddau ar gyfer Cynllun Contractau a Chofrestr Contractau trwy'r cyngor a fydd yn rhoi llawer mwy o oruchwyliaeth ar ein contractau presennol a'r gallu i gynllunio cyflawni adnewyddu contractau a gofynion newydd yn well. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n gyson ar wefan y cyngor o Awst 2023. | Strategaeth a Chynllun Cyflawni Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-28<br><br>Strategaeth Caffael er mwyn Gwerth Cyhoeddus 2018-2022 |

| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** |
|---|
| |

| Asedau | | |
|---|---|---|
| | **Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
| Adolygu a diwygio'r strategaeth Rheoli Asedau gan weithredu blaenoriaethau'r cyngor | Mae'r cynllun rheoli asedau strategol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu ymrwymiadau 2022/23 sy'n parhau, ac fe welwyd datblygiad cadarnhaol o ran ei gyflawni. Oherwydd yr oedi o ran y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol newydd nid yw'r strategaeth Rheoli Asedau ar ei ffurf derfynol eto gan fod angen i'r ddau gyd-fynd. Mae'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd, nid yw'r oedi wedi cael effaith ar lefel weithredol, ond y mae wedi cael effaith ar y lefel strategol. | Cynllun Rheoli Asedau |
| Adolygu ac asesu risgiau rheoli asedau | Mae nifer sylweddol o bwysau ar gyfalaf, gan gynnwys seilwaith eiddo a phriffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus, sydd tu hwnt i unrhyw botensial i'w hariannu o'r tu mewn i'r Cynllun Ariannu Tymor Canolig Cyfalaf. Mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â hyn, mae'r rhain yn cael eu hasesu i bennu a oes angen cyllid pellach i ymdrin â risgiau all godi'n fuan.<br><br>Mae adolygiad o'r pwysau a'r risgiau cysylltiedig yn cael ei gynnal i fod yn sail i'r broses cyllideb gyfalaf. Roedd adolygiad blaenorol yn 20/21 wedi dod i'r casgliad bod angen cynnal astudiaethau dichonolrwydd ac asesiadau technegol pellach ar asedau seilwaith penodol, wedi eu hariannu o gyllidebau cyfalaf seilwaith priffyrdd sy'n bodoli. Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn cael eu hadolygu gan y Gweithgor Cyfalaf a Rheoli Asedau a bydd yr asesiadau yn sail i'r Cynllun Ariannu Tymor Canolig a'r pwysau y bydd angen eu hariannu yn y dyfodol.<br><br>Mae rhaglen o arolygon cyflwr eiddo yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan ymgynghorwyr allanol. Bydd y rhain yn sail i flaenoriaethu'r gwariant cyfalaf ar gynnal a chadw. Mae rhaglen o arolygon iechyd a diogelwch yn cael ei chomisiynu ar hyn o bryd. Cwblheir asesiadau cyflwr annibynnol o seilwaith priffyrdd allweddol yn ôl y gofyn gan ddibynnu ar eu cyflwr. Mae'r rhain yn sail i flaenoriaethu y gyllideb gyfalaf sydd ar gael. | Strategaeth cyllideb gyfalaf a'r cynnig cyllideb gyfalaf<br><br>Y Gweithgor Cyfalaf a Rheoli Asedau<br><br>Arolygon cyflwr<br><br>Cofrestr risg strategol |
| Deall anghenion rheoli gwasanaethau eiddo a rheoli cyfleusterau, cryfhau cydweithio a chryfhau trefnu ar draws meysydd gwasanaeth y cyngor | Mae anghenion rheoli eiddo a chyfleusterau y sefydliad yn amrywiol ac maent wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd. Mae angen gwneud gwaith i ddeall yr anghenion yn glir a chydnabod a defnyddio'r capasiti a'r gallu sydd ar gael yn y swyddogaeth eiddo os bydd angen rhagor o waith. Mae heriau capasiti a recriwtio wrth geisio bodloni gofynion rheoli prosiect mewn rhannau eraill o'r sefydliad, ac nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hystyried pan fydd y prosiectau'n cael eu cynllunio a'u cynnal. Mae angen datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau mewn meysydd gwasanaeth hefyd i reoli asedau'n effeithiol a'u hadolygu o bosibl. Mae angen cryfhau'r cydweithio rhwng adrannau a gwasanaethau eiddo, a rheoli disgwyliadau i gydlynu eiddo a rheoli cyfleusterau ar draws meysydd gwasanaeth y cyngor. | Cynllun busnes gwasanaeth rheoli eiddo a chyfleusterau |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu strategaeth reoli asedau wedi ei diweddaru i gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | | |
| | **Digidol** | |
| | **Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
| Blaenoriaethu cynlluniau digidol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a chyfarwyddiaethau gan sicrhau ein bod yn datblygu a/neu caffael systemau modern, diogel y gellir ei gweithredu rhwng systemau sydd yn eu tro yn darparu gwell gwasanaethau a deilliannau i'n preswylwyr | Mae amrywiaeth o gynlluniau digidol wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Gan gynnwys cyflwyno galw ar Microsoft Teams sydd wedi lleihau costau ein system ffôn. Mae'r gwaith wedi parhau i flaenoriaethu cyfnewid systemau ac annog meysydd gwasanaeth i fuddsoddi mewn adnoddau gweinyddu/rheoli prosiectau i wneud y mwyaf o botensial y dechnoleg newydd.<br><br>Mae offeryn olrhain caffael yn cael ei ddylunio ar y cyd â'r tîm caffael i roi proses brynu fwy effeithlon ac effeithiol. Mae offeryn olrhain argymhellion Archwiliad Mewnol hefyd yn cael ei dreialu, fydd yn cynnig ateb mwy awtomataidd i gydweithwyr i roi eu diweddariadau ar argymhellion archwilio.<br><br>Gan na all sefydliad foderneiddio a chael ei alluogi gan dechnoleg heb drawsnewid ei set o sgiliau. Cwblhawyd prototeip ar gyfer hyfforddiant Elfennau Sylfaenol Digidol yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Lle. Mae'r gwaith gyda Chymdeithas Tai Sir Fynwy yn parhau i annog y defnydd o Lyfrgelloedd Benthyca Digidol gan breswylwyr yn dilyn y diffyg defnydd pan oedd hyn yn rhan o lyfrgelloedd y cyngor. | Byrddau rheoli gwybodaeth busnes grymus<br><br>Offeryn olrhain caffael<br><br>Offeryn olrhain Argymhellion Archwiliad Mewnol<br><br>System ffonio Teams.<br><br>Prototeip hyfforddiant Elfennau Sylfaenol Digidol |
| Trefniadau diogelwch seibr a rheoli data | Rydym wedi sefydlu Tîm Diogelwch Gwybodaeth a Thechnoleg i sicrhau bod gwybodaeth a gedwir gan y cyngor yn parhau yn gyfrinachol, yn cadw ei dilysrwydd ac ar gael i'r rhai sydd angen cael mynediad ati fel rhan o'n gwaith. Mae'r tîm yn weithredol yn cefnogi, cynghori a hyfforddi ein gweithlu. Mae'r un tîm yn darparu gweithgareddau allweddol i gadw diogelwch gan gynnwys y swyddogaeth archwilio seibr ar ein seilwaith TGCh a'r trefniadau llywodraethu. Cyflwynwyd adroddiad ar drefniadau diogelwch seibr y cyngor i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Ionawr 2023. Mae'r awdurdod wedi llwyddo i gael statws achredu gyda'r pum bwrdd cenedlaethol yn ogystal â nifer o asesiadau gwirfoddol.<br><br>Rhoddir hyfforddiant gorfodol ar gyfer GDPR a Seibr Ddiogelwch, ynghyd â chyfarwyddyd a pholisïau cynhwysfawr ar bob agwedd o reoli data. | Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br><br>Adroddiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| | **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** | |
| Datblygu strategaeth ddigidol i gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | | |

**Data**

| | Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio? | Sut ydym ni'n gwybod? |
|---|---|---|
| Defnyddio data i greu dealltwriaeth | Datblygwyd map gallu a chapasiti data i gryfhau'r ffordd y mae'r cyngor yn defnyddio data i arwain ei weithgareddau. Mae'r pwyslais cychwynnol wedi bod ar gynyddu gallu data ar draws y sefydliad trwy gyfleoedd hyfforddiant a datblygu i'r staff presennol ym mhob tîm. Mae sesiynau hyfforddi wedi eu caffael a'r tudalennau 'hwb data' wedi eu diweddaru i gynnwys gwybodaeth a chyfleoedd hyfforddi yn ymwneud â data.<br><br>Yn ail rhoddwyd pwyslais ar greu gwell dealltwriaeth o'r setiau data sy'n bodoli'n barod. Mae'r 'hwb data', rhan fesur perfformiad y cyngor ar safle mewnrwyd y cyngor wedi cael ei adnewyddu a'i ddiweddaru. Datblygwyd bwrdd rheoli rhyngweithiol newydd y gellir ei ddefnyddio i olrhain cynnydd y mesurau a nodwyd yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Datblygwyd rhagor o fyrddau rheoli i roi data i fod yn sail i gynllunio a llunio penderfyniadau, er enghraifft, trwy ddefnyddio data Cyfrifiad 2021.<br><br>Mae angen gwaith i ddatblygu aeddfedrwydd data'r cyngor a defnyddio data i greu dealltwriaeth i fod yn sail i lunio penderfyniadau. | Byrddau rheoli Hwb Data<br><br>Adroddiad hunan-asesiad o drefniadau rheoli perfformiad i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chraffu<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** | | |
| Datblygu strategaeth ddata i gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | | |

**Democratiaeth a Chraffu**

| | Pa mor effeithiol y mae adnoddau'n cael eu defnyddio? | Sut ydym ni'n gwybod? |
|---|---|---|
| Trefniadau democratiaeth a chraffu | Defnyddio presenoldeb o bell yn y Cyngor, Cabinet a chyfarfodydd pwyllgorau wedi ymwreiddio yn llawn. Daw hyn â buddion cadarnhaol i'r rhai ag ymrwymiadau gwaith neu deuluol sy'n gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd na fyddent fel arall yn gallu bod yn bresennol ynddynt. Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn 94% yn y flwyddyn waith 22-23 mewn cymhariaeth ag 86% yn y flwyddyn flaenorol ac 86% yn ystod blwyddyn gyntaf tymor y cyngor blaenorol.<br><br>Mae adolygiadau i'r newidiadau i'r pwyllgorau craffu wedi lleihau'r dyblygu, er enghraifft mae adroddiadau cyllideb a pherfformiad yn awr yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg yn hytrach na chael yr un adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn pedwar cyfarfod ar wahân. | Ffigyrau Presenoldeb<br><br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** | | |
| | | |

## Ein gwaith gydag eraill

Er mwyn cyflawni'r deilliant gofynnol ar gyfer y sir mae angen i ni weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, rhanddeiliaid a'n cymunedau. Ni fydd gan y cyngor yr holl atebion ac ni fyddwn yn gallu cyflawni'r deilliannau gofynnol ar ein pennau ein hunain. Mae gweithio yn effeithlon ac effeithiol ar y cyd yn ein galluogi i gynllunio a darparu'r atebion gofynnol.

**Rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth**

| | **Pa mor effeithiol yw'r cyngor wrth weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar y deilliannau y cytunwyd arnynt?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
|---|---|---|
| Trefniadau cyflawni a llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a threfniadau partneriaeth lleol | Ffurfiwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ym Medi 2021 ac mae wedi goruchwylio datblygiad a chyhoeddi'r asesiad a'r cynllun llesiant ar gyfer yr ardal. Dynododd adolygiad Archwiliad Mewnol bod lefel resymol o sicrwydd yn ei lle ar gyfer trefniadau llywodraethu'r awdurdod. Ond mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y trefniadau cyflawni gan fod y gwaith hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar asesu a chynllunio. | Adroddiad Archwiliad Mewnol ar Bartneriaethau |
| Datblygu ein syniadau a'n ffordd o feddwl i gynllunio yn y tymor hwy ochr yn ochr â phreswylwyr Sir Fynwy, grwpiau cymunedol a phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus | Ymgysylltodd y Cabinet â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. Cyflwynwyd trefniadau craffu newydd, wedi eu hanelu at wella ymgysylltu'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ym Mai 2023, tra mae Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus newydd yn cael ei datblygu a'i goruchwylio gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 |
| Trefniadau llywodraethu effeithiol trwy'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol | O 30 Mehefin 2022, rhoddwyd y cyfrifoldeb cyfreithiol am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol Rhanbarthol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a beth bynnag sy'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i wella neu hyrwyddo llesiant economaidd yr ardal i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru. Mae'r pwyllgor yn cynnwys arweinwyr y deng awdurdod lleol yn ne ddwyrain Cymru. Cyhoeddir yr holl bapurau llywodraethu ar wefan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Goruchwylir y trefniadau gan gyd-bwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r deg awdurdod lleol gyda'r gweithgaredd rheoleiddiol ychwanegol yn cael ei gyflawni gan Archwilio Cymru. | Papurau Llywodraethu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |

| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd trwy ein hunan-asesiad 2022/23** |
|---|
| Cryfhau'r ffordd yr ydym yn gweithio gydag ac ochr yn ochr â chymunedau yn unol â'r ymrwymiad yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. |

## Ein Camau Gweithredu

Trwy’r hunan-asesiad, rydym wedi dynodi pa mor dda yr ydym yn gwneud a beth allwn ni ei wneud yn well. Nid dynodi’r rhain yw diwedd y broses hunan-asesu. Byddwn yn edrych ar adeiladu ar y meysydd sy’n mynd yn dda a dysgu oddi wrthynt a cheisio gwella meysydd lle gallwn wneud yn well.

Mae’r cynllun gweithredu’n canolbwyntio’n benodol ar beth a sut y gallwn wneud yn well ar gyfer casgliadau arwyddocaol yr asesiad. Bydd yr holl ganfyddiadau yn sail i ddatblygu amcanion llesiant y cyngor a’r cynlluniau cyflawni ac yn sail i bennu sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid i gefnogi cynllunio, cyflawni a llunio penderfyniadau mwy effeithiol i yrru gwell deilliannau, a ffyrdd blaengar o gyflawni swyddogaethau’r cyngor yn well. Mae’r rhain hefyd yn integreiddio gyda’r camau pellach a ddynodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 y cyngor.

Bydd y camau gweithredu’n cael eu monitro trwy’r flwyddyn fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y cyngor. Bydd yr adroddiad hunan-asesiad nesaf hefyd yn cynnwys asesiad o’r cynnydd a wnaed mewn cymhariaeth â’r camau gweithredu hyn.

### Cynnydd ar Gamau Gweithredu 2021/22?

Rydym wedi rhoi’r diweddaraf am gynnydd mewn cymhariaeth â’r camau gweithredu a ddynodwyd yn adroddiad hunan-asesiad 2021/22. Rhoddir asesiad manylach o’r trefniadau hyn yn yr adran berthnasol o’r adroddiad.

| Adran | Beth allwn ni ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Lle | Deall lles cyfredol, gan gynnwys effeithiau'r blynyddoedd diwethaf, ar bobl a'n cymunedau i gadw dealltwriaeth gyfoes o les. | Ymgysylltu â chymunedau i ddeall heriau a chyfleoedd o'u safbwynt nhw gan gynnwys cyfranogiad preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth | Roedd datblygu’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 yn seiliedig ar ystod o weithdai ar y cyd yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth.<br><br>Mae amrywiaeth o brosiectau wedi hwyluso cyfranogiad preswylwyr gan gynnwys cyllidebu cyfranogol.<br><br>Gwelwyd rhai heriau i benderfyniadau sy’n cael eu symud ymlaen gan y cyngor yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae’r cyngor yn ymrwymedig i gryfhau ymgysylltu ymhellach gyda phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. |
| Deilliannau | Mynd i'r afael â meysydd ar gyfer datblygu, gan gynnwys cynnydd mewn costau byw, anghydraddoldebau iechyd a thrawsnewid tuag at garbon sero net, a nodwyd drwy asesu ein deilliannau. | Defnyddio’r meysydd datblygu a nodwyd yn yr hunan-asesiad i lywio cynllun corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth newydd. | Yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2022, dechreuodd y Cabinet newydd fynegi’r heriau a’r cyfleoedd mwyaf sy’n wynebu’r sir. Mae cyfres o weithdai cydweithredol, a thynnu ar amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys yr adroddiad hunan-asesu, wedi bod yn sail i ddatblygu Cynllun Cymunedol |

| Adran | Beth allwn ni ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | a Chorfforaethol y cyngor, sy’n gosod y cyfeiriad ar gyfer y sefydliad am y cyfnod 2022-28.<br><br>Cytunwyd ar y cynllun yn Ebrill 2023, ac effeithiodd hyn ar allu’r cyngor i roi eglurder o ran cyfeiriad polisi 2022/23 i fod yn sail i ddatblygu cynlluniau eraill sy’n gyson i gyflawni’r amcanion yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae’r rhain yn cynnwys y strategaethau galluogi lefel uchel sy’n ffurfio fframwaith polisi’r cyngor a’r cynlluniau strategol, gan gynnwys cynlluniau busnes gwasanaethau, sy’n cyflawni’r ymrwymiadau manwl yn y cynllun |
| Adnoddau | Datblygu trefniadau hunan-asesu ac ymwreiddio meddylfryd gwerthusol | Adolygu’r broses hunan-asesu er mwyn llywio cynlluniau gwasanaeth a'r adroddiad hunan-asesu nesaf | Adolygwyd y broses i fod yn sail i’r adroddiad hunan-asesu ac fe’i gweithredwyd fel y nodir yn atodiad 2. Mae’r adroddiad hwn yn asesu cynnydd mewn cymhariaeth â’r meysydd i’w datblygu o’r adroddiad blaenorol sydd wedi cael eu symud ymlaen trwy gynlluniau gwasanaeth.<br><br>Er mwyn sicrhau bod hunan-asesu yn ymwreiddio yn ein hymarfer, mae angen datblygu her ymhellach ac ymwreiddio meddylfryd gwerthusol trwy fframwaith perfformiad y cyngor. Cynhelir adolygiad o broses 2022/23 gan gynnwys gweithdy gyda’r cyfranwyr ac adolygwyr allweddol i’r broses. |
| Adnoddau | Gwerthuso ac ystyried cyllid tymor canolig y cyngor, gan gynnwys effaith y pandemig a chynnydd mewn costau byw, gan gynnwys yr effaith uniongyrchol ar wasanaethau'r cyngor a'r effeithiau ar drigolion a busnesau'r sir. | Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n seiliedig ar dystiolaeth realistig a senarios wedi'u cynllunio, er mwyn arwain ein prosesau gosod cyllideb yn unol ag amcanion strategol y cytunwyd arnynt | Mae proses osod cyllideb sydd wedi hen sefydlu wedi galluogi’r Cyngor i gytuno ar gyllideb ar gyfer 2023/24, er bod pwysau sylweddol ar y gyllideb ac mae’r model Cynllun Ariannu Tymor Canolig yn dangos bwlch cynyddol yn y gyllideb dros y pum mlynedd nesaf, gyda diffyg o £23m y mae angen ymdrin ag o yn y flwyddyn ariannol 2026/27.<br><br>Mae angen datblygu’r Cynllun Ariannu Tymor Canolig, gan adlewyrchu’r gofynion cyllido cyfredol er mwyn cael dull wedi ei strwythuro a’i gynllunio i ddarparu gwasanaethau yn y tymor canolig, yn unol â blaenoriaethau Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. Mae’r heriau ariannol yn creu risg i’r |

| Adran | Beth allwn ni ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | gallu i gyflawni rhai o’r ymrwymiadau yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. |
| Adnoddau | Trefniadau cynllunio'r gweithlu cadarn i sicrhau y gallwn ddatblygu, denu, a chadw'r gweithlu gyda'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnom i ddarparu gwasanaethau a chyflawni ein canlyniadau. | Datblygu diwylliant cynllunio gweithlu cadarn sy'n gallu ymdopi â gofynion newidiol y cyngor a gwreiddio ethos recriwtio sy'n gweithio'n lleol ac yn annibynnol i ddiwallu anghenion ardaloedd gwasanaeth gwahanol. | Sefydlwyd tîm gyda ffocws penodol ar gynllunio a datblygu gweithlu, yn ymgorffori recriwtio, cadw, prentisiaethau a hyfforddiant. Darparwyd hyfforddiant ar gynllunio gweithlu. Mae angen datblygu ymhellach i sicrhau bod gan y sefydliad y gweithlu y mae arno ei angen i ddiwallu’r gofynion cyfredol a rhai’r dyfodol. |
| Adnoddau | Data yw un o'r adnoddau pwysicaf wrth gynllunio gwasanaethau ac ar hyn o bryd nid oes gennym y seilwaith a'r sgiliau i sicrhau'r defnydd mwyaf posibl ohono. | Datblygu'r llwyfannau a'r sgiliau i alluogi defnyddio data fel offeryn cynllunio a pherfformio hanfodol drwy'r sefydliad. | Mae’r ‘hwb data’, y rhan fesur perfformiad ar safle mewnrwyd y cyngor wedi cael ei adnewyddu a’i ddiweddaru. Datblygwyd bwrdd rheoli rhyngweithiol newydd y gellir ei ddefnyddio i olrhain cynnydd y mesurau a nodwyd yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Datblygwyd rhagor o fyrddau rheoli i roi data sy’n rhoi dealltwriaeth o ddata i fod yn sail i gynllunio a llunio penderfyniadau’r cyngor, er enghraifft, trwy ddefnyddio data Cyfrifiad 2021.<br><br>Mae angen datblygu ymhellach i wella aeddfedrwydd data’r cyngor a defnyddio data i greu dealltwriaeth i fod yn sail i lunio penderfyniadau. |
| Rhanddeiliad a Phartneriaeth | Rydym yn gweithio'n dda gyda sefydliadau partner, mae angen i ni ymestyn hyn i gynnwys gwell ymgysylltu â'r gymuned i ddarganfod beth sydd bwysicaf i'n trigolion, busnesau ac ymwelwyr a chynllunio tymor hwy, dysgu o'r arfer gorau, ochr yn ochr â thrigolion, grwpiau cymunedol a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus. | Gwella'r gwaith partneriaeth rhwng y cyngor, trigolion, busnesau, grwpiau cymunedol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i sicrhau'r effaith fwyaf posibl o allu pawb wrth eu cymhwyso gyda'i gilydd. | Mae ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol wedi gosod bwriad clir i weithio gydag ac ochr yn ochr â chymunedau. Mae enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol ac adsefydlu ffoaduriaid o Wcráin. Ond mae angen gwneud mwy i ymwreiddio’r ymrwymiad hwn ym mhob agwedd o’n gwaith. |
| Pob un | Mynd i'r afael â meysydd ar gyfer datblygu a chamau gweithredu, a | Ymgorffori camau gweithredu mewn cynlluniau gwasanaeth ac asesu fel rhan o'r adroddiad hunan-asesu nesaf. | Mae’r adroddiad hunan-asesu hwn yn asesu cynnydd mewn cymhariaeth â’r meysydd i’w datblygu o’r adroddiad |

| Adran | Beth allwn ni ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | nodwyd drwy'r adroddiad hunan-asesu. | | blaenorol sydd wedi cael eu symud ymlaen trwy’r flwyddyn trwy gynlluniau gwasanaeth. |

Beth a sut allwn ni ei wneud yn well 2022/23?

| Adran | Beth allwn ni ei wneud yn well | Sut | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| **Deilliannau** | Sicrhau bod ymyraethau i gyflawni amcan Lle Teg i Fyw ar sail tystiolaeth, wedi eu targedu, yn cael eu cyfleu yn glir ac yn cael eu gwerthuso i asesu eu heffaith. | Datblygu cynlluniau clir i gyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Prif Swyddog Cymunedau a Lle | Mawrth 2024 |
| **Deilliannau** | Cyflymu cyflawni Strategaeth Ddatgarboneiddio’r cyngor | Diwygio cynlluniau’r cyngor i gyflawni ei ymrwymiad i fod yn sero net erbyn 2030. | Prif Swyddog Cymunedau a Lle | Rhagfyr 2023 |
| **Deilliannau** | Defnyddio dadansoddiad economaidd a gomisiynwyd i fod yn sail i ddatblygu Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau | Datblygu Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau i gyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Prif Swyddog Cymunedau a Lle | Hydref 2023 |
| **Deilliannau** | Mynegi yn glir a gwerthuso cynlluniau i gyflawni gofal cymdeithasol i Oedolion a Phlant o safon uchel. | Datblygu cynlluniau clir i gyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Diogelu | Mawrth 2024 |
| **Deilliannau** | Sicrhau bod y cynllun gweithredu’n cael ei gyflawni sy’n anelu at ymdrin â’r argymhellion a ddynodwyd gan Estyn | Cyflawni ac asesu cynnydd ar y Cynllun Gweithredu argymhellwyd gan Estyn | Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc | Yn unol â’r cynllun gweithredu |
| **Adnoddau** | Strategaethau galluogol clir i gyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Datblygu strategaethau galluogol i gyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Arweinyddion strategaeth alluogol | Tachwedd 2023 |
| **Adnoddau** | Ymwreiddio cyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 yn fframwaith perfformiad y cyngor | Ymwreiddio camau yng nghynlluniau busnes gwasanaethau.<br><br>Adolygu’r broses hunan-asesu i fod yn sail i ddatblygu cynlluniau busnes gwasanaethau‘r adroddiad hunan-asesu nesaf | Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Hydref 2023 |
| **Rhanddeiliad a Phartneriaeth** | Cryfhau’r ffordd yr ydym yn gweithio gydag ac ochr yn ochr â chymunedau yn unol â’r | Datblygu cynllun clir o ran cynnwys pobl sy’n gyson ag ymrwymiadau’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Mawrth 2024 |

ymrwymiadau yn y Cynllun Cymunedol a
Chorfforaethol.





## Dulliau Mesur Perfformiad








Mae defnyddio dulliau mesur perfformiad yn un o'r peirianweithiau pwysig yr ydym yn eu defnyddio i asesu ein perfformiad. Mae gan bob un o'n nodau ddulliau mesur perfformiad penodol wedi eu gosod i fonitro cynnydd. Nodir rhai dangosyddion perfformiad perthnasol eraill yr ydym yn eu defnyddio i asesu perfformiad ein gwasanaethau yn yr adran hon.











Gosodwyd dangosyddion cenedlaethol fel rhan o'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer mesur y cynnydd tuag at gyflawni nodau llesiant yng Nghymru gyfan. Er na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur perfformiad cyrff cyhoeddus unigol na byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig iddynt gael eu hystyried i olrhain y cynnydd a wneir i wella llesiant yn Sir Fynwy. Cynhwysir rhai o'r dangosyddion cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcanion yr ydym ni wedi eu gosod, pan fydd diweddariad ar gael ar lefel sirol, yn y tabl isod.








**Mesurau tymor hwy yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28**

Ochr yn ochr â'r mesurau penodol a gynhwysir dan bob amcan mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol hefyd yn cynnwys mesurau ar gyfer pob amcan y gallwn eu holrhain oherwydd y byddant yn sail i'n gwaith. Rydym am weld symudiad cadarnhaol yn y mesurau hyn, ond maent yn bethau lle mai dim ond rhan o ddarlun llawer mwy yw ein mewnbwn ni. Gellir gweld y diweddariad diweddaraf o'r mesurau isod.

| Mesurau tymor hwy yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028 | Tuedd | Diweddaraf |
|---|---|---|
| **Lle teg i fyw** | | |
| Canran o blant yn byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel[xix] |  | 17.4 |
| Canran o bobl yn byw ar aelwydydd ag amddifadedd materol[xx] |  | 8 |
| Gwahaniaeth cyfartaledd cyflog rhwng dynion a menywod sy'n gweithio yn y sir |  | 85.4 |
| **Lle gwyrdd i fyw** | | |
| Gwastraff bwyd a gasglwyd o'r ffrwd wastraff a'i anfon i Dreulio Anaerobig (tunelli) |  | 5,062 |
| Gwastraff gweddilliol a gynhyrchir i bob person ar gyfartaledd yn flynyddol (kilogram)[xxi] |  | 125.39 |

| **Mesurau tymor hwy yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028** | **Tuedd** | **Diweddaraf** |
|---|---|---|
| Lefel gyfartalog o lygredd nitrogen deuocsid yn yr aer (µg/m3), wedi ei fesur mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Fynwy[xxii] |  | 6 |
| Nifer o eiddo mewn risg ganolig neu uchel o ddioddef llifogydd [xxiii] | Data'r duedd ddim ar gael | 1825 |
| Canran o gyrff dŵr dalgylch afonydd yr Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n methu'r targedau ffosfforws [xxiv] | Data'r duedd ddim ar gael | 88 ar gyfer Afon Wysg 67 ar gyfer Afon Gwy |
| **Lle Sy'n Ffynnu ac yn Uchelgeisiol** | | |
| Nifer y cerddwyr ar gyfartaledd bob awr yng nghanol trefi[xxv] |  | 288 |
| Canran o adeiladau gwag yng nghanol trefi[xxvi] |  | 8.8 |
| Nifer o deithwyr rheilffordd yn defnyddio gorsafoedd trên Sir Fynwy[xxvii] |  | 625,374 |
| Traffig cerbydau yn ôl awdurdod lleol (miliwn o filltiroedd) [xxviii] |  | 896.1 |
| Incwm i'w wario gros yr aelwyd y pen (£)[xxix] |  | 22,321 |
| **Lle diogel i fyw** | | |
| Canolrif prisiau tai mewn cymhariaeth â'r canolrif enillion yn y gweithle[xxx] |  | 9.24 |
| Cyfradd yr aelwydydd yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen sy'n cael blaenoriaeth i bob 10,000 o aelwydydd |  | 60 |
| Canran y tai cymdeithasol a ddyrannwyd i aelwydydd digartref |  | 62 |
| Cyfartaledd yr allyriadau carbon y pen yn Sir Fynwy (tunelli)[xxxi] |  | 9.1 |

| **Mesurau tymor hwy yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028** | **Tuedd** | **Diweddaraf** |
|---|---|---|
| Cyfradd y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol i bob 1,000 o'r boblogaeth |  | 10.56 |
| Nifer yr achosion treisio a throseddau rhywiol a gyflawnwyd[xxxii] |  | 200 |
| Canran o bobl oedd yn teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio[xxxiii] |  | 75 |
| Canran o gartrefi sydd â chyfradd effeithlonrwydd ynni o C neu uwch[xxxiv] |  | 49.2 |
| Y ganran o'r rhai a gyfeiriwyd at y gwasanaeth troseddwyr ifanc sy'n aildroseddu wedyn |  | 12.5 |
| **Lle Cysylltiedig Lle mae Pobl yn Gofalu** | | |
| Canran o blant sy'n cael eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu (heb gynnwys plant sy'n derbyn gofal) |  | 61.1 |
| Nifer o blant sy'n cael eu hadsefydlu ar ôl cyfnod o gael gofal |  | 19 |
| Y ganran o bobl sy'n unig[xxxv] |  | 12 |
| Y ganran o bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael at/ mynediad at y cyfleusterau a gwasanaethau y mae arnynt eu hangen[xxxvi] |  | 86 |
| Y ganran o bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw[xxxvii] |  | 95 |
| Disgwyliad oes iach wrth eni (menywod)[xxxviii] |  | 69.3 |


| Mesurau tymor hwy yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028 | Tuedd | Diweddaraf |
|---|---|---|
| Disgwyliad oes iach wrth eni (dynion)[xxxix] |  | 68.7 |
| Disgwyliad oes wrth eni (menywod)[xl] |  | 84.6 |
| Disgwyliad oes wrth eni (dynion)[xli] |  | 81.6 |
| Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair neu fwy o weithiau'r wythnos[xlii] |  | 43 |
| Canran y bobl sy'n cymryd rhan neu'n mynychu gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth dair neu fwy o weithiau'r flwyddyn[xliii] | Data'r duedd ddim ar gael | 71 |
| Y nifer o ofalwyr a gofalwyr ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y tîm gofalwyr |  | 168 |
| Y nifer o swyddi gwag yn y gweithlu gofal cymdeithasol |  | 56 |
| **Lle i ddysgu** | | |
| Cyfradd o waharddiadau tymor penodol o lai na 5 diwrnod i bob mil o ddisgyblion (dyddiau) - Disgyblion Cynradd [xliv] | Data'r duedd ddim ar gael | Y cyfan - 16<br>eFSM – 37.2 |
| Cyfradd o waharddiadau tymor penodol o lai na 5 diwrnod i bob mil o ddisgyblion (dyddiau) - Disgyblion Uwchradd | | Y cyfan - 123.7<br>eFSM – 369 |
| Cyfradd o waharddiadau tymor penodol o fwy na 5 diwrnod i bob mil o ddisgyblion (dyddiau) - Disgyblion Cynradd | Data'r duedd ddim ar gael | Y cyfan – 0.6<br>eFSM – 1.0 |
| Cyfradd o waharddiadau tymor penodol o fwy na 5 diwrnod i bob mil o ddisgyblion (dyddiau) - Disgyblion Uwchradd | | Y cyfan – 2.2<br>eFSM – 4.5 |
| Canran o oedolion gyda chymwysterau ar Lefel 4 ac uwch o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol |  | 52.6 |

Mae defnyddio peirianwaith fel rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (diagram 7 yn yr adran Beth Ddywedodd Dinasyddion isod) yn ffordd yr ydym yn ceisio ehangu ein dealltwriaeth o lesiant yn Sir Fynwy, yn ychwanegol at fesur perfformiad penodol i wasanaeth.

# Yr hyn a wariwyd gennym yn 2022/23


Yn 2022/23, gwariodd y cyngor £190.3 miliwn yn darparu gwasanaethau i breswylwyr Sir Fynwy.


Dangosir y gyfran o'n gwariant ar wahanol wasanaethau yn 2022/23 yn y diagram. Telir am y gwasanaethau hyn drwy gyfuniad o grantiau llywodraeth ganolog, y dreth gyngor, ardrethi annomestig a chyfraniad gan Gronfa'r Cyngor.






**Sut mae ein gwariant refeniw yn cymharu ag ardaloedd eraill**

Mae'r graffiau isod yn dangos faint yr ydym wedi ei wario y pen o'r boblogaeth ar ein meysydd sy'n cael blaenoriaeth. Yn 2021/22, fe wnaethom wario llai ar wasanaethau y pen o'r boblogaeth na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a gennym ni roedd y gwariant refeniw gros y pen isaf o holl gynghorau Cymru. Ond, rydym hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr arian yn mynd lle mae'n bwysig. Ar gyfer 2023/24 rydym wedi derbyn cynnydd yn y cyllid craidd, ond mae ein setliad cyllideb gan Lywodraeth Cymru yn parhau yr isaf y pen o boblogaeth o gynghorau Cymru.



## Beth a ddywedodd dinasyddion

Mae ymwneud a chydweithio â thrigolion a chymunedau yn Sir Fynwy yn hanfodol i ddatblygu a chyflwyno atebion i gyflawni canlyniadau a sicrhau bod trigolion yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Trwy ein hunan-asesiad rydym wedi defnyddio barn defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr i fod yn sail i'n hasesiad. Mae rhai o'r ymarferion ymgysylltu penodol yr ydym wedi cynnal i gynnwys dinasyddion eleni yn cynnwys:

**Ymgysylltu â'r gyllideb** Lansiodd Cyngor Sir Fynwy ei argymhellion cyllideb drafft ar gyfer 2023-2024 yn Ionawr 2023. Gwahoddwyd cymunedau Sir Fynwy i rannu eu barn am y newidiadau posibl hyn mewn proses ymgynghori agored. Rhannwyd amrywiaeth o wybodaeth am y cynigion a'u heffeithiau posibl. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ar y gyllideb ar draws Sir Fynwy. Cynhaliwyd dwy sesiwn gyllideb ar-lein a sesiwn benodol i fforwm ieuenctid Sir Fynwy. I'r rhai oedd yn methu ymuno â'r ffrwd byw, uwchlwythwyd y sesiwn i'r wefan i'w gwylio ar ôl y digwyddiad. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i breswylwyr hefyd rannu eu syniadau trwy arolwg adborth am gynigion y gyllideb. Gofynnwyd i'r preswylwyr rannu eu barn a ddylai Cyngor Sir Fynwy godi premiwm treth ar bobl sy'n berchen eiddo gwag am dymor hir ac ail gartrefi yn y sir.




**Cynigion Adnewyddu:** Datgelwyd y cynlluniau gwella diweddaraf ar gyfer Stryd Mynwy yn Nhrefynwy a chynhaliwyd ymgynghoriad. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus hefyd i breswylwyr a busnesau yng Nghas-gwent a'r ardal i gasglu adborth am syniadau sy'n cael eu cynnig yn y Cynllun Meistr Trawsnewid Cas-gwent. Roedd nifer o gyfleoedd ymgysylltu wyneb yn wyneb ar gael ar gyfer y ddau ymgynghoriad i breswylwyr yn lleol, cynhaliwyd arddangosfeydd o'r cynlluniau yn yr ardal leol a dolen i arolwg i bobl ei lenwi ar y wefan.

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd** Cyhoeddwyd ein Strategaeth a Ffafrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd gennym i ymgynghori arno ac ymgysylltu. Mae'r strategaeth yn nodi darpariaethau ar gyfer cartrefi newydd a dyraniadau safle yn y Sir. Gwahoddwyd sylwadau am y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, sy'n rhestru'r holl safleoedd a gyflwynwyd gan dirfeddianwyr, datblygwyr a grwpiau eraill i'w cynnwys o bosibl yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**Newidiadau i gyfyngiadau cyflymder 20 mya:** Pasiodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth ar 12 Gorffennaf 2022 fydd yn gweld y cyfyngiad cyflymder mewn ardaloedd adeiledig yn cael ei ostwng o 30mya i 20mya trwy Gymru. Yn y cyfnod cyn y newid deddfwriaethol hwn, ariannodd Llywodraeth Cymru barthau 20mya treialu, un ohonynt yng Nglannau Hafren. Er bod cefnogaeth glir wedi bod i'r 20mya ar strydoedd preswyl, fe dderbyniwyd pryderon am y cyfyngiad cyflymder ar y B4245. Yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth sydd ar gael, cynigiwyd newidiadau i geisio ymdrin â rhai o'r pryderon cymunedol a fynegwyd gan dafoli hyn gyda'r manteision o ostwng cyfyngiadau cyflymder, oedd yn ddarostyngedig i broses ymgynghori am 28 diwrnod ac yn dilyn adolygiad o'r ymatebion a gymeradwywyd.


**Cwynion a Chanmoliaeth Cwsmeriaid:** Rydym yn monitro ac yn dysgu oddi wrth adborth a dderbynnir gan gwsmeriaid. Rhoddir adroddiad ar y rhain i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y problemau'n cynnwys yr amser yr ydym yn ei gymryd i ymateb i bobl. Nid yn unig y mae'n bwysig delio â chwynion yn effeithiol, ymchwilio a gwneud pethau'n iawn i'r achwynydd lle bo angen, mae hefyd yn hanfodol dysgu oddi wrthynt i leihau'r siawns y bydd yr un broblem yn digwydd ddwywaith. Cyfeiriwyd ugain o gwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2021-22, y flwyddyn olaf y mae data ar gael ar ei chyfer. Gan Sir Fynwy y mae un o'r lefelau isaf o gwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon ar 0.21 i bob 1,000 o breswylwyr. Mae hyn yn amrywio o 0.20 i 0.72 gyda chyfartaledd o 0.36.


**Mesur Llesiant Unigolion**


Mae rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol yr Ystadegau Gwladol hefyd yn asesu llesiant personol fel rhan o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Mae'r arolwg yn gofyn y cwestiynau:


- **Boddhad Bywyd** - ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd y dyddiau hyn?
- **Gwerth chweil** – yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau yr ydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn rhai gwerth chweil?
- **Hapusrwydd** – yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?
- **Gor-bryder** – Ar raddfa lle mae 0 yn 'ddim yn orbryderus o gwbl' a 10 yn gorbryderus iawn, yn gyffredinol, pa mor orbryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?

Mae'r canlyniadau blynyddol llawn diweddaraf ar gyfer Sir Fynwy (o 2021/22) ar gyfer y cwestiynau hyn yn cael eu dangos yn y diagram isod, ochr yn ochr â chyfartaleddau'r Deyrnas Unedig a Chymru. Mae hyn yn dangos bod ymatebion trigolion Sir Fynwy yn sgorio ychydig yn well na'r Deyrnas Unedig a Chymru ar gyfer pob mesur.




**Ymgysylltu â staff**

Fel rhan o’r broses i lunio’r hunan-asesiad, cynhaliwyd gweithdai i gyfarwyddiaethau a gwasanaethau galluogi i roi cyfle i staff fwydo’n uniongyrchol i’r hunan-asesiad trwy ddynodi eu cryfderau eu hunain a meysydd i’w datblygu. Cyflwynwyd pecynnau tystiolaeth i’r rhai ddaeth i’r gweithdai, oedd wedi eu llunio o’r ffynonellau gwybodaeth sy’n bodoli fel adroddiadau craffu, adborth rheoleiddiwr allanol, a chynlluniau busnes gwasanaethau, ac fe’u hwyluswyd i hunan-asesu eu perfformiad. Casglwyd amrywiaeth o dystiolaeth o’r gweithdai, o ran llwyddiannau a meysydd i’w datblygu yn gysylltiedig â’n nodau strategol a’n swyddogaethau galluogi, ond hefyd ar sut i gryfhau’r broses hunan-asesu.

Rydym hefyd wedi defnyddio tystiolaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ddigwyddiadau staff a grwpiau. Roedd y rhain yn cynnwys y sesiynau ymgysylltu â staff ‘Cwtch’ digidol ac yn y cnawd, ynghyd â’r sesiwn Holi ac Ateb Arweinwyr Pobl a’r Gweithgor Pobl. Trwy ddefnyddio rhwydweithiau a chyfathrebu digidol, arolygon a dolenni adborth i uwch reolwyr, mae’r cyswllt gyda’r gweithlu wedi cael ei ymestyn.

**Busnesau**

Rydym wedi sefydlu rhwydweithiau ymgysylltu cryfach gyda busnesau yn ein hardal ers dechrau'r pandemig ac rydym yn gweithio i gynnal a gwella'r cysylltiadau hyn. Mae gennym ddealltwriaeth well o'r mathau o fusnesau yn ein hardal. Rydym yng nghamau olaf ffurfio system newydd a fydd yn gweithredu fel y gronfa ddata o fusnesau Sir Fynwy ac offeryn i hyrwyddo’r gwasanaethau cyngor a chyfarwyddyd y gallwn eu darparu i fusnesau cyn iddynt ddechrau a’r rhai sy’n bodoli. Penodwyd Swyddog Data Busnes a Chyfathrebu fydd yn hwyluso gweithredu’r system hon ac yn helpu i wella’r adborth yr ydym yn ei dderbyn gan fusnesau i sicrhau ein bod yn manteisio ar y sgyrsiau sy’n digwydd ac y gallwn wella ein gwasanaeth i fusnesau o ganlyniad i hynny. Bydd adborth yn parhau i fod yn sail i’n hunan-asesiad.

**Undebau Llafur**

Rydym yn cysylltu'n dda ag Undebau Llafur i gyflawni ein canlyniadau. Rydym wedi rhoi gwybod iddynt am y broses yr ydym yn ei chynnal i gwblhau ein hunan-asesiad a byddwn yn rhannu ein canfyddiadau gyda hwy fel rhan o’n proses hunan-asesu.

## Yr hyn a ddywedodd Rheoleiddwyr ac Arolygwyr

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rheoleiddwyr a'n harolygwyr i sicrhau ansawdd ein gweithgareddau, gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau gwelliant. Gwerthfawrogir eu hadborth ac rydym yn defnyddio eu hasesiadau i'n helpu i ganolbwyntio ar y pethau y mae angen i ni eu gwella ar draws y cyngor.

Bob blwyddyn, bydd Archwilio Cymru yn cyhoeddi Cynllun Archwilio, sy'n dangos y gwaith y maent yn bwriadu ei wneud yn y cyngor. Fel rhan o'r cynllun mae Archwilio Cymru wedi cynnal gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg mwy manwl yn y cyngor yn ystod 2022/23. Roedd hyn yn canolbwyntio ar sefyllfa ariannol y cyngor, Oblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r cynllun lleihau Carbon.

Mae adroddiadau a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru ar gael i'w lawrlwytho ar eu gwefan (www.audit.wales/publications). Mae hyn yn cynnwys adroddiadau cenedlaethol llywodraeth leol.

Fe gawsom archwiliad gan Estyn i Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2020. Roedd yr arolygiad yn cydnabod y weledigaeth glir a'r ffocws cryf ar sicrhau 'y dechrau gorau posibl mewn bywyd' a nododd hefyd yr ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth sydd wedi arwain at hanes da o wella. Nododd hefyd feysydd i'w datblygu, megis perfformiad plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a diffyg eglurder o ran sut y bydd gwasanaethau i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu cryfhau. Mae gwaith ar y gweill yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r adroddiad i'w weld ar www.estyn.llyw.cymru

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad gwerthuso Adolygiad perfformiad o wasanaethau oedolion yn y cyngor yng Ngorffennaf 2022. Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth arfer ei ddyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol a'i swyddogaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r canfyddiadau'n cydnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu y mae'r cyngor yn mynd i'r afael â nhw. Gellir gweld adroddiadau arolygiadau am wasanaethau cymdeithasol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn www.careinspectorate.wales

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae gan y cyngor ymrwymiad hirsefydlog i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ein trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a gynhyrchwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi amcanion y cyngor i sicrhau ein bod yn cyflawni gwell canlyniadau i bobl â nodweddion a ddiogelir. Mae hyn yn cyd-fynd yn glir â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Asesiad Llesiant, a thystiolaeth a ddarparwyd gan adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n Decach 2018".

Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig i ni gan mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Rydym yn cynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar y cynllun gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn dangos bod arferion da'n cael eu cynnal ar draws adrannau'r cyngor. Mae'r rhain i'w gweld yma.

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae'r Gymraeg yn ganolog i'r nodau a gyflwynwyd fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig am ein cyfraniad i Gymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a safonau'r Gymraeg, yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 176 o safonau yn berthnasol i'r Cyngor. Mae hon yn her sylweddol ond mae systemau wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae gennym Strategaeth y Gymraeg ar gyfer 2022-2027, sy'n dynodi gweledigaeth o sut y bydd yr iaith yn edrych yn Sir Fynwy mewn pum mlynedd ac mae targedau i gyd-fynd â'r Strategaeth i helpu i gyflawni hynny. Mae ein hadroddiad monitro blynyddol 2022/23 yn adlewyrchu ein cynnydd mewn cymhariaeth â'r ymrwymiadau i'r Gymraeg dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Gellir gweld yr adroddiad yma.

# Atodiad 1 – Proses hunan-asesu

**Deddfwriaeth**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'r Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd gwella flaenorol ar gyfer cynghorau a nodir yn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol; ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; mae ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r rhain.

Mae'r darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf wedi'u fframio yng nghyd-destun y ddyletswydd lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi diben cyffredin cyfreithiol rwymol ar gyfer cyrff cyhoeddus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Hunan-asesiad yw'r mecanwaith i gyngor barhau â'i berfformiad yn cael ei adolygu, gyda dyletswydd i gyhoeddi adroddiad yn nodi casgliadau'r hunan-asesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Bydd hunan-asesiad yn cael ei ategu gan asesiad perfformiad panel unwaith mewn cylch etholiadol, gan roi cyfle i chwilio am fewnwelediadau allanol (ac eithrio gan archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar sut mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

**Pam?**

Mae hunan-asesu yn ffordd o werthuso, yn feirniadol ac yn onest, y sefyllfa bresennol er mwyn gwneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae'n ymwneud â'r cyngor i ddod yn hunanymwybodol, yn deall a yw'n cyflawni'r canlyniadau cywir, ac yn herio'i hun i wella'n barhaus. Mae angen iddo gael ei wreiddio, gan fod hunan-asesu effeithiol yn helpu'r cyngor i ddysgu a sicrhau gwelliant cynaliadwy yn barhaus, a gwell canlyniadau i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a'i weithlu ei hun.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi egwyddorion drafft ar gyfer hunan-asesu i gynghorau er mwyn sicrhau bod ganddynt drefniadau mewn lle:

- sy'n dangos hunan ymwybyddiaeth sy'n deillio o ddadansoddiad, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau;
- sy'n cael eu perchnogi a'u harwain ar lefel strategol ac nad ydynt yn ymarfer cydymffurfio;
- sy'n datblygu ymhellach ddiwylliant o her er mwyn hwyluso gwelliant fel rhan o broses barhaus;
- sydd wedi'u hintegreiddio fel rhan o brosesau cynllunio, perfformiad a llywodraethu corfforaethol y cyngor; ac
- • sy'n galluogi asesiad ledled y sefydliad yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol.

Bydd datblygu'r diwylliant hwn ymhellach a sefydlu ffordd o feddwl gwerthusol yn bwynt datblygu allweddol trwy ychydig o fersiynau cyntaf yr adroddiad hunan-asesu.


**Proses**

Mae'r cyngor wedi datblygu proses i ymgymryd â'i ail hunan-asesiad o dan y Ddeddf, gan asesu perfformiad ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Prif elfennau'r broses a'r amserlen yw:

| **Chwef – Ebrill** | **Ebrill - Mehefin** | **Gorff – Awst** | **Medi** | **Hydref** |
|---|---|---|---|---|
| Casglu tystiolaeth ar ddesg | Gweithdai hunan-asesu cyfarwyddiaethau | Adroddiad hunan-asesu'r cyngor wedi ei ddrafftio | Adroddiadau drafft i'r Pwyllgor Craffu a Llywodraethu ac Archwilio. | Hunan-asesiad yn cael ei gytuno yn unol â phroses y cyngor. |

Mae'r amserlen hon yn sicrhau y gall yr hunan-asesiad lywio a chael ei lywio gan gyfeiriad polisi'r cyngor a sut mae'n defnyddio ei adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol, yn enwedig y broses o bennu'r gyllideb.

Mae tystiolaeth werthusol i lywio'r asesiad wedi'i lunio ar lefel cyfarwyddiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth wedi cael ei choladu drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei dal yn gorfforaethol mewn ffordd graff; mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, adroddiadau archwilio ac arolygu, a chynlluniau busnes ar lefel gwasanaeth.




Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi cael ei harchwilio ymhellach, a'i herio lle bo angen, mewn gweithdai hunan-asesu cyfarwyddiaethau ac ar sail swyddogaeth galluogi, i benderfynu a yw amcanion (canlyniadau) y cyngor yn cael eu cyflawni.

**Gweithdai hunan-asesu**

| **Gweithdai Cyfarwyddiaethau** | **Gweithdai swyddogaethau galluogi** |
|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | Polisi a Llywodraethiant– Cynllunio gweithlu |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Adnoddau – Cynllunio ariannol, Asedau a Digidol |
| Cymunedau a Lle | Cymunedau a Lle – Caffael |
| MonLife | Polisi Perfformiad a Chraffu – Perfformiad, Data a Chraffu |

Hwyluswyd y gweithdai trwy’r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda yr ydym yn cyflawni’r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt? (Y meysydd i’w datblygu yn yr hunan-asesiad a’r amcanion Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol)
- Sut ydym ni’n gwybod? (Tystiolaeth)
- Pa mor effeithiol y mae adnoddau’n cael eu defnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau? (Galluogwyr)
- Pa mor effeithiol yw’r cyngor wrth weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar y deilliannau y cytunwyd arnynt? (Gweithio mewn partneriaeth)
- Beth allwn ni ei wneud yn well? (Camau gweithredu – gan gynnwys adolygiad o gamau gweithredu o’r adroddiad blaenorol)

Mae’r dystiolaeth lawn a’r casgliadau o’r gweithdai wedi cael eu casglu a byddant yn cael eu defnyddio gan gyfarwyddiaethau a swyddogaethau galluogi i fod yn sail i’w cynlluniau busnes gwasanaethau.

Yn dilyn y gweithdai, mae'r dystiolaeth wedi'i hadolygu, ei herio ymhellach, a'i goladu i hunan-asesiad gwerthusol ar lefel gorfforaethol. Mae hyn wedi cael ei integreiddio â’r gofyn i’r cyngor roi adroddiad ar y cynnydd y mae wedi ei wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2022/23) dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’r adroddiad wedi ei strwythuro dan y penawdau hyn:

- Deall ein lle lleol
- Deilliannau (cynnydd o ran y meysydd i’w datblygu):
  - Pa mor dda yr ydym yn cyflawni’r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?
  - Sut ydym ni’n gwybod?
  - Meysydd i’w datblygu
- Swyddogaethau galluogi
  - Cynllunio corfforaethol, perfformiad a rheoli risg
  - Cynllunio ariannol
  - Cynllunio gweithlu
  - Caffael
  - Asedau
  - Digidol
  - Data
  - Democratiaeth a Chraffu
- Gweithio gyda phartneriaid
- Ein Camau Gweithredu (gan gynnwys cynnydd mewn cymhariaeth â chamau gweithredu blaenorol)

Craffwyd ar yr adroddiad hunan-asesu gan Bwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg y cyngor. Roedd drafft o’r adroddiad hunan-asesu ar gael i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a adolygodd yr adroddiad drafft, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth. Fe wnaethant rai awgrymiadau i wella cyflwyniad yr adroddiad ond ni wnaethant argymhellion ar gyfer newidiadau i’r casgliadau na’r camau gweithredu y mae’r cyngor yn bwriadu eu cymryd. Bydd yr hunan-asesiad yn cael ei gyflwyno i’w gymeradwy mewn cyfarfod o’r Cyngor llawn.

[i] Mae hyn yn mesur disgyblion ysgolion cynradd sy'n derbyn Ysgolion Cynradd Am Ddim Cyffredinol yn hytrach na'r nifer o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim

[ii] Mae'r Cynllun Cyfeirio Ymarfer Cenedlaethol yn ymyrraeth iechyd ar sail tystiolaeth sy'n ymgorffori newid corfforol ac ymddygiadol i gefnogi cleientiaid i newid eu ffordd o fyw i wella iechyd a llesiant

[iii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru

[iv] Gwneud Eich Marc: Ymgynghoriad blynyddol i bobl ifanc 11-25 oed yw Pleidlais Leol Sir Fynwy. Gweler https://www.monlife.co.uk/connect/youth-service/make-your-mark/make-your-mark-monmouthshire/ am ragor o fanylion

[v] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru

[vi] Cynllun gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw Hyderus o ran Anabledd a ddyluniwyd i annog cyflogwyr i recriwtio a chadw pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd.

[vii] Mesurir gan Arolwg Poblogaeth Flynyddol Cymru. Er nad yw hyn yn cael ei ystyried mor gywir â'r Cyfrifiad, mae ganddo'r fantais o gael ei ddiweddaru'n amlach gan adael i'r awdurdod olrhain cynnydd.

[viii] Mae hyn yn cynnwys allyriadau o weithrediadau'r cyngor a gweithrediadau ar y tir a'r gadwyn gyflenwi

[ix] Mae teithio gweithredol yn golygu symud o gwmpas mewn ffordd sy'n eich gwneud yn gorfforol weithredol, fel cerdded neu feicio. Mae'n golygu teithiau byr fel arfer, fel cerdded i'r siopau neu'r ysgol neu feicio i'r gwaith.

[x] Faint o wastraff trefol, neu wastraff 'bob dydd' a anfonwyd i'w ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio fel canran o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd. Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)

[xi] Wedi ei fesur gan ddefnyddio STEAM sy'n broses o fodelu effaith economaidd twristiaeth

[xii] Canran o adawyr ysgol blwyddyn 11 sy'n NEET. Hynt disgyblion | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)

[xiii] Mae hyn yn cynnwys llety newydd ar brydles, trosi adeiladau sy'n bodoli, caffael eiddo sy'n bodoli ar gyfer y diben hwn a'r rhai sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd a'u hariannu trwy'r grant tai cymdeithasol. Mae'n wahanol i ddata cynllunio sy'n canolbwyntio ar adeiladau newydd a'r rhai sydd wedi cael caniatâd cynllunio

[xiv] Holiadur defnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol oedolion

[xv] Rhaglen sgiliau a gweithgareddau chwaraeon yw MonGames, sy'n cael ei redeg fel arfer yn y gwyliau ysgol, wedi ei anelu at blant rhwng 5 ac 11 oed

[xvi] Ariennir hwn trwy grant allanol felly mae risg y gall y model hwn newid neu stopio

[xvii] Mae Active Play yn rhaglen dwy awr a ddyluniwyd ar gyfer plant rhwng 5 ac 11 oed lle maent yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol a hefyd celf a chrefft

[xviii] Holiadur defnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol oedolion

[xix] Mae incwm cymharol isel yn cyfeirio at bobl sy'n byw ar aelwydydd gydag incwm dan 60% o'r canolrif yn y flwyddyn honno

[xx] Mae amddifadedd materol yn ddull o fesur safonau byw. Ystyrir bod unigolyn yn byw mewn amddifadedd materol os nad yw'n gallu cael mynediad at nifer benodol o nwyddau neu wasanaethau. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yma: Amddifadedd materol ac incwm isel | LLYW.CYMRU

[xxi] Gwastraff aelwyd gweddilliol a gynhyrchir gan bob person (kilogram) yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)

[xxii] Dangosyddion Ansawdd Aer, fesul Awdurdod Lleol (llyw.cymru)

[xxiii] Yn mesur y niferoedd mewn risg oherwydd afonydd, y llanw a dŵr wyneb wedi eu cyfuno. Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Flooding/environment-and-countryside-state-of-the-environment-our-local-environment-properties-at-risk-of-flooding; Uwch na chyfle yn cyfateb i 1 mewn 30 (3.3%) neu yn hafal i hynny mewn unrhyw flwyddyn benodol. Y data yn y gwaelodlin ar gyfer 2019.
Risg Ganolig; Llai na 1 mewn 30 (3.3%) ond yn fwy na, neu'n cyfateb i 1 mewn 100 (1%) o gyfle mewn unrhyw flwyddyn i afonydd a dŵr wyneb greu llifogydd a llai na 1 mewn 30 (3.3 y cant) o gyfle ond mwy na 1 mewn 200 (0.5 y cant) neu hafal i hynny ar gyfer y môr.
Risg Isel; Llai na 1 mewn 100 (1%) i afonydd a dŵr wyneb greu llifogydd ac 1 mewn 200 (0.5 y cant) i'r môr ond mwy na 1 mewn 1,000 (0.1%) o gyfle neu hafal i hynny mewn unrhyw flwyddyn.

[xxiv] Asesiad Cydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws Adroddiad Rhif: 489. https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=cy

[xxv] https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/polisi-cynllunio-2/monitro-blynyddol/retail/

[xxvi] https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/polisi-cynllunio-2/monitro-blynyddol/retail/

[xxvii] Mesur y nifer sy'n cyrraedd a gadael. Ffynhonnell: https://dataportal.orr.gov.uk/statistics/usage/estimates-of-station-usage

[xxviii] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1144656/tra8902.ods
[xxix] Incwm yr Aelwyd Gros i'w Wario yw'r swm o arian sydd gan unigolion neu aelwydydd i'w wario neu ei gynilo. Incwm Aelwydydd Gros i'w Wario yn ôl ardal a mesur (llyw.cymru)
[xxx] Cymhareb prisiau tai i enillion yn y gweithle - Y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (ons.gov.uk)
[xxxi] Yn cynnwys allyriadau daearol o carbon deuocsid ($CO_2$), methan ($CH_4$) ac ocsid nitrws ($N_2O$). Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-greenhouse-gas-emissions-national-statistics-2005-to-2020
[xxxii] Ffynhonnell: Heddlu Gwent
[xxxiii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xxxiv] Effeithlonrwydd ynni Tai, Lloegr a Chymru, ardaloedd awdurdodau lleol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[xxxv] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xxxvi] Y ganran o bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a gwasanaethau y mae arnynt eu hangen
[xxxvii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xxxviii] Disgwyliad Oes Iach yw'r nifer o flynyddoedd sy'n cael eu byw mewn iechyd da o'i hunan-asesu
[xxxix] Disgwyliad Oes Iach yw'r nifer o flynyddoedd sy'n cael eu byw mewn iechyd da o'i hunan-asesu
[xl] Ffynhonnell: https://www.infobasecymru.net/IAS/themes/healthandsocialcare/generalhealth/tabular?viewId=47&geoId=1&subsetId=
[xli] https://www.infobasecymru.net/IAS/themes/healthandsocialcare/generalhealth/tabular?viewId=47&geoId=1&subsetId=
[xlii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xliii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xliv] Rhennir gwaharddiadau yn ôl hyd/math o waharddiad, yn 3 chategori: i) Gwaharddiadau tymor penodol: 5 diwrnod neu lai; ii) Gwaharddiadau tymor penodol: dros 5 diwrnod iii) Gwaharddiadau parhaol. Mae'r rhain yn cael eu mesur ar gyfer yr holl ddisgyblion a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Gellir cael rhagor o fanylion yn https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/4/1666256204/gwaharddiadau-parhaol-chyfnod-penodol-o-ysgolion-medi-2020-i-awst-2021.pdf